

At: Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu
Corfforaethol

Dyddiad: 21 Medi 2016

Rhif Union: 01824706204

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL, DYDD MERCHER, 28 MEDI 2016** am **9.30 am** yn **CONFERENCE ROOM 1A, COUNTY HALL, RUTHIN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYG

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryg yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 5 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2016 (copi ynghlwm).

5 PROSES Y GYLLIDEB 2017/18 (Tudalennau 15 - 20)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau (copi ynghlwm) sy'n rhoi diweddariad ar y broses i gyflawni'r gyllideb refeniw ar gyfer 2017/18.

- 6 LLYTHYR YMHOLIADAU ARCHWILIO SIR DDINBYCH** (Tudalennau 21 - 40)
Ystyried adroddiad gan y Prif Gyfrifydd (copi ynghlwm) i gyflwyno'r Llythyr Ymholiadau Archwilio ac ymateb y Cyngor i'r ymholiadau hynny.
- 7 CYMERADWYO'R DATGANIAD CYFRIFON** (Tudalennau 41 - 212)
Ystyried adroddiad gan y Prif Gyfrifydd (copi ynghlwm) ar Ddatganiad Cyfrifon 2015/16.
- 8 ADRODDIAD ESTYN AR GONSORTIWM RHANBARTHOL GWE**
(Tudalennau 213 - 230)
Ystyried adroddiad llafar gan y Pennaeth Addysg ynghylch Adroddiad Estyn ar Gonsortiw m Rhanbarthol GwE.
- 9 DIOGELU CORFFORAETHOL - ADRODDIAD DIWEDDARU** (Tudalennau 231 - 250)
Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol (copi ynghlwm) sy'n rhoi diweddariad ar gynnydd gweithredu'r cynllun gweithredu a oedd yn cyd-fynd â'r adroddiad Archwilio Mewnol ar Ddiogelu Corfforaethol ym mis Awst, 2015.
- 10 YSGOL MAIR Y RHYL - DIWEDDARIAD ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 251 - 258)
Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol (copi ynghlwm) sy'n rhoi diweddariad ar gynllun gweithredu'r adroddiad Archwilio Mewnol ar gyfer Ysgol Mair.
- 11 RHEOLI FFLYD - ADRODDIAD DIWEDDARU** (Tudalennau 259 - 272)
Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol (copi ynghlwm) sy'n rhoi diweddariad ar gynnydd gweithredu'r Cynllun Gweithredu a oedd yn cyd-fynd â'r adroddiad Archwilio Mewnol ar Reoli'r Fflyd Gorfforaethol ym mis Hydref, 2015.
- 12 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**
(Tudalennau 273 - 276)
Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor (copi ynghlwm.)

RHAN 2 - EITEM GYFRINACHOL

Argymhellir yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu (fel y'i diffinnir ym mharagraff "14") Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

13 ADRODDIAD ARCHWILIAD MEWNOL - GWASANAETHAU PARCIO
(Tudalennau 277 - 296)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol (copi ynghlwm) sy'n rhoi manylion adroddiad Archwilio Mewnol diweddar ar Wasanaethau Parcio a gafodd sgôr sicrwydd "Isel".

14 ARCHWILIO SYSTEM RHEOLI GWYBODAETH FEWNOL A RHEOLI TG MEWN YSGOLION (Tudalennau 297 - 326)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol (copi ynghlwm) sy'n rhoi manylion adroddiad Archwilio Mewnol diweddar ar Reoli Gwybodaeth a Rheoli TG mewn Ysgolion a gafodd sgôr sicrwydd "Isel".

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Stuart Davies
Peter Duffy
Martyn Holland

Alice Jones
Jason McLellan
Win Mullen-James

Aelod Lleyg

Paul Whitham

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cyngorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 13 Gorffennaf 2016 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Martyn Holland, Alice Jones, Jason McLellan (Cadeirydd) a Mr Paul Whitham (Aelod Lleyg).

Mynychodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill fel arsylwr.

HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Democrataidd (GW), Pennaeth Archwilio Mewnol (IB), Prif Swyddog Cyllid (RW), Prif Gyfrifydd (SG), Uwch Archwilydd (AW), Cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru (AV) a Gweinyddwr Pwyllgorau (CIW).

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd M L Holland i'r cyfarfod yn dilyn ei benodiad fel Aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Stuart Davies, Peter Duffy a/ac Win Mullen-James.

2 DATGANIADAU CYSYLLTIAD

Roedd y cysylltiad canlynol wedi ei nodi mewn eitem busnes i gael ei ystyried yn y cyfarfod.

Eitem 6 ar y Rhaglen "Datganiad Cyfrifon Drafft" – Datganwyd cysylltiad personol gan y Cynghorydd M L Holland. Y rheswm am y datganiad oedd bod yr Aelod perthnasol o'r Pwyllgor yn Aelod o Fwrdd Clwydfro Cyfyngedig.

3 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4 COFNODION

9. Diweddarau Rheoliadau Ariannol y Cyngor:- Gofynnodd Mr P. Whitham am sicrwydd bod ysgolion yn gweithio i reolau a rheoliadau a oedd yn cyfateb i'r Rheoliadau Ariannol Ysgolion Cyffredinol. Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid, fel y cytunwyd yn y cyfarfod blaenorol, y byddai adolygiad yn cael ei gynnal o'r rheoliadau oedd gan bob ysgol yn Sir Ddinbych yn eu lle i gydymffurfio â'r gofynion, a chadarnhaodd y byddai adroddiad pellach o ran y canlyniad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor.

12. Rheoli Cronfeydd Ysgol Wirfoddol, Adroddiad Archwilio:- Roedd Mr P. Whitham yn holi am y camau i'w cymryd, cyn diwedd y tymor ysgol, i hysbysu holl Gyrrff Llywodraethu Ysgolion am y pryderon a'r gwendidau a nodwyd gan y Pwyllgor ynghylch agweddau ar lywodraethu ysgolion, ac yn arbennig rheoli a gweinyddu cronfeydd yr ysgol. Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio Mewnol ei fod wedi cysylltu â'r Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau Addysg ynghylch y mater hwn, ac fe ystyriwyd mai'r amser mwyaf priodol ac effeithiol i ddsbarthu gwybodaeth ac arweiniad o'r fath i Benaethiaid a Chyrrff Llywodraethu ysgolion, o ran gwella rheoli cronfeydd yn effeithiol gan ysgolion, fyddai mis Medi yn dilyn gwyliau'r haf.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd M.L Holland, rhoddodd y Pennaeth Archwilio Mewnol fanylion y broses ar gyfer monitro cwblhau a chyflwyno Tystysgrifau Archwilio gan ysgolion. Cytunodd yr Aelodau bod unrhyw anghysondebau ynghylch cyflwyno Tystysgrifau Archwilio yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Esboniodd y Cadeirydd fod y tueddiadau a nodwyd gan y Pwyllgor wedi eu trafod gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio. Cadarnhaodd yr HLHRDS bod y Cabinet wedi gofyn i Grŵp o Aelodau'n edrych yn fanwl, gan fabwysiadu ymagwedd anfeiriadol, themâu ac unrhyw dueddiadau sy'n ymwneud â balansau ysgolion. Cadarnhawyd y byddai unrhyw faterion a nodwyd yn cael eu hadrodd i'r Cabinet a rhoddir ystyriaeth i weithrediad y camau priodol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio Mewnol y byddai manylion y trosiant blynyddol agreg a'r balansau diwedd blwyddyn o'r ysgolion a adolygwyd yn cael eu hanfon at Mr Whitham fel y penderfynwyd gan y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD – yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

5 CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DIWYGIEDIG 2016/17

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, a oedd yn cynnwys manylion Cynllun Sicrwydd Archwilio Mewnol Blynyddol diwygiedig ar gyfer Gorffennaf 2016 i Mawrth 2017, wedi cael ei ddsbarthu ymlaen llaw.

Darparodd y Pennaeth Archwilio Mewnol grynodedb o'r adroddiad a oedd yn manylu ar y prosiectau Archwilio Mewnol arfaethedig ar gyfer gweddill y flwyddyn. Byddai hyn yn caniatáu i'r Pennaeth Archwilio Mewnol ddarparu 'barn' ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith lywodraethu, risg a rheolaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Roedd y Cynllun Sicrwydd Archwilio gwreiddiol wedi'i gymeradwyo yn Ebrill 2016 ond o ganlyniad i absenoldeb mamolaeth ar y gweill o fewn y gwasanaeth, roedd angen adolygu'r Cynllun Sicrwydd Archwilio, Atodiad 1.

Byddai'r cynllun arfaethedig o waith yn caniatáu i'r Pennaeth Archwilio Mewnol ddarparu 'barn' gyffredinol yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2016-17, a byddai'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd ar gyflawni'r Cynllun Sicrwydd Archwilio.

Roedd y Pennaeth Archwilio Mewnol wedi cyfarfod â Thimau Rheoli'r holl wasanaethau i drafod gwaith arfaethedig Archwilio Mewnol ar gyfer y Cynllun Sicrwydd Archwilio gwreiddiol. Fe eglurwyd y gall methu â chyflwyno lefel ddigonol o archwilio mewnol olygu na allai'r Pennaeth Archwilio Mewnol roi 'barn' flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith y Cyngor ar lywodraethu, risg a rheolaeth yn ystod y flwyddyn. Gallai hyn arwain at broblem llywodraethu sylweddol yn cael ei chodi yn 'Natganiad Llywodraethu Blynyddol' y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mewn ymateb i gwestiwn oddi wrth y Cynghorydd M.L. Holland, eglurodd y Pennaeth Archwilio Mewnol nad oedd yr adolygiad o brosiectau mawr yn ardaloedd Y Rhyl a Phrestatyn wedi ei gynnwys ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gallai prosiectau gael eu hepgor a'u cynnwys yn y Gofrestr Prosiectau Verto a gafodd ei fonitro'n rheolaidd. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y gwaith a wnaed gan y Byrddau Prosiect perthnasol. Cyfeiriodd Mr P. Whitham at Gynllun Amddiffyn Arfordir Gorllewin y Rhyl Cam 3, a oedd y prosiect cyntaf i gael ei adolygu gan ddefnyddio'r rhestr wirio, a'r cadarnhad a dderbyniwyd y byddai'r broses hon yn cael ei mabwysiadu ar gyfer prosiectau eraill.

Ymatebodd y Pennaeth Archwilio Mewnol i gwestiwn gan Mr P. Whitham, ac eglurodd na allai'r 225 diwrnod a ddyrannwyd i feysydd gwaith a ariennir yn allanol gael ei leihau gan fod hyn yn destun gwaith a contractiwyd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd mewn perthynas â chynhyrchu incwm, eglurodd y Pennaeth Archwilio Mewnol y byddai caffael gwaith ychwanegol yn arwain at yr angen i gyflogi staff ychwanegol a fyddai'n cynyddu costau staffio.

PENDERFYNWYD - *Bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cymeradwyo Cynllun Sicrwydd Blynyddol diwygiedig Archwilio Mewnol 2016-17 (Atodiad 1).*
(IB i Weithredu)

6 DATGANIAD CYFRIFON DRAFFT

Roedd adroddiad gan y Prif Gyfrifydd, a oedd yn rhoi trosolwg o'r Datganiad Cyfrifon drafft 2015/16 a'r broses sy'n sail iddo, eisoes wedi'i ddsbarthu.

Cyflwynodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill yr adroddiad. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol gyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo iddo i gymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig a fydd yn cael eu cyflwyno ar 28 Medi 2016. Roedd cyflwyno'r cyfrifon drafft yn rhoi arwydd cynnar o sefyllfa ariannol y Cyngor a gall dynnu sylw at unrhyw broblemau yn y cyfrifon neu'r broses cyn i'r cyfrifon gael eu harchwilio.

Roedd gan y Cyngor ddyletswydd statudol i baratoi Datganiad Cyfrifon sy'n cydymffurfio â safonau cyfrifo cymeradwy. Roedd yn rhaid i Aelodau gymeradwyo'r Cyfrifon a archwiliwyd yn ffurfiol ar ran y Cyngor ac roedd y rôl hon wedi ei dirprwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Roedd y cyfrifon drafft wedi eu cwblhau a'u llofnodi gan y Pennaeth Cyllid ar 21 Mehefin. Roedd y cyfrifon drafft ar gael i'w harchwilio yn ôl y gofyn a byddan nhw hefyd ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio rhwng 11 Gorffennaf a 5 Awst.

O ystyried rôl y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol o ran cymeradwyo'r cyfrifon terfynol, roedd yn fanteisiol rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf a throsolwg ar y cam drafft i'w ystyried cyn cyflwyno'r cyfrifon terfynol ym mis Medi. Roedd cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon yn sail i stiwardiaeth a llywodraethu ariannol y Cyngor ac felly roedd yn cefnogi holl wasanaethau a blaenoriaethau'r Cyngor.

Roedd gweithdrefnau a phrosesau'r Cyngor sy'n sail i gynhyrchu'r cyfrifon wedi eu hadolygu'n rheolaidd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Cafwyd barn broffesiynol oddi wrth nifer o ddisgyblaethau eraill tu hwnt i gyllid, megis yr adain gyfreithiol, prisio eiddo, adnoddau dynol a phensiynau. Roedd y Datganiad Cyfrifon yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor ac roedd yn bwysig darparu sicrwydd bod y Cyfrifon wedi cael eu llunio yn unol â'r safonau perthnasol, a bod y broses sy'n sail ar gyfer eu cynhyrchu yn gadarn. Byddai'r Cyngor yn torri ei ddyletswydd statudol pe na byddai'n gallu cymeradwyo'r cyfrifon erbyn 30 Medi 2016.

Rhoddodd y Prif Gyfrifydd grynodedb manwl o Atodiad 1, Datganiad o gyfrifon 2015/16 ac amlygwyd y meysydd canlynol:-

- Darparwyd manylion ar yr Alldro Refeniw Terfynol, gan gyfeirio'n benodol at y tanwariant o £1.1 miliwn, Balansau a Glustnodwyd - Gwasanaethau, Trosglwyddiadau i Gronfa Wrth Gefn Lliniaru Cyllideb a Balansau Ysgolion.
- Adolygiad o'r flwyddyn - Gwariant Cyfalaf. Cynllun Busnes Stoc Tai.
- Cytundeb Prosiect Menter Cyllid Preifat.
- Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn.
- Partïon cysylltiedig.

Fel cyn aelod o'r Bwrdd, rhoddodd y Cynghorydd M L Holland fanylion am y cefndir yn ymwneud â Clwydfro Cyfyngedig.

Amlygodd y Cynghorydd E.A. Jones yr effaith bosibl a goblygiadau sy'n codi o ganlyniad i Brexit mewn perthynas â ffrydiau ariannu grant. Cyfeiriodd y Prif Swyddog Cyllid at yr ansicrwydd ar hyn o bryd, ond cadarnhaodd bod y ffrydiau cyllid grant yn cael eu harchwilio a'u monitro. Cytunodd y Pwyllgor fod y Prif Swyddog Cyllid yn dosbarthu dogfennau sydd ar gael yn ymwneud ag effaith sy'n deillio o Brexit i bob Aelod Etholedig.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd M.L Holland, rhoddwyd cadarnhad bod cyfeiriad at y diffyg pensiwn wedi'i gynnwys yn y Cyfrifon.

Gwahoddodd Mr P. Whitham sylw i'r Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu a'r cyfeiriad a wnaed at yr ymateb gwael i'r Arolwg Trigolion, a gostyngiad sylweddol mewn presenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio. Awgrymodd Mr Whitham y gallai'r materion hyn gael eu cynnwys ar y Gofrestr Risg. Esboniwyd er gwaethaf y lefel ymateb credir bod yr Arolwg Trigolion wedi cael ei ystyried yn ddilys. Cadarnhawyd nad oedd yr Arolwg yn ofyniad statudol. Fodd bynnag, roedd wedi cael ei weld fel rhan o'r strwythur ymgysylltu ehangach i geisio barn trigolion o fewn y Sir, a allai effeithio a dylanwadu ar bolisiau yn y dyfodol, y Cynllun Corfforaethol a chyfeiriad y Cyngor yn y dyfodol. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y Cynllun Gweithredu yn ymwneud â'r Arolwg Trigolion, a chytunodd yr HLHRDS i sicrhau bod ei gynnydd yn cael ei archwilio.

Cyfeiriodd Mr P. Whitham at y Cynllun Gweithredu. Esboniodd ei fod yn falch o nodi bod y Strategaeth Gaffael a Rheolau'r Weithdrefn Contractau newydd yn parhau i gael eu cyflwyno a'u cymeradwyo. Fodd bynnag, gofynnodd a oedd yna feysydd neu eitemau eraill o arwyddocâd cymharol a allai fod angen eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu. Amlinellodd y swyddogion y broses a gynhaliwyd, ac eglurwyd y byddai cynnwys eitemau wedi eu seilio ar yr asesiad a gynhaliwyd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol. Amlinellodd y Cynrychiolydd SAC gyloch gwaith Swyddfa Archwilio Cymru o ran y Datganiad Cyfrifon, a oedd yn cynnwys archwiliad o'r broses a ddefnyddiwyd wrth lunio'r Cyfrifon.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am y gwaith a wnaed i gynhyrchu'r Datganiad Cyfrifon drafft, a:-

PENDERFYNWYD - bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi'r sefyllfa fel y'i cyflwynir yn y Cyfrifon drafft, Atodiad 1 i'r adroddiad.

(RW, SG i Weithredu)

7 ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS

Roedd adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid wedi cael ei ddsbarthu yn flaenorol.

Rhoddodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill grynodedb manwl o'r adroddiad ac Atodiadau 1 a 2.

Roedd yr Adroddiad Blynyddol ar Reoli Trysorlys 2015/16, Atodiad 1 yn sôn am weithgarwch buddsoddi a benthycu'r Cyngor yn ystod 2015/16. Roedd yn rhoi manylion am yr hinsawdd economaidd ar yr adeg honno ac yn dangos sut y cydymffurfiodd y Cyngor â'i Ddangosyddion Darbodus. Roedd yr Adroddiad Diweddarau ar Reoli Trysorlys, Atodiad 2, yn rhoi manylion am weithgarwch Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod 2016/17.

Roedd y term 'rheoli trysorlys' yn cynnwys rheoli benthycu, buddsoddiadau a llif arian y Cyngor. Roedd oddeutu £0.5bn yn mynd trwy gyfrifon banc y Cyngor bob blwyddyn, ac roedd swm benthycu'r cyngor heb ei dalu ar 31 Mawrth 2016 yn £190.17m ar gyfradd gyfartalog o 4.95% ac roedd gan y Cyngor fuddsoddiadau o £12miliwn ar gyfradd gyfartalog o 0.61%.

Cytunwyd gan y Cyngor ym mis Hydref 2009 y dylai'r gwaith o lywodraethu Rheoli Trysorlys fod yn destun archwilio gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Rhan o'r rôl hon oedd cael diweddariad ar weithgareddau rheoli trysorlys ddwywaith y flwyddyn ac i adolygu'r Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2015/16. Byddai'r tîm Rheoli Trysorlys yn darparu adroddiadau a hyfforddiant i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn unol â'r amserlen yn yr adroddiad.

Roedd Rheoli Trysorlys yn faes cymhleth ac ystyriwyd bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn fwy priodol na'r Cyngor i gael y diweddariadau hyn fel y gellid neilltuo cyfanswm yr amser a'r ymrwymiad i'r maes hwn. Roedd yn ofynnol i'r

Pwyllgor gael lefel benodol o ddealltwriaeth yn y maes hwn a chaiff hyn ei gyflawni drwy ddiweddariadau a sesiynau hyfforddi rheolaidd.

Roedd rôl y Pwyllgor yn cynnwys:-

- deall y Dangosyddion Darbodus
- deall effaith benthyca ar y sefyllfa refeniw
- deall y cymhellion ehangach sy'n cael effaith ar weithgarwch Rheolwyr Trysorlys y Cyngor
- sicrhau bod y Cyngor bob amser yn gweithredu mewn modd darbodus mewn perthynas â'i weithgareddau Rheoli Trysorlys

Diben Adroddiad Rheoli Trysorlys Blyneddol (Atodiad 1) oedd:

- cyflwyno manylion am gyllid cyfalaf, benthyca, ad-drefnu dyledion a thrafodion buddsoddi yn 2015/16;
- adrodd am oblygiadau risg penderfyniadau a thrafodion y trysorlys;
- cadarnhau cydymffurfiaeth â therfynau'r trysorlys a Dangosyddion Darbodus.

Roedd adroddiad diweddar Rheoli Trysorlys, Atodiad 2, yn rhoi manylion am y canlynol:-

- Amgylchedd economaidd allanol
- Risgiau
- Gweithgaredd
- Rheolaethau
- Gweithgarwch yn y Dyfodol

Roedd penderfyniadau buddsoddi a benthyca da yn caniatáu i adnoddau ychwanegol gael eu cyfeirio at wasanaethau eraill y Cyngor, ac roedd y Cyngor wedi ymgynghori â'i gynghorwyr trysorlys, Arlingclose Ltd. Roedd Rheoli Trysorlys yn ymwneud â gofalu am symiau sylweddol o arian parod felly roedd yn rhan hanfodol o waith y Cyngor. Roedd angen strategaeth gadarn a rheolaethau priodol i ddiogelu arian y Cyngor er mwyn sicrhau enillion rhesymol ar fuddsoddiadau a bod dyled yn cael ei reoli'n effeithiol ac yn ddoeth.

Mabwysiadodd y Cyngor y Cod Ymarfer diwygiedig SSCCCh ar Reoli Trysorlys yn Chwefror 2012. Roedd yn ofyniad gan y Cod hwnnw i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol gael y wybodaeth ddiweddaraf ar weithgareddau Rheoli Trysorlys ddwywaith y flwyddyn ac adolygu Adroddiad Rheoli Trysorlys Blyneddol. Roedd y Cyngor wedi cymeradwyo Cynllun Corfforaethol uchelgeisiol sy'n cynnwys buddsoddi tua £92m i ddarparu ei flaenoriaethau dros y bedair blynedd nesaf. Roedd yn hanfodol bod gan y Cyngor swyddogaeth Rheoli Trysorlys gadarn ac effeithiol sy'n ategu'r buddsoddiad hwn a'r holl weithgareddau eraill.

Roedd Rheoli Trysorlys ynddo'i hun yn risg, ond roedd y Cyngor yn monitro ac yn rheoli'r risgiau hyn fel yr amlinellir yn y prif adroddiad. Fodd bynnag, roedd yn amhosibl i gael gwared ar risgiau yn gyfan gwbl. Cafodd strategaeth a gweithdrefnau rheoli trysorlys y cyngor eu harchwilio'n flynyddol ac roedd adolygiad

yr archwiliad mewnol diwethaf yn gadarnhaol ac ni chodwyd unrhyw faterion sylweddol.

Darparwyd yr ymatebion canlynol i'r materion a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor:-

- Cadarnhawyd bod y Cyngor wedi derbyn rhybuddion a diweddariadau rheolaidd, o ddydd i ddydd, a chyfeiriwyd yn arbennig at effaith Brexit.
- Y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2016.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

PENDERFYNWYD - bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi:-

(a) perfformiad swyddogaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod 2015/16 a'i fod yn cydymffurfio â'r Dangosyddion Darbodus fel y nodir yn yr Adroddiad Blynyddol ar Reoli Trysorlys 2015/16, Atodiad 1.

(b) cynnwys yr adroddiad diweddar Rheoli Trysorlys, Atodiad 2 i'r adroddiad, a

(c) bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2016.

(RW, SG i Weithredu)

8 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR RANNU PRYDERON

Roedd adroddiad gan y Swyddog Monitro, a oedd yn darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â gweithredu'r polisi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cyn ac ar ôl mabwysiadu'r Polisi a adolygwyd yn ddiweddar wedi'i ddsbarthu o'r blaen.

Roedd yr adroddiad wedi ei gyflwyno yn unol â Pholisi Rhannu Pryderon y Cyngor, a oedd yn cynnwys gofyniad bod y Swyddog Monitro yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol o leiaf unwaith y flwyddyn ar weithrediad y Polisi ac unrhyw newidiadau mewn ymarfer a gyflwynwyd o ganlyniad i bryderon a godwyd o dan y Polisi.

Roedd y Cyngor wedi cymeradwyo Polisi Rhannu Pryderon wedi'i ddiwygio a'i ddiweddarau yn ddiweddar a oedd yn cynnwys gofyniad, o leiaf bob blwyddyn, y dylai'r Swyddog Monitro, mewn fformat dienw adrodd ar weithrediad y Polisi ac unrhyw newidiadau i ymarfer a gyflwynwyd o ganlyniad i bryder a godwyd o dan y Polisi hwn.

Roedd yr adroddiad yn mynd i'r afael â phryderon a godwyd o dan y polisi ers 1 Ebrill 2015 hyd yma. Roedd Atodiad 1 yn nodi natur y pryderon hynny a sut yr oeddent wedi derbyn sylw.

Bu dau o bryderon a godwyd o dan y Polisi yn ystod y cyfnod dan sylw. Roedd y cyntaf yn ymwneud â datgeliad anawdurdodedig o wybodaeth gyfrinachol oherwydd nad oedd y wybodaeth wedi ei chadw'n ddiogel. Gwnaed newidiadau i'r arfer o fewn yr Adran dan sylw i sicrhau bod y risg o ddigwyddiad o'r fath yn cael ei leihau yn y dyfodol. Roedd yr ail bryder yn ymwneud â honiadau a wnaed gan gynweithiwr mewn perthynas ag arferion sy'n ymwneud â rheoli llety gofal ychwanegol. Roedd ymchwiliad wedi cael ei gynnal ond ni wnaed penderfyniad ynglŷn â'r

canlyniad eto. Nid oedd unrhyw batrwm na thema wedi deillio o'r pryderon a godwyd.

Roedd y Polisi diwygiedig, ynghyd â Pholisïau eraill cysylltiedig â gweithiwr a gytunwyd arnynt, wedi cael eu fformatio ac wedi eu cyfieithu'n ddiweddar. Byddai'r tudalennau mewnwyd AD newydd yn cael eu lansio erbyn diwedd mis Gorffennaf, ac fel rhan o'r lansiad y bwriad oedd i ganolbwyntio ar hyrwyddo polisïau newydd gan gynnwys y Polisi Rhannu Pryderon newydd. Byddai Partneriaid Busnes Adnoddau Dynol yn hyrwyddo'r Polisi o fewn eu gwasanaethau cleient mewn cyfarfodydd rheoli a byddai rheolwyr yn derbyn gwybodaeth yn uniongyrchol.

Roedd AD yn edrych ar y posibilrwydd o gael cyflwyniad y Polisi mewn fformat e-ddysgu i godi ymwybyddiaeth. Byddai ymwybyddiaeth o'r Polisi ymhlith staff ac eraill yn allweddol i'w lwyddiant, a'r gobaith oedd y byddai lansiad cydgysylltiedig yn cyflawni hyn. Byddai'r Polisi Rhannu Pryderon yn cynorthwyo'r Blaenoriaethau Corfforaethol drwy helpu i foderneiddio'r Cyngor drwy sicrhau bod rheolwyr a gweithwyr yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau yn unol â deddfwriaeth ac arfer da. Eglurwyd y byddai trefniadau rhannu pryderon cadarn yn helpu i gefnogi llywodraethu da ar draws y Cyngor.

Yn absenoldeb Polisi Rhannu Pryderon cadarn ac effeithiol a Gweithdrefn yr oedd gweithwyr a thrydydd partïon sy'n ymgysylltu â'r Cyngor yn gyfarwydd â hwy, byddai perygl na fyddai pryderon ynghylch camarfer yn dod i sylw'r Cyngor. Roedd yn hanfodol bod gweithwyr yn deall y byddent yn cael eu diogelu pe baent yn codi pryder gyda'r gred resymol bod eu hadroddiad wedi ei wneud er budd y cyhoedd.

Eglurodd yr HLHRDS y byddai'r partneriaid busnes AD yn hyrwyddo'r Polisi o fewn eu gwasanaethau eu hunain, a byddai cynnwys y Polisi Rhannu Pryderon yn cael ei drosi i fformat e-ddysgu er mwyn galluogi mynediad ar gyfer ei ddefnyddio fel ymarfer ymwybyddiaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr P. Whitham, rhoddodd yr HLHRDS gadarnhad y byddai'r Polisi Rhannu Pryderon yn berthnasol i drydydd partïon, cyrff allanol, ymgynghorwyr a byddai ar gael i gontractwyr a staff asiantaeth. Eglurodd y byddai'r Polisi yn cael ei roi ar y Rhyngwyd a fyddai'n berthnasol i unrhyw un sy'n gweithio i, neu gyda'r Cyngor.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd, eglurwyd na fyddai'n orfodol i gwblhau pro-forma wrth godi pryderon. Cytunodd yr HLHRDS y gallai crynodeb o'r materion a godwyd gael ei gynnwys mewn Adroddiadau Blynyddol Rhannu Pryderon yn y dyfodol a allai gynnwys manylion neu eglurhad ar gyfer mynd ar drywydd materion a godwyd neu beidio.

Darparodd yr HLHRDS ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd E A Jones ynghylch yr agwedd risg i'r Awdurdod mewn perthynas â chamymddwyn. Amlygodd y Cynghorydd Jones agweddau cadarnhaol y Polisi Rhannu Pryderon o ran gwella enw da'r Cyngor, a darparu amddiffyniad i unigolion a'u lles.

PENDERFYNWYD:-

- (a) *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr Adroddiad Rhannu Pryderon a bod*
- (b) *crynodeb o'r materion a godwyd yn cael ei gynnwys mewn Adroddiadau Blynyddol Rhannu Pryderon yn y dyfodol, yn cynnwys eglurhad ar gyfer mynd ar drywydd materion a godwyd neu beidio.*
- (GW i weithredu)**

9 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (a ddosbarthwyd eisoes) i'w ystyried.

Cadarnhaodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor yn amodol ar gynnwys yr adroddiadau canlynol:-

28 Medi 2016:-

- Bod Llythyr Ymholiadau Archwilio Corfforaethol Sir Ddinbych yn cael ei gynnwys yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer Medi 2016.
- Cynnwys Adroddiad Consortiwm Rhanbarthol GwE yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer Medi 2016.
- Adroddiad Datganiad Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru (i gynnwys Llythyr Sicrwydd Swyddfa Archwilio Cymru).

23 Tachwedd 2016:-

- Adroddiad Rheoliad Ariannol – Diweddariad i gael ei gynnwys yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer Tachwedd 2016

Ionawr, 2017:-

- Diweddariad Rheoliadau Ariannol Ysgolion - Nododd yr Aelodau gais a dderbyniwyd gan y Cynghorydd P.C. Duffy fod yr eitem hon yn cael ei hystyried yng nghyfarfod Tachwedd 2016. Ar ôl ystyried yr amserlenni roedd yr Aelodau yn teimlo y dylai'r adroddiad gael ei gynnwys yn y rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer Ionawr 2017.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr P. Whitham mewn perthynas â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, cadarnhawyd bod Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Eglurodd yr HLHRDS fod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys y trefniadau monitro ar gyfer rheoli risgiau. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod yr elfen perfformiad o sicrhau bod risgiau yn cael eu lliniaru a'u rheoli'n briodol yn swyddogaeth archwilio.

PENDERFYNWYD - *yn amodol ar yr uchod bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.*

(CIW i Weithredu)

Daeth y cyfarfod i ben am 11.15am.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r: Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

Dyddiad y Cyfarfod: 28 Medi 2016

Aelod/Swyddog Arweiniol: Y Cyngorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh

Awdur yr Adroddiad: Richard Weigh, Pennaeth Cyllid

Teitl: Proses y Gyllideb 2017/18

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses i osod y gyllideb ar gyfer 2017/18.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi diweddariad o'r sefyllfa gyfredol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Ystyried y diweddariad a gwneud sylwadau fel y bo'n briodol.

4. Manylion yr Adroddiad

Cynhaliwyd y gweithdy cyllideb diweddaraf ar 18 Gorffennaf. Amlinellodd y gweithdy y tybiaethau cynllunio ariannol diweddaraf, cyd-destun economaidd, y broses ar gyfer 2017/18 a chynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â'r bwloch yn y gyllideb a amcangyfrifwyd.

Rhai o'r pwyntiau allweddol a gwmpesir oedd:

- Setliadau cyllideb negyddol o ran arian parod ar gyfer yr olaf ac mewn termau real dros y pum mlynedd diwethaf
- Mae arbedion y tymor cyngor hwn yn dod i oddeutu £28m
- Nodyn Atgoffa am Ddatganiad yr Hydref diwethaf a setliad arian parod cadarnhaol i Gymru
- Dadansoddiad ac esboniad o'r rhagdybiaethau cynllunio achos canolog - gan gynnwys amcangyfrif o werth anheddiad -1.5%
- Diweddariad ar effeithiau hysbys canlyniad refferendwm y UE a thrafodaeth o gwmpas yr 'anhysbys' mwy niferus
- Diweddariad ar ragdybiaethau cynllunio ariannol Cymru a materion polisi posibl ar ôl yr etholiad ym mis Mai - gan gynnwys arian i ysgolion, adroddiad y Comisiwn Cyllid Llywodraeth Leol a'r newid tebygol yn y polisi o ran Ad-drefnu Llywodraeth Leol

Cafodd y prif ragdybiaethau cynllunio ariannol a chanlyniadau posibl eu gosod allan:

	2017/18	2018/19	2019/20
Amcangyfrif Setliad	-1.5%	-1.5%	-1.5%
Pwysau	£4.2m	£4.1m	£4.1m
Cynnydd Treth y Cyngor	+2.75%	+2.75%	+2.75%
Defnydd o Falansau/Cronfeydd Wrth Gefn	£2.5m	£1.0m	
Bwlch yn y Gyllideb	£2.9m	£5.3m	£5.9m

Tybir y bydd 1% o arbedion effeithlonrwydd yn cael eu cyflwyno bob blwyddyn fel rhan o'r strategaeth i ymdrin â'r bwlch yn y gyllideb. Mae hyn yn cyfateb i tua £850k y flwyddyn.

Cafodd manylion y 1% o arbedion effeithlonrwydd arfaethedig ar gyfer 2017/18 eu dosbarthu i aelodau ym mis Awst fel y cytunwyd yn y gweithdy diwethaf ac maent yn dal i fod ar gael yn llyfrgell yr aelodau ar y system Modern.gov. Cyfanswm y cynigion yw £902k.

Effaith mesurau a nodwyd i fynd i'r afael â'r gyllideb 2017/18 hyd yn hyn yw fel a ganlyn:

Bwlch yn y Gyllideb Gros	£5.4m
Defnydd o Falansau/ cronfeydd wrth gefn	£2.5m
Arbedion Corfforaethol	£1.0m
Arbedion Effeithlonrwydd gwasanaethau	£0.9m
Bwlch sy'n Weddill	£1.0m

Mae'r tabl yn dangos bod cynigion i fynd i'r afael ag 81% o'r bwlch yn y gyllideb wedi eu nodi. Mae gwasanaethau wedi cael y dasg o nodi cynigion pellach o hyd at £2m. Dylai hyn ganiatáu i ddewisiadau gael eu gwneud gan yr aelodau wrth osod y gyllideb, yn ogystal â thrafodaeth bellach am lefel y cynnydd yn Nhreth y Cyngor. Gallai rhagdybiaethau eraill o fewn y cynllun cyllideb newid, er enghraifft gan ystyried pwysau cludiant a gofal cymdeithasol ychwanegol posibl.

Yn y gweithdy diwethaf ac wedi hynny ym mis Awst cafodd manylion am yr arbedion effeithlonrwydd o 1% eu dosbarthu i aelodau er gwybodaeth. Bydd y cynigion hyn yn cael eu datblygu gan y penaethiaid gwasanaeth o dan eu pwerau dirprwyedig.

Cafodd amserlen y gyllideb ei gosod gan dybio y byddai'r setliad llywodraeth leol dros dro yn cael ei gyhoeddi yn ystod wythnos gyntaf neu ail wythnos o fis Hydref. Fodd bynnag, arwyddion diweddaraf yw y bydd cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn cael ei chyhoeddi ar 18 Hydref gyda'r setliad llywodraeth leol dros dro yn cael ei gyhoeddi y diwrnod canlynol.

O ystyried hyn, awgrymir fod y gweithdy cyllideb a drefnwyd ar gyfer 14 Hydref yn cael ei ohirio ac yn digwydd ar 1 Tachwedd yn lle hynny. Dylai hyn ganiatáu ar gyfer effaith y setliad i gael ei deall yn llawn, ac felly gwneud y gweithdy yn fwy cynhyrchiol. Gofynnwyd am farn yr Aelodau ar hyn ym mis Awst ac ar ôl hynny yr wythnos diwethaf. Bydd nifer y gweithdai wedi'u cynllunio yn aros yr un fath ond gall amseriad y cyntaf o'r gweithdai hydref newid, os oes cytundeb cyffredinol.

Bydd gweithdai pellach yn cael eu trefnu neu eitemau'n cael eu hychwanegu at agendâu sesiynau Briffio presennol y Cyngor os bydd angen yn dilyn y cyhoeddiad setliad dros dro ym mis Hydref. Mae'r amserlen gyllideb ddiweddaraf ynghlwm wrth Atodiad 1.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheolaeth effeithiol o gyllideb y cyngor a chyflawni strategaeth y gyllideb a gytunwyd arni yn sail i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'r cyngor yn wynebu bwlch yn y gyllideb posibl o dros £5m ar gyfer pob un o'r tair blynedd nesaf.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn - prosesau yn eu lle i asesu cynigion cyllideb unigol.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Adroddiadau rheolaidd i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol, Uwch Dîm Arweinyddiaeth a sesiwn Briffio Cabinet. Mae gweithdai cyllideb yn rhan o'r broses. Ymgynghorir ag undebau llafur drwy'r Cyd Cyfarfodydd Corfforaethol. Bydd ymgysylltu â'r cyhoedd yn digwydd os a phryd y bydd toriadau neu fesurau eraill sy'n effeithio ar y cyhoedd yn cael eu cynnig.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nod proses y gyllideb yw sicrhau bod y cyngor yn cyflwyno cyllideb gytbwys. Mae'r ansicrwydd dros lefel y setliadau ariannol yn y blynyddoedd diwethaf wedi gwneud cynllunio ariannol o dan amgylchiadau sydd eisoes yn anodd hyd yn oed yn fwy heriol. Er na wyddom yr union lefelau, mae'n debygol y bydd gostyngiadau cyllid i awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau yn y tymor canolig ac er y bydd y cyngor bob amser yn ymdrechu i fod yn fwy effeithlon er mwyn arbed arian, efallai na fydd hyn yn do'i hun yn ddigonol yn y dyfodol. Bydd proses y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2017/18 yn helpu i gyflwyno cyllideb gytbwys a bydd yn galluogi'r cyngor i ystyried rhagdybiaethau cyllid allweddol, pwysau gwasanaeth, lefelau arian parod wrth

gefn a lefelau ffioedd a thaliadau yn y Cyngor. Hyd yn hyn mae'r broses wedi nodi mesurau i fynd i'r afael â 81% o'r bwlch yn y gyllideb.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?


Mae proses y gyllideb ynddi ei hun yn fesur ar gyfer rheoli risg, gyda'r nod o ddynodi, asesu a chytuno ar gynigion y gyllideb mewn modd wedi'i gynllunio ac amserol.

11. Pŵer i wneud Penderfyniad

Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol (1972);

Appendix 1

PROPOSED BUDGET PROCESS 2017/18



Mae tudalen hwn yn fwiadol wag

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
Dyddiad y Cyfarfod:	28 Medi 2016
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Y Cyngorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh, Prif Swyddog Cyllid
Awdur yr Adroddiad:	Steve Gadd, Prif Gyfrifydd
Teitl:	Ymholiadau Archwiliad 2015/16

- 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**
Cyflwyno'r Llythyr Ymholiadau Archwilio ac ymateb y Cyngor i'r ymholiadau hynny.
- 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**
Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), fel archwilwyr allanol a benodir gan CSDd, ddyletswydd i gael tystiolaeth o sut mae'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn CSDd) yn cyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer atal a chanfod twyll. Mae'r llythyr yn nodi'r gofynion a manylion yr ymatebion wedi'u cynnwys fel **Atodiad 1**.
- 3. Beth yw'r Argymhellion?**
Bod Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cadarnhau'r ymatebion yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn yn ffurfiol.
- 4. Manylion yr Adroddiad**
Mae manylion ymatebion y rheolwr (Richard Weigh, Pennaeth Cyllid) a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (y Cyng Jason McClellan, Cadeirydd CGC) wedi eu nodi yn Atodiad 1. I grynhoi, mae'r ymatebion yn nodi ymagwedd y Cyngor tuag at y meysydd llywodraethu canlynol:
 - Prosesau rheoli sydd ar waith i nodi a lliniaru yn erbyn y risg o dwyll.
 - Ymwybyddiaeth o unrhyw achosion gwirioneddol neu honedig o dwyll.
 - Prosesau i gael sicrwydd bod yr holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol wedi cael eu dilyn.
 - A oes unrhyw ymglyfreithiad neu hawliadau posibl a fyddai'n effeithio ar y datganiadau ariannol.
 - Prosesau i nodi, awdurdodi, cymeradwyo, galw i gyfrif a datgelu trafodion partïon cysylltiedig a pherthnasoedd.
- 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**
Mae'r broses archwilio allanol blynyddol yn ategu stiwardiaeth ariannol a threfn lywodraethol y Cyngor ac felly yn cefnogi holl wasanaethau a blaenoriaethau'r Cyngor.
- 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Does dim costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fod wedi ei atodi i'r adroddiad Amherthnasol.**
8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**
Ceisiodd Swyddfa Archwilio Cymru ymatebion gan Richard Weigh fel y Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151, a'r Cyng Jason McClellan fel Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.
9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Mae'n bwysig bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldeb ar gyfer atal a chanfod twyll ym mhob agwedd ar ei waith. Mae'r sicrwydd a geisir gan Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â thwyll yn ffurfio gwiriad defnyddiol i sicrhau bod prosesau priodol ar waith i nodi a lliniaru yn erbyn y risg o dwyll.
10. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn wneud i'w lleihau?**
Y risg yw y gallai twyll arwain at gamddefnyddio asedau'r Cyngor neu drin neu gam-ddatgan y datganiadau ariannol. Mae'r ymatebion gan y rheolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn helpu i ddangos bod prosesau ar waith ar gyfer nodi ac ymateb i'r risg o dwyll a bod rheolaethau mewnol digonol yn eu lle i liniaru'r risgiau hynny.
11. **Pŵer i wneud Penderfyniad**
Mae'r Safon Rhyngwladol ar gyfer Archwilio (y DU ac Iwerddon) 240 (Awdurdod Diogelu Annibynnol 240) yn nodi bod y prif gyfrifoldeb ar gyfer atal a chanfod twyll yn gyfrifoldeb ar y rheolwyr a'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu', sef y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych. Mae Awdurdod Diogelu Annibynnol 240 hefyd yn nodi'r gofyniad am archwiliad allanol i gael dealltwriaeth o sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau.

Mr Richard Weigh – Head of Finance
Mr Jason McClellan – Chair of the Corporate Governance Committee
Via email

Reference	AV/MJP/DCC
Date	27 June 2016
Pages	1 of 17

Dear Richard and Councillor McClellan

Denbighshire County Council 2015/16

Audit enquiries to those charged with governance and management

In my 2016 Audit Plan, I note that I am responsible for obtaining reasonable assurance that the financial statements taken as a whole are free from material misstatement, whether caused by fraud or error. I also set out the respective responsibilities of auditors, management and those charged with governance.

This letter formally seeks documented consideration and understanding on a number of governance areas that impact on my audit of your financial statements. These considerations are relevant to both the management of the Council's management and 'those charged with governance' (the Corporate Governance Committee).

I have set out below the areas of governance on which I am seeking views.

1. Management processes in relation to:
 - undertaking an assessment of the risk that the financial statements may be materially misstated due to fraud;
 - identifying and responding to risks of fraud in the organisation;
 - communication to employees of views on business practice and ethical behaviour; and
 - communication to those charged with governance the processes for identifying and responding to fraud.
2. Management's awareness of any actual or alleged instances of fraud.
3. How management gain assurance that all relevant laws and regulations have been complied with.

4. Whether there is any potential litigation or claims that would affect the financial statements.
5. Management processes to identify, authorise, approve, account for and disclose related party transactions and relationships.

The information you provide will inform our understanding of the Council and its business processes and support our work in providing an audit opinion on your 2015-16 financial statements.

I would be grateful if you could complete the attached table in [Appendix 1](#). For information purposes this table also includes the responses provided in 2014-15.

Your responses should be formally considered and communicated to us on behalf of both management and those charged with governance. If you have queries, please contact Michelle Phoenix on 07966 073281 or by e-mail at michelle.phoenix@audit.wales .

Yours sincerely

Anthony Veale
Engagement Director

Cc: Gary Williams - Head of Legal, HR and Democratic Services

Appendix 1

International Standard for Auditing (UK and Ireland) 240 – The auditor’s responsibilities relating to fraud in an audit of financial statements

Background

Under the ISA, the primary responsibility for preventing and detecting fraud rests with both management and ‘those charged with governance’, which for the Denbighshire County Council (the Council) is the Corporate Governance Committee. This includes fraud that could impact on the accuracy of the annual accounts. The ISA requires us, as external auditors, to obtain an understanding of how the Corporate Governance Committee exercises oversight of management’s processes for identifying and responding to the risks of fraud and the internal controls established to mitigate them.

What is ‘fraud’ in the context of the ISA?

The ISA views fraud as either:

- the intentional misappropriation of the COUNCIL’s assets (cash, property, etc); or
- the intentional manipulation or misstatement of the financial statements.

What are we required to do?

We have to obtain evidence of how management and those charged with governance are discharging their responsibilities if we are to properly discharge our responsibilities under ISA240. We are therefore making requests from both management and the Corporate Governance Committee:

Enquiries of management		
Question	2014-15 Response	2015-16 Response
1. What is management’s assessment of the risk that the financial statements may be materially misstated due to	<ul style="list-style-type: none"> • Low risk 	<ul style="list-style-type: none"> • Checks and balances in place within Finance and financial systems

Enquiries of management

Question	2014-15 Response	2015-16 Response
<p>fraud and what are the principal reasons?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Checks and balances in place within Finance and financial systems • Financial systems subject to annual internal audit reviews • Segregation of duties built into systems and procedures • Bank reconciliation process separate from other activity • Monthly closedown processes and robust budget monitoring and reporting • Well defined procurement processes – contract procedure rules • Delegation schemes and approval processes built into ordering and payment systems • Expenditure approval processes linked to the above – thresholds set within delegation schemes • Tight controls over journal 	<ul style="list-style-type: none"> • Financial systems subject to annual internal audit reviews • Segregation of duties built into systems and procedures • Bank reconciliation process separate from other activity • Monthly closedown processes and robust budget monitoring and reporting • Well defined procurement processes – contract procedure rules • Delegation schemes and approval processes built into ordering and payment systems • Expenditure approval processes linked to the above – thresholds set within delegation schemes • Tight controls over journal processing • Treasury management policies and

Enquiries of management		
Question	2014-15 Response	2015-16 Response
	<p>processing</p> <ul style="list-style-type: none"> • Treasury management policies and procedures well established with clear segregation built into the investment and payment processes • Minimal cash transactions • Professionally qualified and experienced staff • National Fraud Initiative (NFI) participation 	<p>procedures well established with clear segregation built into the investment and payment processes</p> <ul style="list-style-type: none"> • Minimal cash transactions • Professionally qualified and experienced staff • National Fraud Initiative (NFI) participation
<p>2. How can management assure the Corporate Governance Committee that it has not been inappropriately influenced by external pressures?</p>	<p>No specific financial outturn targets set by Welsh Government or other stakeholders. In addition, the following comments and processes support the assurance:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Financial pressures and savings managed through the budget setting and monitoring procedures • Monthly reporting to Cabinet • Budget setting procedures specifically refer to savings plans included in the budget 	<p>No specific financial outturn targets set by Welsh Government or other stakeholders. In addition, the following comments and processes support the assurance:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Financial pressures and savings managed through the budget setting and monitoring procedures • Monthly reporting to Cabinet • Budget setting procedures specifically refer to savings plans included in the budget

Enquiries of management		
Question	2014-15 Response	2015-16 Response
	<ul style="list-style-type: none"> • Council must set an annual balanced budget • Annual report in respect of reserves – this is to be further enhanced in response to the recent WAO Financial Resilience paper • No specific financial targets set by outside bodies • Compliance with constitution and financial regulations • Reporting of related party details annually in the Statement of Accounts 	<ul style="list-style-type: none"> • Council must set an annual balanced budget • Annual reporting on level of reserves – through MTFP and annual accounts. In addition, all in-year transfers to or from reserves are reported to Cabinet • No specific financial targets set by outside bodies • Compliance with constitution and financial regulations • Reporting of related party details annually in the Statement of Accounts
<p>3. Are management aware of any organisational pressure to meet revenue and capital budgets or other financial constraints?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Management are aware of organisational pressures to meet budgets due to the financial constraints • Refer to points made in 2 above. • Management are regularly updated 	<ul style="list-style-type: none"> • Management are aware of organisational pressures to meet budgets due to the financial constraints • Refer to points made in 2 above. • Management are regularly updated

Enquiries of management

Question	2014-15 Response	2015-16 Response
	on the budget process and Medium Term Financial Plan through SLT and CET.	on the budget process and Medium Term Financial Plan through SLT and CET.
4. What processes are employed to identify and respond to the risks of fraud more generally and specific risks of misstatement in the financial statements?	<p>The Council has the following procedures in place:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Anti-fraud & corruption policy • Investigation procedures • Whistle-blowing policy • IA programme of work based on risk assessment • IA projects consider potential for fraud and carry out appropriate tests • Horizon scanning by the Head of Internal Audit to identify trends in frauds to develop a corporate fraud plan for 2015/16 • Financial systems reviews include annual data interrogation of payroll and creditor payments records • Systems and procedures/ checks 	<p>The Council has the following procedures in place, a number of which have been updated recently:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Anti-fraud & corruption policy • Investigation procedures • Whistle-blowing policy • IA programme of work based on risk assessment • IA projects consider potential for fraud and carry out appropriate tests • Horizon scanning by the Head of Internal Audit to identify trends in frauds to develop a corporate fraud plan for 2015/16 • Financial systems reviews include annual data interrogation of payroll and creditor payments records

Enquiries of management		
Question	2014-15 Response	2015-16 Response
	<p>and balances in Finance</p> <ul style="list-style-type: none"> • Reporting benefit and CT fraud • National Fraud Initiative data matching and resulting investigations 	<ul style="list-style-type: none"> • Systems and procedures/ checks and balances in Finance • Reporting benefit and CT fraud • National Fraud Initiative data matching and resulting investigations
Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r dyledion sy'n cael eu cydnabod gan y Cyngor fel ag yr oeddent ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyngor (asedau llai dyledion) yn cael eu cydweddu â'r cronfeydd wrth gefn y mae'r Cyngor yn eu dal. Adroddir ynglŷn â chronfeydd wrth gefn mewn dau gategori. Mae'r categori cyntaf o gronfeydd wrth gefn yn gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio, h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny y gall yr awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o gronfeydd wrth gefn ac ar unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (er enghraifft y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn na ellir ei defnyddio ond i gyllido gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled). Mae'r ail gategori o gronfeydd wrth gefn yn rhai na all y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd wrth gefn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn sy'n dal enillion a cholledion sydd heb eu gwireddu (er enghraifft y Gronfa Adbriso Wrth Gefn), ble y deuai symiau ar gael i ddarparu gwasanaeth dim ond os gwerthir yr asedau; a chronfeydd wrth gefn sy'n dal gwahaniaethau amseru a gaiff eu dangos yn y llinell 'Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail gyllido o dan reoliadau' yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

31 Mawrth 2015 £000		Nodyn	31 Mawrth 2016 £000	31 Mawrth 2016 £000
107,187	<i>Anheddau Cyngor</i>		100,283	
197,926	<i>Tir ac Adeiladau Eraill</i>		226,507	
6,096	<i>Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Offer</i>		6,853	
113,786	<i>Isadeiledd</i>		117,782	
2,647	<i>Asedau Cymunedol</i>		2,489	
10,393	<i>Asedau sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd</i>		5,093	
2,067	<i>Asedau Dros Ben na chânt eu Dal i'w Gwerthu</i>		1,432	
440,102	Eiddo, Peiriannau ac Offer	13	460,439	
9,023	Asedau Treftadaeth	42	8,968	
8,375	Eiddo Buddsoddi	14	7,599	
5	Buddsoddiadau Hirdymor	15	1	
915	Dyledwyr Hirdymor	15	770	
458,420	Asedau Hirdymor			477,777
23,386	Buddsoddiadau Byrdymor	15	5,013	
5,168	Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu (<1bl)	18	2,740	
1,264	Rhestrau Eiddo		1,168	
32,264	Dyledwyr Byrdymor	16	18,331	
2,373	Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod	17	6,592	
64,455	Asedau Cyfredol			33,844
(5,135)	Benthyciadau Tymor Byr	15	(6,968)	
(25,454)	Credydwyr Byrdymor	19	(21,741)	
(733)	Darpariaethau	20	(571)	
(2,834)	Darpariaeth ar gyfer Absenoldebau Cronedig	20	(2,384)	
(1,953)	Derbyniadau Grantiau Refeniw Ymlaen Llaw	33	(1,168)	
(1,802)	Grantiau Cyfalaf A Dderbyniwyd Ymlaen Llaw	33	(1,877)	
(37,911)	Dyledion Presennol			(34,709)

31 Mawrth 2015 £000		Nodyn	31 Mawrth 2016 £000	31 Mawrth 2016 £000
(9,528)	Credydwyr Hirdymor	15	(1,429)	
(473)	Darpariaethau	20	(422)	
(140,202)	Benthyciadau Hirdymor	15	(183,991)	
(224,336)	Dyledion Hirdymor Eraill	23	(207,388)	
(374,539)	Dyledion Hirdymor			(393,230)
110,425	Asedau Net			83,682
(9,154)	Cronfa'r Cyngor	22	(8,752)	
(47,669)	Cronfeydd Wrth Gefn sydd wedi'u Clustnodi	21	(31,819)	
(1,852)	Cyfrif Refeniw Tai	22	(2,604)	
(3,015)	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	22	(2,228)	
(1,635)	Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso	22	(1,576)	
(63,325)	Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir Eu Defnyddio			(46,979)
(77,190)	Y Gronfa Adbriso Wrth Gefn		(94,101)	
224,336	Y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn		207,388	
(197,429)	Cyfrif Addasiadau Cyfalaf		(152,732)	
349	Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol		358	
2,834	Cyfrif Absenoldebau Digolledol Cronedig Byrdymor		2,384	
(47,100)	Cronfeydd Wrth Gefn na Ellir eu Defnyddio	23		(36,703)
(110,425)	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn			(83,682)

Datganiad Llif Arian

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newid mewn arian parod a chywerthoedd arian parod y Cyngor yn ystod y cyfnod rhoi gwybod. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r awdurdod yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a chywerthoedd arian parod, drwy ddsbarthu llifoedd arian fel gweithgareddau gweithredol, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llifoedd arian net sy'n deillio o weithgareddau gweithredu'n ddangosydd allweddol o'r graddau y mae gweithrediadau'r Cyngor yn cael eu hariannu drwy drethiant ac incwm grant, neu gan bobl sy'n derbyn gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod. Mae gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli'r graddau y mae all-lifoedd arian parod wedi'u gwneud ar gyfer adnoddau sydd wedi'u bwriadu i gyfrannu at ddarpariaeth gwasanaeth y Cyngor yn y dyfodol. Mae llifoedd arian sy'n codi o weithgareddau ariannol yn ddefnyddiol i ragweld hawliau ar lifoedd arian y dyfodol drwy ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyca) i'r Cyngor.

Tudalen 64

2014/15 £000		Nodyn	2015/16 £000
11,542 (21,182)	Net (arian dros ben) neu ddiffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau Addasiadau i net (arian dros ben) neu ddiffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad yw'n arian parod		69,962 (83,871)
2,036	Addasiadau i eitemau a gynhwysir yn y net (arian dros ben) neu ddiffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi neu ariannu		1,083
(7,604)	Llifoedd arian net gan Weithgareddau Gweithredol	24	(12,826)
15,241	Gweithgareddau Buddsoddi	25	44,996
(1,174)	Gweithgareddau Cyllido	26	(36,389)
6,463	(Cynnydd) neu leihad net mewn arian parod neu gywerthoedd arian parod		(4,219)
8,836	Arian parod neu drafodion sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod rhoi gwybod		2,373
(6,463)	Cynnydd/(Lleihad) mewn arian parod		4,219
2,373	Arian parod neu gywerthoedd arian parod ar ddiwedd y cyfnod rhoi gwybod	17	6,592

Nodiadau Ynglŷn â'r Cyfrifon**1. Polisiau Cyfrifo****i. Egwyddorion Cyffredinol**

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16 a'i sefyllfa diwedd blwyddyn o 31 Mawrth 2016. Mae gofyn i'r Cyngor baratoi Datganiad Cyfrifon Blynyddol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, y mae'r Rheoliadau hynny'n gofyn iddynt gael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifo priodol. Mae'r arferion hyn yn cynnwys 'Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015/16' (y Cod) yn bennaf, a gefnogir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh).

Mae'r confensiwn cyfrifo a fabwysiadir yn y Datganiad Cyfrifon yn gost hanesyddol yn bennaf, wedi'i addasu gan ailbrisio categorïau penodol o asedau ac offerynnau ariannol nad ydynt yn gyffredol.

Mae'r Cyngor hefyd yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Adroddiadau Gwasanaeth 2015/16 (SERCOP), sy'n sefydlu arferion priodol mewn perthynas ag adrodd cyson ynghylch arian islaw lefel y Datganiad Cyfrifon a phenderfynu ar gyfanswm cost y gwasanaethau.

Mae cyflwyniad y Cyngor o'r cyfrifon yn cydymffurfio â mabwysiadu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh). Mae'r Prif Datganiadau yn cynnwys:

- Datganiad ynglŷn â'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn
- Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
- Y Fantolen
- Datganiad Llif Arian

ii. Cyfrifyddu ar gyfer Ysgolion yr Awdurdod Lleol

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig yn cadarnhau bod y cydbwysedd rheoli ar gyfer ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol (h.y. y categorïau hynny o ysgol a nodir yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, fel y'i diwygiwyd) yn gorwedd gyda'r awdurdod lleol.

Mae y cod hefyd yn nodi bod asedau, rhwymedigaethau, cronfeydd wrth gefn a llifau arian parod yr ysgolion yna yn cael eu cydnabod yn natganiadau ariannol yr awdurdod lleol.

Felly mae trafodion, llifau arian parod a balansau ysgolion yn cael eu cydnabod ym mhob un o ddatganiadau ariannol yr awdurdod fel pe baent yn drafodion, llifau arian a balansau yr awdurdod.

iii. Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir gweithgaredd ar gyfer y flwyddyn y caiff ei gynnal, nid pan wneir neu derbynnir taliadau arian parod. Yn benodol:

- Caiff ffioedd, taliadau a rhenti gan gwsmeriaid eu cyfrif fel incwm ar y dyddiad y mae'r Cyngor yn darparu'r nwyddau neu'r gwasanaethau perthnasol.

- Caiff cyflenwadau o nwyddau a gwasanaethau eu cofnodi fel gwariant pan gânt eu defnyddio. Lle ceir bwlch rhwng y dyddiad y derbynnir cyflenwadau a phryd y cânt eu defnyddio, cânt eu cario fel rhestr eiddo ar y Fantolen.
- Cyfrifir y llog sy'n daladwy ar fenthyciadau ac sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau ar sail cyfradd log effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na llifoedd arian sydd wedi'u gosod neu eu penderfynu gan y contract.
- Lle cydnabyddir incwm a gwariant ond nad ydyw arian parod wedi'i dderbyn neu ei dalu, cofnodir y dyledwr neu gredydwr ar gyfer y swm perthnasol ar y Fantolen. Lle ceir amheuaeth y caiff dyledion eu setlo, ysgrifennir balans y dyledwyr i lawr a gwneir tâl i referniw am yr incwm na fydd yn cael ei gasglu o bosibl.

iv . Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod

Caiff arian parod ei gynrychioli gan arian parod mewn llaw ac arian parod a gedwir mewn cyfrifon adnau sy'n ad-daladwy ar orchymyn. Mae cywerthoedd arian parod yn fuddsoddiadau hynod hylifol, byr dymor, sy'n hawdd eu cyfnewid am symiau hysbys o arian parod gyda risg ansylweddol o unrhyw newid yn eu gwerth. Mae hyn yn golygu bod 'Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod' yn cynnwys arian parod a gedwir mewn banc, cyfrifon adnau ar alw a chyfrifon galw mynediad uniongyrchol.

v. Codi taliadau ar Refeniw ar gyfer Asedau nad ydynt yn Gyfredol

Caiff gwasanaethau, gwasanaethau cefnogi a chyfrifon masnachu eu debydu â'r symiau canlynol i gofnodi'r gost o ddal asedau nad ydynt yn gyfredol yn ystod y flwyddyn:

- dibrisiad i'w briodoli i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol
- colledion ailbrisiu a lleihad yng ngwerth asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes unrhyw enillion cronedig yn y Gronfa Adbrisiu wrth gefn y gall y colledion gael eu dileu yn eu herbyn
- amorteiddio asedau sefydlog annirweddol i'w priodoli i'r gwasanaeth.

Nid oes gofyn i'r Cyngor godi treth y cyngor i ariannu dibrisiad, ailbrisiad a cholledion lleihad yn y gwerth neu amorteiddio. Fodd bynnag, mae gofyn iddo roi cyfraniad ariannol o referniw tuag at leihad yn ei ofyniad benthyca cyffredinol sy'n gyfystyr â swm a gyfrifir ar sail darbodus a benderfynir gan y Cyngor yn unol â chanllaw statudol. Felly caiff dibrisiad, ailbrisiad a cholledion lleihad yn y gwerth neu amorteiddio eu disodli gan gyfraniad ym Malans Cronfa'r Cyngor (MRP) drwy drafodyn addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn, ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

vi. Buddiannau Gweithwyr

Buddiannau'n daladwy yn ystod cyflogaeth

Yn ogystal â chyflogau a thâl, gall y buddiannau tymor byr i weithwyr gynnwys gwyliau blynyddol â thâl i weithwyr cyfredol. O ganlyniad, gwneir cronriad ar gyfer cost hawliau gwyliau (neu unrhyw ffurf o absenoldeb, e.e. amser mewn llaw) a enillir gan weithwyr ond nid wedi'u cymryd cyn diwedd y flwyddyn, ac y gall gweithwyr eu dwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y cronriad ar y cyfraddau cyflog a thâl cymwys yn y flwyddyn gyfrifo ganlynol, sef y cyfnod y gall y gweithiwr gymryd y budd. Caiff y cronriad ei godi ar yr Arian dros Ben neu Ddiffyg yn Narpariaeth y Gwasanaethau, ond yna caiff ei wrthdroi drwy'r Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth gefn fel bod buddiannau gwyliau'n cael eu codi ar referniw yn y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb gwyliau'n digwydd.

Buddiannau Dod â Swydd i Ben

Mae buddiannau dod â swydd i ben yn symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Cyngor i ddod â chyflogaeth swyddog i ben cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad gan y swyddog i dderbyn diswyddiad gwirfoddol, ac yn cael eu codi ar sail cronïad i'r llinell gwasanaeth addas yn unol â'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, yn gynt na phryd na chaiff yr awdurdod bellach dynnu'r cynigion buddion yn ôl neu bryd y bydd yr awdurdod yn cydnabod costau ailstrwythuro.

Lle bydd buddiannau dod â swydd i ben yn cynnwys codi pensiynau, mae darpariaethau statudol yn gofyn i falans Cronfa'r Cyngor gael ei godi gyda'r swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn neu bensiynwr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â safonau cyfrifo perthnasol. Yn Natganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn, mae angen dyraniadau i a gan y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn i gael gwared ar ddebydau a chredydau tybiannol ar gyfer buddion pensiwn wrth ddod â swydd i ben, a'u disodli gyda debydau ar gyfer yr arian parod a delir i'r gronfa bensiynau a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy, ond heb eu talu, ar ddiwedd y flwyddyn.

Buddiannau ar ôl cyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyngor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- Y Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Bensiynau Athrawon Capita neu ar ran yr Adran Addysg (DfE).
- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gyngor Sir y Fflint.

Darparodd y ddau gynllun fuddiannau wedi'u diffinio i aelodau (cyfandaliadau a phensiynau ymddeoliad), a enillwyd gan weithwyr sydd wedi gweithio i'r Cyngor.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer cynllun yr athrawon yn golygu na all y rhwymedigaeth i'r buddiannau hyn gael eu pennu ar y Cyngor fel arfer. Cyfrifir y cynllun felly fel pe bai'n gynllun cyfrannu wedi'i ddiffinio, ac nid yw'r Fantolen yn nodi unrhyw rwymedigaeth i dalu'r buddiannau hyn yn y dyfodol. Caiff llinell y Gwasanaethau Plant ac Addysg yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ei chodi gyda chyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Pensiynau Athrawon yn y flwyddyn.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Caiff y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ei gyfrif fel cynllun buddiannau wedi'i ddiffinio:

- Mae rhwymedigaethau Cronfa Bensiwn Clwyd sydd i'w priodoli i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid drwy ddefnyddio'r dull uned wedi'i rhagamcanu – h.y. asesiad o daliadau'r dyfodol a wneir mewn perthynas â buddiannau ymddeol a enillir gan weithwyr, yn seiliedig ar ragdybiaethau cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiad gweithwyr ac ati, ac amcangyfrifon enillion wedi'u rhagamcanu ar gyfer gweithwyr cyfredol.
- Mae rhwymedigaethau yn cael disgownt i'w gwerth ar brisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 3.6%.
- Mae asedau Cronfa Bensiwn Clwyd sy'n cael eu priodoli i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen am eu pris teg:
 - gwarannau wedi'u dyfynnu – pris cynnig cyfredol

- gwarannau heb eu dyfynnu - amcangyfrif proffesiynol
 - gwarannau unedol – pris cynnig cyfredol
 - eiddo – gwerth y farchnad.
- Caiff y newid yn rhwymedigaeth pensiynau net ei ddadansoddi i'r cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillir eleni - wedi'i ddyrannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau roedd y gweithwyr yn gweithio iddynt
- cost gwasanaeth yn y gorffennol – y cynnydd mewn rhwymedigaethau yn codi o benderfyniadau'r flwyddyn hon y mae eu heffeithiau yn ymwneud â blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol – wedi'i debydu i'r Arian Dros Ben neu'r Diffyg mewn Darparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o Gostau Na Ddosbarthwyd.
- cost llog – y cynnydd disgwylidig yng ngwerth cyfredol y rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn wrth iddynt fod flwyddyn yn nes at gael eu talu - wedi'i debydu i'r Llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn unol â Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff hyn ei gyfrifo drwy gymhwyso'r gyfradd ostyngol a ddefnyddiwyd i fesur y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod at y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net ar ddechrau'r cyfnod, - gan ystyried unrhyw newid yn y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i daliadau cyfraniadau a budd-dal.

Ail-fesur yn cynnwys:

- Adenillion ar asedau cynlluniau - ac eithrio symiau a gynhwyswyd mewn llog net ar yr atebolrwydd buddiannau diffiniedig net - tâl i'r Gronfa Bensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall
- Enillion a cholledion actiwaraidd – newidiadau yn y rhwymedigaeth pensiynau net sy'n codi oherwydd nad ydyw digwyddiadau wedi cyd-daro â rhagdybiaethau a wnaed yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwaraidd wedi diweddarau eu rhagdybiaethau - wedi'u codi i'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall.
- cyfraniadau wedi'u talu i Gronfa Bensiwn Clwyd – arian parod wedi'i dalu fel cyfraniadau gweithiwr i'r gronfa bensiwn

Mewn perthynas â buddiannau ymddeol, mae darpariaethau statudol yn gofyn i Falans Cronfa'r Cyngor gael ei godi gyda'r swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn yn ystod y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â safonau cyfrifo perthnasol. Yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn, mae hyn yn golygu bod dyraniadau i a gan y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn i gael gwared ar ddebydau a chredydau tybiannol ar gyfer buddiannau ymddeol a'u disodli gyda debydau ar gyfer yr arian parod a delir i'r gronfa bensiynau ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy, ond heb eu talu, ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sy'n codi ar y Gronfa Bensiynau wrth Gefn, felly'n mesur yr effaith fuddiol ar Gronfa'r Cyngor sydd angen cyfrif am fuddiannau ymddeol ar sail llifoedd arian yn hytrach, na buddiannau a enillir gan weithwyr.

Buddiannau â Disgresiwn

Mae gan y Cyngor bwerau cyfyngedig i ddyfarnu buddiannau ymddeol yn ôl disgresiwn, mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Mae unrhyw rhwymedigaethau yr amcangyfrifir iddynt godi o ganlyniad i roi dyfarniad i unrhyw aelod o staff (gan gynnwys athrawon), yn

cael eu cronni yn ystod blwyddyn y penderfyniad i wneud y dyfarniad, ac yn cael ei gyfrif drwy ddefnyddio'r un polisïau ag sy'n gymwys i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

vii. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd yw'r digwyddiadau hynny, boed ffafriol neu anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod rhoi gwybod a'r dyddiad yr awdurdoddir cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiad:

- Y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth amodau a fodolodd ar ddiwedd y cyfnod rhoi gwybod – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- Y rhai hynny sy'n dangos amodau a gododd ar ôl y cyfnod rhoi gwybod - nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond lle byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith faterol, gwneir datgeliad yn nodiadau'r natur o ddigwyddiadau a'u heffaith ariannol fel y cawsant eu hamcangyfrif.

Nid yw digwyddiadau a gynhaliwyd ar ôl dyddiad awdurdodi'r cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad Cyfrifon.

viii. Mesur Gwerth Teg

Mae'r Awdurdod yn mesur rhai o'i asedau heb fod yn ariannol megis asedau dros ben ac adeiladau buddsoddi, a rhai o'i offerynnau ariannol ar werth teg ar bob dyddiad adrodd. Gwerth teg yw'r pris y byddai'n cael ei dderbyn am werthu ased neu a delir i drosglwyddo dyled mewn trafodion trefnus rhwng cyfranogwyr marchnad ar y dyddiad mesur. Mae'r mesur gwerth teg yn tybio bod y trafodion i werthu'r ased neu drosglwyddo'r ddyled yn digwydd naill ai:

- a. Yn y brif farchnad ar gyfer yr ased neu ddyled, neu
- b. Yn absenoldeb y brif farchnad, yn y farchnad fwyaf buddiol ar gyfer yr ased neu ddyled

Mae'r Awdurdod yn mesur gwerth teg ased neu ddyled fan ddefnyddio'r tybiaethau y byddai cyfranogwyr marchnad yn eu defnyddio wrth brisio'r ased neu ddyled, gan dybio bod cyfranogwyr marchnad yn gweithredu er eu lles economaidd gorau.

Pan fesurir gwerth teg i ased heb fod yn ariannol, bydd yr Awdurdod yn ystyried gallu cyfranogwr marchnad i gynhyrchu buddiannau economaidd drwy ddefnyddio'r ased yn y ffordd orau a mwyaf, neu drwy ei werthu i gyfranogwr marchnad arall a fyddai'n defnyddio'r ased yn y ffordd orau a mwyaf posib.

Mae'r awdurdod yn defnyddio technegau prisiad sy'n addas yn yr amgylchiadau, a lle mae data digonol ar gael, drwy wneud y gorau o ddefnydd o fewnbynnau gweladwy perthnasol a lleihau'r defnydd o fewnbynnau anweladwy.

Caiff mewnbynnau i'r technegau prisiad o ran asedau a dyledion lle mesurir neu datgelir gwerth teg yn natganiadau ariannol yr Awdurdod eu categoreiddio o fewn yr hierarchaeth gwerth teg, fel a ganlyn:

- Lefel 1 – prisiau a ddyfynnwyd (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu ddyledion yr un fath y gall yr awdurdod gael mynediad iddynt ar y dyddiad mesur

- Lefel 2 – mewnbynnau gwahanol i'r prisiau a ddyfynnwyd sydd wedi eu cynnwys o fewn Lefel 1 sy'n weladwy ar gyfer yr ased neu ddyled, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol
- Lefel 3 – mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased neu ddyled

ix. Offerynnau Ariannol

Dyledion Ariannol

Cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol ar y Fantolen pan fo'r Cyngor yn rhan o ddarpariaethau contract offeryn ariannol, ac wedi'u mesur yn y lle cyntaf ar werth teg ac yn cael eu cario ar gost wedi'u hamorteiddio. Mae taliadau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth, wedi'i luosi gan y gyfradd log effeithiol ar gyfer yr offeryn. Y gyfradd log effeithiol yw'r gyfradd sy'n union ddisgownt o'r taliadau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol dros oes yr offeryn, i'r swm y cafodd ei gydnabod yn wreiddiol.

Ar gyfer yr holl fenthyciadau sydd gan y Cyngor, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prif swm sy'n ad-daladwy (ynghyd â llog cronedig); a'r llog a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy yn y flwyddyn yn ôl y cytundeb benthyciad.

Mae'r enillion a cholledion ar adbrynu neu setlo benthyciadau yn gynnwys yn cael eu credydu a'u debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn adbrynu/setliad. Fodd bynnag, lle mae adbrynu'n digwydd fel rhan o ailstrwythuro'r portffolio benthyciadau sy'n cynnwys addasu neu gyfnewid offerynnau sy'n bodoli eisoes, mae'r premiwm neu'r disgownt yn cael ei dynnu neu ei ychwanegu yn ôl eu trefn o gost wedi'i amorteiddio y benthyciad newydd neu'n un wedi'i addasu, ac mae'r ysgrifennu i lawr i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cael ei ledaenu dros oes y benthyciad drwy addasu'r gyfradd log effeithiol.

Lle mae premiymau neu ddisgowntiau wedi cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, mae rheoliadau yn caniatáu i'r effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor gael ei ledaenu dros y blynyddoedd i ddod. Mae gan y Cyngor bolisi o ledaenu'r enillion neu'r golled dros y tymor a oedd yn weddill ar y benthyciad yn erbyn y premiwm a oedd yn daladwy neu'r disgownt yn dderbyniadwy pan gafodd ei ad-dalu. Mae'r cysoniad o'r symiau a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gost net sy'n ofynnol yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor yn cael ei reoli gan drosglwyddiad i neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad o'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Asedau Ariannol

Caiff asedau ariannol eu dosbarthu i ddau fath:

- benthyciadau a symiau derbyniadwy – asedau gyda thaliadau sy'n sefydlog neu wedi'u penderfynu, ond nad ydynt yn cael eu dyfynnu mewn marchnad weithredol
- asedion sy'n barod i'w gwerthu – asedau gyda phris wedi'i ddyfynnu ar y farchnad a/neu ddim gyda thaliadau sefydlog neu wedi'u penderfynu

Benthyciadau a Symiau Derbyniadwy

Cydnabyddir benthyciadau a symiau derbyniadwy ar y Fantolen pan fo'r Cyngor yn rhan o ddarpariaethau contract offeryn ariannol, ac wedi'u mesur yn y lle cyntaf ar werth teg. Maent yn cael eu mesur wedyn ar eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae credydau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r ased, wedi'i luosi

gan y gyfradd log effeithiol ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer yr holl fenthyciadau mae'r Cyngor wedi'i wneud, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prif swm sy'n ddyledus ac yn dderbyniadwy (ynghyd â llog cronedig) a'r llog sydd wedi'i gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm a dderbynnir ar gyfer y flwyddyn yn y cytundeb benthyciad.

Pan amharwyd ar asedau oherwydd y tebygolrwydd sy'n codi o ddigwyddiad yn y gorffennol na fydd taliadau sy'n ddyledus o dan gytundeb yn cael eu gwneud, mae'r ased yn cael ei ysgrifennu i lawr a thâl yn cael ei godi ar y gwasanaeth perthnasol (ar gyfer symiau derbyniadwy sy'n berthnasol i'r gwasanaeth hwnnw) neu'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hwn. Mae colled yr amhariad yn cael ei fesur fel y gwahaniaeth rhwng y swm cario a gwerth presennol y llif arian diwygiedig yn y dyfodol wedi'i ddisgowntio ar gyfradd log wreiddiol yr ased.

Mae unrhyw enillion neu golledion sy'n codi o ddatgydnabod yr ased yn cael ei gredydu neu ei ddebydu i linell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Benthyciad Meddal

Mae benthyciad meddal yn fenthyciad y mae'r Cyngor wedi'i roi i gorff allanol am gyfradd llog sy'n is na chyfradd y farchnad. Yn yr achos hwn, mae angen defnyddio cyfrifo benthyciad meddal. Fodd bynnag, os ystyrir bod maint y trafodyn yn de-minimis, nid oes angen defnyddio cyfrifo benthyciad meddal. Mae'r Cyngor wedi gosod y lefel de-minimis hon am £150k ar gyfer bob benthyciad unigol a roddir, neu lle nad yw'r addasiad gwerth teg yn faterol.

x. Grantiau Llywodraeth a Chyfraniadau

Os ydynt yn cael eu talu fel ernes, mewn rhandaliadau neu fel ôl-ddyledion, mae grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau trydydd parti a rhoddion yn cael eu cydnabod yn ddyledus i'r Cyngor pan mae sicrwydd rhesymol:

- y bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r amodau sydd wedi'u hatodi i'r taliadau
- y derbynnir y grant neu'r cyfraniadau.

Nid yw'r symiau sy'n cael eu cydnabod yn ddyledus i'r Cyngor yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd nes y bydd amodau sydd ynghlwm wrth y grant neu'r cyfraniad wedi'u bodloni. Amodiad yw'r amodau sy'n nodi bod y manteision economaidd yn y dyfodol neu botensial gwasanaeth sydd wedi'u hymgorffori yn yr ased a gafwyd drwy ddefnyddio'r grant neu gyfraniad sy'n gorfod cael ei ddefnyddio gan y derbynnydd fel y nodir, neu bydd yn rhaid dychwelyd y buddion economaidd yn y dyfodol neu'r potensial am wasanaeth yn ôl i'r trosglwyddwr.

Mae arian a roddwyd fel blaendal fel grantiau a chyfraniadau lle nad yw'r amodau wedi'u bodloni yn cael eu cario yn y Fantolen fel credydwy. Pan fo'r amodau wedi'u bodloni, mae'r grant neu'r cyfraniad yn cael ei gredydu i'r llinell gwasanaeth berthnasol (grantiau refeniw a chyfraniadau y gellir eu priodoli), neu Drethiant ac Incwm Grant nad ydyw'n Benodol (grantiau refeniw heb eu neilltuo a phob grant cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Lle mae grantiau cyfalaf yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu gwrthdroi o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiad yn

y Cronfeydd Wrth Gefn. Lle nad ydyw'r grant wedi'i ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei bostio i Gronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso. Lle bydd wedi'i gymhwyso, caiff ei bostio i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf. Trosglwyddir symiau yng Nghronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf unwaith y byddant wedi'u defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

xi. Asedau Treftadaeth

Asedau Treftadaeth Diriaethol ac Anniriaethol (disgrifir yn y crynodeb hwn o bolisïau cyfrifo sylweddol fel Asedau Treftadaeth)

Cedwir Asedau Treftadaeth y Cyngor mewn nifer o safleoedd, gan gynnwys Amgueddfa'r Rhyl (o fewn Llyfrgell y Rhyl). Nantclwyd Y Dre, Carchar Rhuthun a Phlas Newydd sydd gan gasgliadau parhaol, ond hefyd mae'r adeiladau eu hunain yn cael eu trin fel Asedau Treftadaeth. Mae pob safle (ac eithrio Nantclwyd Y Dre) yn cael eu hachredu o dan gynllyun Achredu Amgueddfeydd Cyngor Celfyddydau Lloegr. Mae cofadail rhestredig, Castell Dinas Brân, hefyd yn Sir Ddinbych.

Cedwir casgliadau o Asedau Treftadaeth i gefnogi prif amcan amgueddfeydd y Cyngor h.y. gofalu am dreftadaeth Sir Ddinbych, ei gwneud yn hygyrch i bawb drwy ysbrydoli, dysgu a mwynhau.

Cydnabyddir Asedau Treftadaeth a'u mesur (gan gynnwys trin enillion a cholledion ailbriso) yn unol â pholisïau cyfrifo'r Cyngor ar eiddo, cyfarpar ac offer. Fodd bynnag, mae rhai o'r rheolau mesur wedi'u llacio mewn perthynas ag Asedau Treftadaeth wrth i'r Cyngor ystyried y byddai cael prisiadau ar gyfer casgliadau yn cynnwys cost anghyfartal o'i gymharu â'r buddion a ddarperir i ddefnyddwyr datganiadau ariannol. Mae hyn oherwydd natur amrywiol yr asedau a gedwir a'r diffyg mewn gwerthoedd tebyg. Mae'r casgliadau'n gymharol sefydlog ac nid oes unrhyw gaffaeliadau diweddar neu roddion.

Mae'r holl waith gofalu am gasgliadau yn cydymffurfio â safonau Comisiynu Amgueddfeydd a Galerïau. Ystyrir oes asedau'r casgliadau yn amhenodol oherwydd gwaith ataliol a gynhaliwyd gan Wasanaeth Treftadaeth Sir Ddinbych, ac oherwydd natur yr eitemau dan sylw. Felly nid ydyw'n addas newid y dibrisiad.

Mae'r Cyngor yn cadw at ganllawiau Cymdeithas yr Amgueddfeydd ar waredu.

xii. Rhestrau Eiddo

Caiff storfeydd y Gwasanaethau Amgylcheddol eu prisio am bris prynu cyfartalog. Cydnabyddir nad ydyw hyn yn cydymffurfio â'r Cod, sydd angen rhestrau eiddo i gael eu prisio ar raddfa is y gost a gwerth sylweddoladwy net. Mae hyn oherwydd y cyfyngiadau gyda'r feddalwedd gyfrifiadurol a ddefnyddir gan y storfeydd ac sy'n annhebygol o newid yn y tymor byr. Mae'r rhestr eiddo yng Ngofal lechyd Cefndy yn cael ei phrisio ar bris y gost ddiweddaraf yn hytrach na'i hasesu rhwng y gost a gwerth sylweddoladwy net ac sydd felly'n gwyro o'r Cod. Mae hyn i adlewyrchu'r anwadalrwydd gyda rhai o'r gwerthoedd nwyddau dan sylw, ac ystyrir ei fod yn ddull prisio rhesymol. Mae Storfa Offer y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'i ddatblygu gyda'r GIG. I gydymffurfio gydag arfer cyffredinol ar gyfer offer o'r fath, caiff y rhestr eiddo ei thrin fel eitem refeniw.

Caiff pob Rhestr Eiddo arall ei chynnwys yn y Fantolen ar raddfa is y gost a gwerth sylweddoladwy.

xiii. Eiddo Buddsoddi

Eiddo buddsoddi yw'r rhai hynny a ddefnyddir ar gyfer ennill rhent a/neu adbrisiant cyfalaf yn unig. Nid yw'n cwrdd â'r diffiniad os defnyddir yr eiddo mewn unrhyw ffordd i hwyluso darpariaeth gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau neu os yw ar gael i'w werthu.

Mesurir eiddo buddsoddi ar y dechrau ar sail cost ac yn ddiweddarach ar sail gwerth teg, sef y pris a fuddai'n cael ei dderbyn i werthu ased o'r fath mewn trafodiad drefnus rhwng cyfranogwyr farchnad ar y dyddiad mesur. Fel ased heb ei hariannu, mesurwyd adeiladau buddsoddi ar y defnydd uchaf a'r gorau. Ni chaiff eiddo eu dibrisio ond fe'u hadbrisir yn flynyddol yn ôl amgylchiadau'r farchnad ar ddiwedd y flwyddyn. Mae unrhyw enillion neu golledion yn cael eu postio i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r un driniaeth yn berthnasol i enillion a cholledion ar waredu.

O 1 Ebrill 2015, mae lefel prisio de mimimis wedi ei osod a dim ond eiddo sydd yn werth mwy na £30k dylid ei gynnwys fel Eiddo Buddsoddi.

Mae rhent a dderbynnir mewn perthynas ag eiddo buddsoddi yn cael ei gredu i'r llinell Incwm Ariannu a Buddsoddi ac yn arwain at gynnydd ym Malans Cronfa'r Cyngor. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau statudol yn caniatáu i enillion a cholledion ailbriso a gwaredu gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Felly caiff enillion a cholledion eu gwrthdroi allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn a'u postio i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf ac (ar gyfer unrhyw dderbyniadau gwerthiant dros £10,000), i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn.

xiv. Gweithrediadau ar y Cyd

Mae gweithrediadau ar y cyd yn drefniadau, lle mae gan y partiön sydd â rheolaeth ar y cyd o'r trefniadau, yr hawl i'r asedau ac ymrwymadau i'r dyledion sy'n gysylltiedig â'r trefniadau. Mae'r gweithgareddau a gyflawnir gan yr Awdurdod yn unol â gweithredwyr ar y cyd eraill yn cynnwys defnyddio'r asedau ac adnoddau'r gweithredwyr ar y cyd hynny. O ran ei fuddiant mewn gweithrediad ar y cyd, mae'r Awdurdod fel gweithredwr ar y cyd yn cydnabod:

- Ei asedau, gan gynnwys ei gyfran o unrhyw asedau a ddelir ar y cyd
- Ei ddyledion, gan gynnwys ei gyfran o unrhyw ddyledion a gafwyd ar y cyd
- Ei gyfran o'r refeniw o werthiant yr allbwn gan y gweithrediad ar y cyd
- Ei dreuliau, gan gynnwys ei gyfran o unrhyw dreuliau a godwyd ar y cyd

xv. Prydlesau

Caiff prydlesau eu dosbarthu fel prydlesau cyllid, lle bydd telerau'r brydles yn trosglwyddo'n sylweddol pob risg a gwobr sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth yr eiddo, peiriannau neu offer gan y prydleswr i'r prydlesai. Caiff pob prydles arall ei dosbarthu fel prydles weithredu.

Pan fo prydles yn cynnwys tir ac adeiladu, caiff yr elfennau tir ac adeiladau eu hystyried ar wahân er mwyn eu dosbarthu.

Caiff trefniadau nad oes ganddynt statws cyfreithiol prydles ond sy'n cyfleu hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am dâl eu cyfrif dan y polisi hwn pan fo cyflawni'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio asedau penodol.

Y Cyngor fel Prydlesai

Prydlesau Ariannol

Caiff eiddo, peiriannau ac offer a gedwir dan brydlesau ariannol eu cydnabod ar y Fantolen ar ddechrau'r brydles ar eu gwerth teg a fesurir ar ddechrau'r brydles (neu werth presennol taliadau isafswm y brydles, os ydynt yn is). Caiff yr ased a gydnabyddir ei baru gan ddyled am y rhwymedigaeth i dalu'r prydleswr. Caiff costau uniongyrchol cychwynnol y Cyngor eu hychwanegu at swm cludo'r ased. Caiff premïymau a delir wrth ddechrau prydles eu rhoi wrth ysgrifennu i lawr dyled y brydles. Caiff rhenti amodol eu nodi fel treuliau yn y cyfnodau perthnasol.

Caiff taliadau prydlesau eu dosrannu rhwng:

- tâl am gaffael buddiant yn yr eiddo, peiriannau neu offer – fe'u rhoddir wrth ysgrifennu i lawr dyled y brydles, a
- thâl cyllid (caiff ei ddebydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Caiff eiddo, peiriannau ac offer a gydnabyddir dan brydlesau ariannol eu cyfrif gan ddefnyddio'r polisiau a ddefnyddir yn gyffredinol gydag asedau o'r fath, yn amodol ar godi tâl dibrisio dros gyfnod y brydles os yw hyn yn fyrrach nag oes ddefnyddiol a amcangyfrifir yr ased (lle nad yw perchnogaeth yr ased yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd cyfnod y brydles).

Nid oes gofyn i'r Cyngor godi treth y cyngor i dalu dibrisiad neu ailbrisiad a cholledion lleihad yn y gwerth sy'n codi ar asedau ar brydles. Yn hytrach, gwneir cyfraniad doeth blynyddol o gyllid refeniw tuag at y buddsoddiad cyfalaf tybiedig yn unol â gofynion statudol. Felly caiff dibrisiad, ailbrisiad a cholledion lleihad yn y gwerth eu disodli gan gyfraniad refeniw ym Malans Cronfa'r Cyngor, drwy drafodyn addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn, ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

Prydlesau Gweithredu

Caiff rhent a delir dan brydlesau gweithredu eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel cost y gwasanaethau sy'n manteisio ar ddefnyddio'r eiddo, peiriannau neu offer ar brydles.

Y Cyngor fel Prydleswr

Prydlesau Ariannol

Pan fo'r Cyngor yn rhoi prydles ariannol dros eiddo neu beiriannau neu offer, caiff yr ased perthnasol ei ysgrifennu allan o'r Fantolen fel gwarediad. Ar ddechrau'r brydles, caiff swm cludo'r ased ar y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Peiriannau neu Offer neu Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu) ei ddiddymu i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r golled wrth ei waredu. Caiff enilliad, sy'n cynrychioli buddsoddiad net y Cyngor yn y brydles, ei gredydu i'r un llinell

yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enilliad neu golled wrth waredu (h.y. wedi'i rwydo i ffwrdd yn erbyn gwerth cludo'r ased adeg ei waredu), wedi baru gan ased prydles (dyledwr hirdymor) ar y Fantolen.

Caiff rhent prydlesau derbyniadwy eu dosrannu rhwng:

- tâl am gaffael buddiant yn yr eiddo, peiriannau neu offer - fe'u rhoddir wrth ysgrifennu i lawr dyled y brydles yn gynnwys unrhyw breimiymau a dderbyniwyd, a
- incwm cyllid (caiff ei gredydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Ni chaiff yr enilliad a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wrth ei waredu ei ganiatáu drwy statud i gynyddu Balans Cronfa'r Cyngor ac mae angen ei drin fel derbyniad cyfalaf. Pan fo premiwm wedi'i dderbyn, caiff ei bostio allan o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Pan gaiff y swm dyledus o ran ased y brydles ei setlo gan daliad rhent mewn blynnyddoedd ariannol y dyfodol, caiff ei bostio allan o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Pan dderbynnir rhent y dyfodol, defnyddir yr elfen ar gyfer y derbyniadau cyfalaf ar gyfer gwaredu'r ased i ysgrifennu i lawr dyledwr y brydles. Yn y cam hwn, caiff y derbyniadau cyfalaf gohiriedig eu trosglwyddo i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn.

Nid yw gwerth y gwarediadau sydd wedi'u diddymu yn dâl yn erbyn treth y cyngor, gan fod cost asedau anghyfredol yn cael eu talu'n llawn dan drefniadau ar wahân ar gyfer cyllido cyfalaf. Felly caiff symiau eu hadfeddu i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Prydlesau Gweithredu

Pan fo'r Cyngor yn rhoi prydles weithredu dros eiddo neu beiriant neu offer, caiff yr ased ei gadw yn y Fantolen. Caiff incwm rhentu ei gredydu i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

xvi. Refeniw Anghyfnwid

Cydnabod Refeniw o Drafodion Anghyfnwid

Caiff asedau a refeniw sy'n codi o drafodion anghyfnwid eu cydnabod yn unol â gofynion IAS 20 Cyfrifo Grantiau'r Llywodraeth a Datgelu Cymorth y Llywodraeth, ar wahân i pan gânt eu dehongli neu eu haddasu i gyd-fynd â'r sector cyhoeddus fel y cânt eu hegluro yn y Cod a/neu IPSAS 23, "Refeniw o Drafodion Digyfnwid (Trethi a Throsglwyddiadau)

Trafodion trethi

Caiff asedau a refeniw sy'n codi o drafodion trethi eu cydnabod yn y cyfnod y mae'r digwyddiad trethadwy'n digwydd, cyn belled â bod yr asedau yn bodloni diffiniad ased ac yn bodloni meini prawf ar gyfer cael eu cydnabod fel ased.

Trafodion anhrethadwy

Caiff asedau a refeniw sy'n codi o drafodion trosglwyddo eu cydnabod yn y cyfnod y bydd y trefniad trosglwyddo yn rhwymo. Ni chaiff gwasanaethau mewn nwyddau eu cydnabod.

Pan fo trosglwyddiad yn amodol ar amodau sy'n golygu bod angen dychwelyd yr adnoddau a drosglwyddwyd os na chânt eu bodloni, bydd yr awdurdod yn cydnabod dyled nes i'r amod gael ei fodloni.

Sail Mesur Dosbarthiadau Refeniw Mawr o Drafodion Anghyfnwid

Caiff refeniw trethu ei fesur ar werth enwol arian parod, a chywerthoedd arian parod.

Caiff asedau a refeniw a gydnabyddir o ganlyniad i drosglwyddiad eu mesur ar werth teg yr asedau a gydnabyddir ar ddyddiad y cydnabod:

- Caiff asedau ariannol eu mesur ar eu gwerth enwol oni bai bo gwerth amser arian yn berthnasol, a phryd hynny, defnyddir gwerth presennol, a gyfrifir gan ddefnyddio cyfradd ostyngol sy'n adlewyrchu'r risg cynhenid o gadw'r ased; a
- Caiff asedau anariannol eu mesur ar eu gwerth teg, a bennir drwy gyfeirio at werthoedd arsylladwy'r farchnad neu drwy arfarniad annibynnol gan aelod o'r proffesiwn prisio. Caiff symiau derbyniadwy eu cydnabod pan fo trefniant trosglwyddo sy'n rhwymo ar waith ond nad yw arian parod neu asedau eraill wedi'u derbyn.

xvii. Gorbenion a Gwasanaethau Cymorth

Caiff costau gorbenion a gwasanaethau cymorth eu codi ar y rhai sy'n manteisio ar gyflenwad neu wasanaeth yn unol ag egwyddorion prisio *Cod Ymarfer Adrodd Gwasanaeth CIPFA 2015/16* (SERCOP). Caiff costau llawn gorbenion a gwasanaethau cymorth eu rhannu rhwng defnyddwyr mewn cyfrannedd â'r manteision a ddefnyddir gan sawl methodoleg gan gynnwys cofnodi amser, nifer yr eitemau a ddefnyddir ac ati. Yr unig gostau na chodir ar y gwasanaethau yw:

- Y Craidd Corfforaethol a Democrataidd – costau sy'n gysylltiedig â statws y Cyngor fel sefydliad amlswyddogaeth a democrataidd.
- Costau Heb Eu Dosbarthu – cost manteision dewisol a roddir i weithwyr sy'n ymddeol yn gynnar a cholledion amhariad y gellir eu codi ar Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu.

Mae'r ddau gategori cost hyn yn cael eu diffinio yn SERCOP a chânt eu cyfrif fel penawdau ar wahân yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, fel rhan o Wariant Net ar Wasanaethau Parhaus.

xviii. Addasiadau Cyfnodau Blaenorol, Newidiadau mewn Polisiâu Cyfrifo ac Amcangyfrifon a Gwallau

Gall addasiadau cyfnodau blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiâu cyfrifo neu i gywiro gwall materol. Caiff newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifo eu cyfrif yn y dyfodol, h.y. yn y blynyddoedd presennol a'r dyfodol y mae'r newid yn effeithio arnynt ac nid ydynt yn arwain at addasiad cyfnod blaenorol.

Ni wneir newidiadau i bolisiâu cyfrifo oni bai bo angen drwy arferion cyfrifo cywir neu pan fo'r newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyngor. Pan gaiff newid ei wneud, caiff ei wneud yn ôl-weithredol (oni nodir yn wahanol) drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wedi'i ddefnyddio bob amser.

Caiff gwallau materol yn ffigurau'r cyfnod blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

xix. Eiddo, Peiriannau ac Offer

Caiff asedau sydd â sylwedd ffisegol ac y'u cedwir i'w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol eu dosbarthu fel Eiddo, Peiriannau ac Offer.

Cydnabyddiaeth

Caiff gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Peiriannau ac Offer ei gyfalafu ar sail cronïadau, cyn belled â'i bod yn debygol y bydd manteision economaidd neu botensial y gwasanaeth yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r eitem yn llifo i'r Cyngor ac y gellir mesur cost yr eitem mewn modd dibynadwy. Caiff gwariant sy'n cynnal potensial ased i ddarparu buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol ond nad yw'n ychwanegu ato (h.y. trwsio a chynnal a chadw) ei godi fel gwariant pan fydd yn digwydd.

O 1 Ebrill 2015, mae lefel prisio de minimis wedi ei osod a dim ond eiddo sydd yn werth mwy na £30k dylid ei gynnwys fel Eiddo, Peiriannau ac Offer. Mae'r lefel de minimis yn eithrio cerbydau, a bydd y cofrestrau asedau yn cael eu hadolygu fel rhan o ymarfer parhaus. Mae'r gwariant ar Eiddo, Peiriannau ac Offer yn ystod y flwyddyn, sydd yn is na £30k yn cael ei amharu hefyd yn ystod y flwyddyn.

Mesuriad

Caiff asedau eu mesur yn ôl cost i ddechrau, gan gynnwys:

- pris prynu
- unrhyw gostau a briodolir i ddod â'r ased i'r lleoliad a'r cyflwr angenrheidiol er mwyn gallu gweithredu yn y modd y mae'r rheolwyr yn ei fwriadu
- amcangyfrif cychwynnol costau datgymalu a symud yr eitem ac adfer y safle y mae wedi'i leoli arno.

Nid yw'r Cyngor yn cyfalafu costau benthyca a ddaw tra bo asedau yn cael eu hadeiladu.

Bennir bod cost asedau a gaffaelir ar wahân i'w prynu yn werth teg, oni bai nad oes sylwedd masnachol i'r caffaeliad (h.y. ni fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian y Cyngor). Yn yr achos olaf, pan fo ased yn cael ei gaffael drwy gyfnewid, cost y caffaeliad yw swm cludo'r ased a roddir gan y Cyngor.

Yna caiff asedau eu cludo yn y Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- isadeiledd, asedau cymunedol ac asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol dibrisiedig
- anheddau – gwerth cyfredol, a bennir gan ddefnyddio sail gwerth defnydd presennol ar gyfer tai cymdeithasol
- pob ased arall – gwerth cyfredol, a bennir fel y swm a delir am yr ased yn ei ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol).

Pan nad oes tystiolaeth o'r farchnad o werth cyfredol oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir costau amnewid dibrisiedig (CAD) fel amcangyfrif o werth cyfredol.

Pan fo gan asedau nad ydynt yn eiddo, oes ddefnyddiol fyr neu werth isel (neu'r ddau), defnyddir sail cost hanesyddol dibrisiedig fel dirprwy ar gyfer gwerth cyfredol.

Mae adbriso dilynol o ran asedau anghyfredol wedi'u cynllunio fel rhan o asesiad parhaus er mwyn i bob ased gael ei adbriso cyn pen pum mlynedd o'i brisiad blaenorol, er y bydd newidiadau materol i brisiad asedau yn cael eu haddasu yn y cyfnod dros dro wrth iddynt ddigwydd. Cafodd 20% o asedau'r Cyngor eu hadbriso yn ystod 2015/16. Caiff cynnydd o ran prisiadau eu paru gan gredydau i'r Gronfa Adbriso Wrth Gefn i gydnabod enillion na wireddwyd. Yn eithriadol, gellir credydu enillion i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fyddant yn codi o wrthdroi colled a godwyd ar wasanaeth o'r blaen. Pan nodir lleihad o ran gwerth, cânt eu cyfrif drwy:

- pan fo balans enillion adbriso ar gyfer yr ased yn y Gronfa Adbriso Wrth Gefn, caiff swm cludo'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig)
- pan nad oes balans yn y Gronfa Adbriso Wrth Gefn neu pan fo balans annigonol, caiff swm cludo'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Adbriso Wrth Gefn yn cynnwys enillion adbriso a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, sef dyddiad ei weithredu'n ffurfiol. Mae enillion a godwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi'u cyfuno yn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

Amhariad

Caiff asedau eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn i weld a oes unrhyw arwydd y gallai amhariad fod ar ased. Pan fo arwyddion yn bodoli a phan amcangyfrifir bod unrhyw wahaniaethau posibl yn faterol, caiff swm adferadwy'r ased ei amcangyfrif, a phan fo hyn yn llai na swm cludo'r ased, caiff swm amhariad ei gydnabod ar gyfer y diffyg.

Pan gaiff colledion amhariad eu nodi, cânt eu cyfrif drwy:

- pan fo balans enillion adbriso ar gyfer yr ased yn y Gronfa Adbriso Wrth Gefn, caiff swm cludo'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig)
- pan nad oes balans yn y Gronfa Adbriso Wrth Gefn neu pan fo balans annigonol, caiff swm cludo'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan gaiff colled amhariad ei wrthdroi o ganlyniad, caiff y gwrthdroi ei gredydu i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd at swm y golled wreiddiol, wedi'i haddasu ar gyfer dibrisiad a fyddai wedi'i godi pe na bai'r golled wedi'i chydabod.

Dibrisiad

Darperir ar gyfer dibrisiad ar bob ased Eiddo, Peiriannau ac Offer gan ddyraniad systematig eu symiau dibrisiadwy dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau nad oes ganddynt oes ddefnyddiol feidraidd y gellir ei bennu (h.y. tir rhydd-ddaliad ac asedau cymunedol penodol) ac asedau nad ydynt ar gael i'w defnyddio eto (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu).

Cyfrifir dibrisiad ar y sail ganlynol:

- anheddau ac adeiladau eraill - dyraniad llinell syth dros oes ddefnyddiol yr eiddo yn ôl amcangyfrif y prisiwr
- cerbydau, peiriannau, dodrefn ac offer – dull llinell syth
- isadeiledd – dyraniad llinell syth dros 40 mlynedd.

Cydrannu

Pan fo gan ased Eiddo, Peiriant ac Offer gydrannau mawr sydd â chost sylweddol o ran cyfanswm cost yr eitem, caiff y cydrannau eu dibrisio ar wahân.

Ar asedau dros £750,000 byddem yn ystyried cydrannu elfen os yw'n ymddangos yn briodol i roi gwerth ar wahân h.y. os yw elfen o'r ased hwnnw yn heneiddio ar gyfradd anghymesurol sylweddol o gymharu â gweddill yr adeilad a lle mae cost y gydran yn sylweddol (h.y. 20% o gyfanswm cost yr ased) mewn perthynas â chyfanswm cost yr ased.

Caiff enillion adbriso eu dibrisio hefyd, gyda swm sydd gyfwerth â'r gwahaniaethau rhwng dibrisiad gwerth presennol a godir ar asedau a'r dibrisiad a fyddai wedi'i godi ar sail eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Adbriso Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

Gwarediadau ac Asedau Anghyfredol a gânt eu Dal i'w Gwerthu

Pan ddaw'n debygol y bydd swm cludo ased yn cael ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na thrwy ei ddefnyddio'n barhaus, caiff ei ailddosbarthu fel Ased a gaiff ei Dal i'w Werthu. Caiff yr ased ei ailbriso'n syth cyn eil ailddosbarthu ac yna caiff ei gario ar y swm isaf a gwerth teg llai costau gwerthu. Pan fo lleihad dilynol i werth teg llai costau gwerthu, caiff y golled ei phostio i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff enillion o ran gwerth teg eu cydnabod hyd at swm unrhyw golledion blaenorol yn unig a gydnabyddir yn y Gwarged neu Golled ar Darpariaeth Gwasanaethau. Ni chaiff dibrisiad ei godi ar Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu.

Os na fydd asedau yn bodloni'r meini prawf i gael eu dosbarthu'n Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu bellach, cânt eu hailddosbarthu'n asedau anghyfredol a'u prisio ar swm isaf eu swm cludo cyn iddynt gael eu dosbarthu fel asedau a gânt eu dal i'w Gwerthu; cânt eu haddasu ar gyfer dibrisiad, amorteiddio neu adbriso a fyddai wedi'u cydnabod pe na baent wedi'u dosbarthu fel asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu, a'u swm adenilladwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio â gwerthu.

Ni chaiff asedau a gaiff eu gadael neu eu sgrapio eu hailddosbarthu fel Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu.

Pan gaiff ased ei waredu neu ei ddatgomisiynu, caiff swm cludo'r ased ar y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Peiriant, Offer neu'n Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu) ei diddymu i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r golled wrth ei waredu. Caiff derbyniadau o warediadau (os oes rhai), eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enilliad neu golled wrth waredu (h.y. wedi'i rwydo i ffwrdd yn erbyn gwerth cludo'r ased adeg ei waredu). Caiff unrhyw enillion adbriso a gronnir ar gyfer yr ased yn y Gronfa Adbriso Wrth Gefn eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

Caiff symiau a dderbynnir ar gyfer gwarediad mwy na £10,000 eu dosbarthu fel derbyniadau cyfalaf. Mae angen i dderbynebaw gael eu credydu i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn, ac yna dim ond ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd y gellir eu defnyddio, neu eu neilltuo i leihau angen sylfaenol y Cyngor i fenthycu (y Nawdd Cyfalaf

Gofynnol). Caiff derbynebau eu hadfeddu i'r Gronfa Wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Nid yw gwerth y gwarediadau sydd wedi'u diddymu yn dâl yn erbyn treth y cyngor, gan fod cost asedau nad ydynt yn gyfredol yn cael ei dalu'n llawn dan drefniadau ar wahân ar gyfer cyllido cyfalaf. Caiff symiau eu hadfeddu i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

xx. Menter Cyllid Preifat (PFI)

Mae contractau PFI yn gytundebau i dderbyn gwasanaethau lle mae'r cyfrifoldeb am ddarparu'r eiddo, peiriannau ac offer sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau yn trosglwyddo i gontractwr y PFI. Oherwydd y bernir bod y Cyngor yn rheoli'r gwasanaethau a ddarperir dan ei gynlluniau PFI, ac oherwydd y bydd perchnogaeth yr eiddo, peiriannau ac offer yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd y contractau am ddim tal ychwanegol, mae'r Cyngor yn cario'r asedau a ddefnyddir dan y contractau ar ei Fantolen fel rhan o Eiddo, Peiriannau ac Offer.

Llofnodwyd contract PFI ar gyfer darparu llety swyddfa i'r Cyngor yn Rhuthun am 25 mlynedd yn 2002/03. Dechreuodd y gwasanaeth ym mis Mai 2004. Cydbwyswyd cydnabod yr asedau anghyfredol hyn trwy gydnabod atebolrwydd am symiau'n ddyledus i weithredwr y cynllun i dalu am yr asedau.

Mae'r asedau anghyfredol a gydnabyddir ar y Fantolen yn cael eu hailbrisio a'u dibrisio yn yr un dull ag eiddo, peiriannau ac offer y mae'r Cyngor yn berchennog arnynt.

Cyhoeddodd y Cyngor, o dan delerau'r Cytundeb Prosiect Menter Cyllid Preifat, rhybydd ffurfiol i derfynu'r Cytundeb ar 14 Mai 2015, a chwblhawyd y terfyniad ar 4 Medi, 2015.

Mae'r symiau sy'n daladwy i weithredwyr y PFI bob blwyddyn yn cael eu dadansoddi dan 5 pennawd. Yn 2015/16 mae'r Taliad Unedol ond am y cyfnod 1af Ebrill i 4ydd Medi 2015:

- gwerth teg y gwasanaethau a gafwyd yn ystod y flwyddyn – debydwyd i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
- tâl cyllid – tâl llog o 6.19% ar y ddyled sy'n ddyledus ar y Fantolen, caiff ei ddebydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
- rhent amodol – cynnydd yn y swm i'w dalu am yr eiddo sy'n codi yn ystod y contract, a ddebydir i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
- taliad tuag at ddyled – sy'n berthnasol i ysgrifennu i lawr dyled y Fantolen tuag at weithredwr y PFI (caiff proffil ysgrifennu i lawr ei gyfrifo gan ddefnyddio'r un egwyddorion ag ar gyfer prydles ariannol)
- costau disodli cylch oes - caiff cyfran o'r symiau taladwy ei phostio i'r Fantolen fel rhagdaliad ac yna caiff ei chydabod fel ychwanegiadau i Eiddo, Peiriannau ac Offer pan gaiff y gwaith perthnasol ei wneud.

xxi. Darpariaethau, Dyledion Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn

Darpariaethau

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i'r Cyngor sydd, y mae'n fwy na thebyg, angen setliad trwy

drosglwyddo buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth, a phan ellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r swm y rhwymedigaeth honno.

Codir tâl am ddarpariaethau fel gwariant ar linell y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn y daw'r Cyngor yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a chânt eu mesur ar yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad mantolen y gwariant y mae angen ei wneud er mwyn setlo'r rhwymedigaeth, gan roi ystyriaeth i risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

Pan wneir taliadau maes o law, fe'u codir o'r ddarpariaeth sydd eisoes yn y Fantolen. Caiff setliadau a amcangyfrifwyd eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol - pan ddaw'n llai na thebygol y bydd bellach angen trosglwyddo buddiannau economaidd (neu fod setliad is na'r hyn a ddisgwyliid yn cael ei wneud), caiff y ddarpariaeth ei dychwelyd a'i chredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

Pan fo disgwyl i beth, neu'r cyfan, o'r taliad sydd ei angen i setlo darpariaeth gael ei adfer gan barti arall (e.e. o hawliad yswiriant), dim ond pan fo'n bron yn sicr y caiff ad-daliad ei dderbyn os bydd y cyngor yn setlo'r rhwymedigaeth y caiff hyn ei gydnabod fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol.

Darpariaeth ar gyfer Ôl-daliadau Cyflog yn deillio o Hawliadau am Dâl Anghyfartal
Mae'r Awdurdod wedi gwneud darpariaeth am gostau setlo achosion am ôl-dâl sy'n deillio o daliadau gwahaniaethol a wnaed cyn i'r Awdurdod weithredu ei strategaeth cyflogau cyfartal.

Dyledion Digwyddiadol

Mae dyled ddigwyddiadol yn digwydd pan fo digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth bosibl i'r Awdurdod na ellir cadarnhau ei bodolaeth ond trwy un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth yr Awdurdod. Mae dyledion digwyddiadol hefyd yn codi mewn amgylchiadau pan wneid darpariaeth fel arall ond naill ai nad yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Nid yw dyledion digwyddiadol yn cael eu cydnabod ar y Fantolen ond yn cael eu datgelu mewn nodyn ynglŷn â'r cyfrifon.

Asedau Digwyddiadol

Mae ased digwyddiadol yn digwydd pan fo digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi ased bosibl i'r Awdurdod na ellir cadarnhau ei bodolaeth ond trwy un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth yr Awdurdod.

Nid yw asedau digwyddiadol yn cael eu cydnabod ar y Fantolen ond yn cael eu datgelu mewn nodyn ynglŷn â'r cyfrifon pan fydd yn debygol y bydd mewnllif o fuddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth.

xxii. Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r Cyngor yn neilltuo symiau penodol wrth gefn er dibenion polisïau yn y dyfodol neu ar gyfer treuliau annisgwyl. Caiff cronfeydd wrth gefn eu creu drwy ddosrannu symiau o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

xxiii. Gwariant Refeniw a Ariennir o Gyfalaf Trwy Statud

Codir am wariant a wnaed yn ystod y flwyddyn y gellir ei wneud yn gyfalaf o dan ddarpariaethau statudol ond nad yw'n arwain at greu asedau anghyfredol fel gwariant i gyfrif refeniw'r gwasanaeth perthnasol yn ystod y flwyddyn. Pan fo'r Cyngor wedi penderfynu cwrdd â chostau'r gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu trwy fenthycia, yna bydd trosglwyddiad i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn gwrthdroi'r symiau y codwyd amdanynt yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn fel nad oed unrhyw effaith ar lefel treth y cyngor.

xxiv. TAW

Caiff TAW taladwy ei gynnwys fel gwariant dim ond cyhyd ac nad oes modd ei adfer gan Adran Refeniw a Thollau Ei Mawrhydi. Caiff TAW derbyniadwy ei eithrio o'r incwm.

2. Safonau Cyfrifo sydd wedi'u Cyflwyno ond heb eu Mabwysiadu eto

O dan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015/16 (y Cod), mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatgelu gwybodaeth sy'n nodi effaith newid cyfrifo sy'n ofynnol gan safon cyfrifyddu newydd sydd wedi cael ei gyhoeddi ond heb ei fabwysiadu eto gan y Cod.

Mae Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Asedau Isadeiledd Trafnidiaeth (y Cod Isadeiledd) yn dod i rym o 1 Ebrill 2016. Mae'r Cod yn cadarnhau nad yw'r newidiadau sy'n deillio o'r Cod Isadeiledd angen addasiadau ôl-weithredol i'r cyfrifon. O dan y Cod Isadeiledd, bydd asedau isadeiledd trafndiaeth yn cael eu cydnabod fel dosbarth o Eiddo ar wahân i Offer a Chyfarpar wedi'i fesur ar gostau adnewyddu a ddibrisiwyd. Bydd hyn yn cynnwys sawl elfen: ffordd gerbydau, troedffyrdd a llwybrau beicio, strwythurau, goleuadau stryd, dodrefn stryd, systemau rheoli traffig a thir.

Bydd y datgeliad yn gofyn am drosglwyddo asedau rhwng isadeiledd a'r categorïau asedau rhwydwaith priffyrdd newydd. Mae hyn yn debygol o arwain at enillion ailbriso oherwydd y newid o gost hanesyddol dibrisiedig i sail cost adnewyddu a ddibrisiwyd. Felly, bydd y prisiad newydd yn adlewyrchu cost gyfredol amnewid yn hytrach na chost wreiddiol y gwaith, a fyddai wedi cael ei ddatblygu dros gyfnod o amser sylweddol. Os byddai'r newidiadau wedi eu gweithredu yn 2015/16, yn seiliedig ar amcangyfrifon presennol, byddai gwerth yr asedau isadeiledd yn cynyddu o £118m i £1.3bn.

Yn ogystal, mae yna nifer of fân newidiadau i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, ond ni ddisgwylir i'r rhain gael unrhyw effaith sylweddol ar y cyfrifon.

3. Dyfarniadau Beirniadol wrth Gymhwyso Polisiâu Cyfrifo

Wrth gymhwyso'r polisiâu cyfrifo a amlinellir yn Nodyn 1, bu'n rhaid i'r Cyngor wneud rhai dyfarniadau ynglŷn â thrafodaethau cymhleth neu'r rheiny sy'n ymwneud ag ansicrwydd ynglŷn â digwyddiadau'r dyfodol. Y dyfarniadau beirniadol a wneir yn y Datganiad Cyfrifon yw:

- **Lefelau Ariannu'r Llywodraeth i'r Dyfodol** – Mae lefel uchel o ansicrwydd o amgylch y lefelau ariannu ar gyfer awdurdodau lleol i'r dyfodol. Mae'r Cyngor wedi neilltuo symiau mewn darpariaethau, balansau a chronfeydd wrth gefn y mae'n credu sy'n briodol i reoli arian y Cyngor dros y tymor canolig. Mae'r Cyngor hefyd wedi penderfynu bod ei record cryf ym maes rheoli ariannol a chyllidebol yn golygu nad oes rheswm digonol eto i newid y rhagdybiaeth na fydd asedau'r Cyngor yn

cael eu hamharu'n sylweddol o ganlyniad i'r angen i gau cyfleusterau a/neu leihau lefelau darpariaeth gwasanaeth yn sylweddol. Mae'r farn hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd.

- **Ansicrwydd Economaidd** – Wrth asesu'r lefelau priodol o ddarpariaeth a wneir ar gyfer dyledion amheus yn y dyfodol, mae'r darlun economaidd ehangach wedi cael ei ystyried. Yn benodol, ystyriwyd effeithiau posibl gweithredu'r diwygiadau lles yn llawn.

4. Tybiaethau a Wneir am y Dyfodol a Ffynonellau Eraill o Ansicrwydd Amcangyfrif Mawr

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys rhai ffigyrau wedi'u hamcangyfrif sydd wedi eu seilio ar dybiaethau a wnaed gan y Cyngor ynglŷn â'r dyfodol neu sydd fel arall ag ansicrwydd yn perthyn iddynt. Amcangyfrifir trwy roi cyfrif o brofiad hanesyddol, tueddiadau presennol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu'r balansau â sicrwydd, gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r tybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r eitemau a oedd ym Mantolen Y Cyngor ar 31 Mawrth 2016 y mae rhyw gymaint o risg y byddant yn addasu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf fel a ganlyn:

Eiddo, Peiriannau ac Offer

Dibrisir asedau yn ystod eu hoes ddefnyddiol sy'n ddibynnol ar dybiaethau ynglŷn â lefelau atgyweirio a chynnal a chadw a wneir yn y dyfodol mewn perthynas ag asedau unigol. Mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn ei gwneud yn ansicr y bydd modd i'r Cyngor gynnal ei wariant presennol ar atgyweirio a chynnal a chadw, gan beri amheuaeth ynglŷn â hyd yr oes ddefnyddiol sydd wedi ei bennu i rai o'r asedau. Os cwtogir oes ddefnyddiol ased, mae'r dibrisiad yn cynyddu ac mae swm cario'r ased yn gostwng. Caiff eiddo, peiriannau ac offer eu hailbriso yn ysbeidiol a'u profi'n flynyddol am ddangosyddion o amhariad. Mae angen dyfarniadau i wneud asesiad p'un ai bod dangosydd o amhariad neu beidio. Mae'r profiad amhariad yn cynnwys archwilio'r gwariant cyfalaf a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol i ganfod p'un ai i hynny arwain at gynnydd yng ngwerth ased neu at amharu â'r gwerth hwnnw. Cafodd cyngor ei roi i briswyr y cyngor. Os yw'r canlyniadau gwirioneddol yn wahanol i'r tybiaethau, bydd gwerth asedau Eiddo Peiriannau ac Offer wedi cael eu datgan yn rhy uchel neu'n rhy isel. Byddai hyn yn cael ei amrywio y tro nesaf y byddai'r asedau'n cael eu priso.

Gwerth yr Eiddo, y Peiriannau a'r Offer a ddatgelir ar y Fantolen yw £460,439k a cheir rhagor o wybodaeth o fewn Nodyn 13.

Dyled Pensiwn

Mae'r amcangyfrif o'r ddyled net er mwyn talu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau yn ymwneud â chyfradd y disgownt a ddefnyddir, y gyfradd yr amcanestynir y bydd cyflogau'n cynyddu, newid mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwoldeb a'r adenillion disgwylidig ar asedau'r gronfa pensiynau. Defnyddir cwmni o actiariaid ymgynghorol i ddarparu cyngor arbenigol i'r Cyngor ynglŷn â'r tybiaethau y dylid eu cymhwyso.

Gwerth y ddyled pensiwn a'r gronfa pensiynau wrth gefn gyfatebol sydd wedi ei datgelu ar y Fantolen yw £207,388k. Mae gwybodaeth fanwl wedi ei chynnwys o fewn Nodiadau 23, 38 a 39.

Croniad Buddiannau Gweithwyr

Cyfrifwyd cronïad buddiannau gweithwyr (gwyliâu blynyddol ac amser hyblyg) ar sail sampl o weithwyr. Balans y Cyfrif Absenoldeb Cronnol fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2016 oedd £2,384k a manylir ynglŷn â hynny yn Nodyn 23.

Ôl-ddyledion

Cynhaliwyd adolygiad o ddyled sydd heb ei thalu a gwnaed lwfans ar gyfer dyledion ag amheuaeth yn eu cylch. Rhaid i unrhyw lwfans a wneir ar gyfer dyledion i'r dyfodol y mae amheuaeth yn eu cylch fod wedi eu seilio ar amcangyfrif. Mae'r lwfans a wnaed yn un doeth ond gan nad yw'r holl newidiadau i'r gyfundrefn les wedi'u gweithredu hyd yn hyn efallai y bydd angen adolygu'r lwfans y flwyddyn nesaf.

Mae'r cyngor yn gwneud darpariaeth gyffredinol ar gyfer drwgddyledion a darpariaethau penodol mewn perthynas â Threth y Cyngor (Nodyn 11), Trethi Annomestig Cenedlaethol (Nodyn 12) a Rhenti Tai (Nodyn 2 y Cyfrif Refeniw Tai)

5. Eitemau o Incwm a Gwariant Materol

Datgelir yr eitemau canlynol ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

Cyfrif Refeniw Tai – Diwygio Cymhorthdal Tai

Ar 2 Ebrill 2015, daeth y system Cymhorthdal tai i ben yng Nghymru. O dan y system cymhorthdal, roedd y Llywodraeth yn penderfynu faint o rent a ddylid ei gadw'n lleol gan y cynghorau gyda'r gweddill yn cael ei dalu fel cymhorthdal i Drysorlys EM. Daeth Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EM i gytundeb a oedd yn caniatáu i'r un ar ddeg awdurdod yng Nghymru gyda stoc tai cyngor i adael y system cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai a bod yn hunangyllidol o Ebrill 2015.

Mae'r cytundeb mewn dwy ran; yn gyntaf roedd yn ofynnol i awdurdodau brynu eu hunain allan o'r system cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai presennol gan dalu tâl un setliad i Drysorlys EM, ac un ail mae awdurdodau wedi cytuno i roi cap ar fenthycy CRT.

Roedd yr un ar ddeg awdurdodau tai wedi cofrestru ar gyfer y cytundeb ac o ganlyniad daeth y system cymhorthdal i ben yn Ebrill 2015. Roedd ffigwr setliad y cyngor yn £40,045k sy'n unol â gofynion Trysorlys EM, a fenthycwyd gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ar 2 Ebrill 2015.

Trefniadau Prosiect Menter Cyllid Preifat

Daeth Y Cytundeb Prosiect Menter Cyllid Preifat sy'n cynnwys Neuadd y Sir, Neuadd Y Dref a Storfa Gorfforaethol i ben ddydd Gwener, 4 Medi 2015. Roedd y cytundeb i fod i ddod i ben yn 2029. O dan delerau'r Cytundeb, roedd terfynu wedi arwain at dalu iawndal i'r gwrth barti PFI a chyflwynwyd cyfrif terfynu i'r cyngor ar 7 Medi. Cytunwyd ar elfennau terfynol y swm iawndal ar 14 Hydref 2015 a arweiniodd at gyfanswm iawndal o £16,955k. Roedd y taliad hwn yn cwmpasu dilead y brydles PFI gwerth £9,522k (cyfeiriwch at nodyn 15) a thâl iawndal ar gyfer refeniw o £7,433k. Mae'r £7,433k wedi'i ddangos fel llinell ar wahân ar y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Cyfeiriwch at Nodyn 37 Mentrau Cyllid Preifat a Chytundebau Tebyg am fanylion pellach.

6. Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen

Awdurdodwyd cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon gan y Prif Swyddog Cyllid ym mis Mehefin 2016. Nid yw digwyddiadau sydd wedi digwydd ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol nac yn y nodiadau. Pan fo digwyddiadau a ddigwyddodd cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth ynglŷn ag amodau a oedd mewn

bodolaeth ar 31 Mawrth 2016, yna bydd y ffigyrau yn y datganiadau ariannol a'r rhai o fewn y nodiadau wedi cael ei hamrywio ym mhob ffordd yn faterol i adlewyrchu traweffaith yr wybodaeth hon.

7. Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Ariannu dan y Rheoliadau

Mae'r nodyn hwn yn manylu ynglŷn â'r addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a'r gwariant cynhwysfawr y mae'n Cyngor yn eu cydnabod yn ystod y flwyddyn yn unol â'r arferion cyfrifeg priodol ynglŷn â'r adnoddau hynny sydd wedi eu pennu gan ddarpariaethau statudol fel rhai sydd ar gael i'r Awdurdod eu defnyddio i gwrdd â gwariant cyfalaf a refeniw.

Mae'r canlynol yn amlinellu disgrifiad o'r cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu haddasu.

Balans Cronfa'r Cyngor

Cronfa'r Cyngor yw'r gronfa statudol y mae'n rhaid talu holl dderbyniadau'r awdurdod iddi ac y mae'n rhaid cwrdd â holl ddyledion yr awdurdod ohoni, ar wahân i'r graddau y bod rheolau statudol yn dweud yn wahanol. Gall y rheolau hyn hefyd nodi ym mha flwyddyn ariannol y dylai dyledion a thaliadau effeithio ar Falans Cronfa'r Cyngor, nad yw o anghenraid yn unol â'r arfer gyfrifeg briodol. Mae Balans Cronfa'r Cyngor felly'n crynhoi'r adnoddau y mae gan y Cyngor y grym statudol i'w gwario ar ei wasanaethau neu ar fuddsoddiadau cyfalaf yn niwedd y flwyddyn ariannol. I awdurdodau tai, fodd bynnag, nid yw'r balans ar gael i'w gymhwyso i ariannu gwasanaethau'r Cyfrif Refeniw Tai.

Balans y Cyfrif Refeniw Tai

Mae Balans y Cyfrif Refeniw Tai yn adlewyrchu'r rhwymedigaeth statudol i gynnal cyfrif refeniw ar gyfer darpariaeth tai cyngor awdurdod lleol yn unol â Rhan VI Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Mae'n cynnwys balans yr incwm a'r gwariant fel sydd wedi ei ddiffinio gan Ddeddf 1989 sydd ar gael i ariannu gwariant mewn perthynas â swyddogaeth y Cyngor fel landlord.

Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf

Mae'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn yn dal enillion gwaredu tir ac asedau eraill, sydd wedi eu cyfyngu gan statud rhag cael ei defnyddio i wneud dim ar wahân i ariannu gwariant cyfalaf newydd neu i gael eu rhoi i'r naill ochr i ariannu gwariant cyfalaf hanesyddol. Mae balans y gronfa wrth gefn yn dangos yr adnoddau sydd eto i'w cymhwyso at y pwrpasau hyn ar ddiwedd y flwyddyn.

Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso

Mae Cronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso yn dal y grantiau a'r cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at brosiectau cyfalaf y mae'r Cyngor wedi cwrdd â'r amodau ar eu cyfer a fyddai fel arall yn ei gwneud yn ofynnol i ad-dalu'r arian sydd eto i'w gymhwyso i gwrdd â gwariant. Caiff y balans ei gyfyngu gan delerau grant o ran y gwariant cyfalaf y gellir ei gymhwyso yn ei erbyn ac/neu gan y flwyddyn ariannol y dylai hyn ddigwydd.

2015/16	Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir Eu Defnyddio			
	Balans Cronfa'r Cyngor £000	Cyfrif Refeniw Tai £000	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £000	Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwysu £000
Addasiadau i'r Adnoddau Refeniw Symiau incwm a gwariant sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr sy'n wahanol i refeniw ar gyfer y flwyddyn a gyfrifwyd yn unol â gofynion statudol:				
• Costau Pensiwn	(5,867)	(238)		0
• Offerynnau Ariannol	(13)	4		0
• Tâl gwyliau	444	6		0
• Gwrthdroad cofnodion a gynhwysir yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau mewn perthynas â gwariant cyfalaf	(21,772)	(52,548)		(290)
Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Refeniw	(27,208)	(52,776)	0	(290)
Addasiadau rhwng Refeniw ac Adnoddau Cyfalaf Trosglwyddiad derbyniadau gwerthiant asedau nad ydynt yn gyfredol o refeniw i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn	498	585	(1,083)	
Costau gweinyddol gwaredu asedau nad ydynt yn gyfredol	0	0	0	
Taliadau i'r gronfa derbyniadau tai y llywodraeth	0	0	0	
Darpariaeth statudol ar gyfer ad-dalu dyledion	6,909	2,474	0	
Gwariant cyfalaf a gyllidir o falansau refeniw	13,651	1,405	0	
Cyfanswm Addasiadau rhwng Refeniw ac Adnoddau Cyfalaf	21,058	4,464	(1,083)	0
Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf Defnydd o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn i ariannu gwariant cyfalaf			1,870	0
Cymhwysiad grantiau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf			0	349
Taliadau arian parod mewn perthynas â derbyniadau cyfalaf gohiriedig			0	0
Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf	0	0	1,870	349
Cyfanswm Addasiadau	(6,150)	(48,312)	787	59

2014/15	Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir Eu Defnyddio			
	Balans Cronfa'r Cyngor £000	Cyfrif Refeniw Tai £000	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £000	Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £000
Addasiadau i'r Adnoddau Refeniw Symiau incwm a gwariant sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr sy'n wahanol i refeniw ar gyfer y flwyddyn a gyfrifwyd yn unol â gofynion statudol:				
• Costau Pensiwn	(3,564)	(164)		0
• Offerynnau Ariannol	(16)	8		0
• Tâl gwyliau	(381)	(12)		0
• Gwrthdroad cofnodion a gynhwysir yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau mewn perthynas â gwariant cyfalaf	(18,792)	(7,602)		(643)
Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Refeniw	(22,753)	(7,770)	0	(643)
Addasiadau rhwng Refeniw ac Adnoddau Cyfalaf Trosglwyddiad derbyniadau gwerthiant asedau nad ydynt yn gyfredol o refeniw i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn	1,782	254	(2,036)	
Costau gweinyddol gwaredu asedau nad ydynt yn gyfredol	0	0	0	
Taliadau i'r gronfa derbyniadau tai y llywodraeth	0	0	0	
Darpariaeth statudol ar gyfer ad-dalu dyledion	6,391	1,620	0	
Gwariant cyfalaf a gyllidir o falansau refeniw	2,284	813	0	
Cyfanswm Addasiadau rhwng Refeniw ac Adnoddau Cyfalaf	10,457	2,687	(2,036)	0
Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf Defnydd o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn i ariannu gwariant cyfalaf			1,478	0
Cymhwysiad grantiau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf			0	1,992
Taliadau arian parod mewn perthynas â derbyniadau cyfalaf gohiriedig			(1)	0
Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf	0	0	1,477	1,992
Cyfanswm Addasiadau	(12,296)	(5,083)	(559)	1,349

8. Gwariant Gweithredu Arall

2014/15 £000		2015/16 £000
8,729	Praesept yr Heddlu	9,121
4,342	Praesept Awdurdod Tân	4,361
1,550	Praeseptau Cyngor Cymuned	1,733
(1,430)	(Enillion)/colledion ar Asedau ar Werth a chael gwared ar asedau nad ydynt yn gyfredol	668
299	Costau Gweinyddu Pensiwn	285
13,490	Cyfanswm	16,168

9. Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi

2014/15 £000		2015/16 £000
9,250	Llog yn daladwy a thaliadau tebyg	9,977
7,173	Llog net ar y rhwymedigaeth net ddiffiniedig (ased)	7,001
(257)	Llog sy'n dderbyniadwy ac incwm tebyg	(135)
2,265	Incwm a gwariant mewn perthynas ag eiddo buddsoddi a newidiadau yn eu pris teg	4,279
(128)	Incwm buddsoddi arall	0
18,303	Cyfanswm	21,122

10. Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol

2014/15 £000		2015/16 £000
(53,810)	Incwm Treth y Cyngor	(55,733)
(29,631)	Cyfraddau annomestig	(27,245)
(115,539)	Grantiau llywodraeth heb eu neilltuo	(112,894)
(14,792)	Grantiau Cyfalaf a chyfraniadau	(13,573)
(213,772)	Cyfanswm	(209,445)

11. Treth y Cyngor

Mae incwm Treth y Cyngor yn deillio o newidiadau a godwyd yn unol â gwerth eiddo preswyl, sydd wedi'u dosbarthu yn naw band prisio, gan amcangyfrif gwerthoedd 1 Ebrill 2003 ar gyfer y diben penodol hwn. Cyfrifir taliadau drwy ystyried yr incwm sydd ei angen ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych, pob Cyngor Cymuned a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, a rhannu'r swm hwn gyda Sylfaen Treth y Cyngor. Sylfaen Treth y Cyngor yw cyfanswm yr eiddo ym mhob band sydd wedi'u haddasu i drosi'r rhif yn gyfwerth â Band D, a'i addasu ar gyfer disgowntiau. Y sylfaen dreth yw 38,738 yn 2015/16 (38,349 yn 2014/15).

Y swm sylfaenol (yn cynnwys praesept Cyngor Cymuned a phraesept Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd) ar gyfer eiddo Band D oedd £1,422.40 (£1,379.73 yn 2014/15) ac fe'i lluosogir gan y gyfran a fanylir ar gyfer y band penodol i roi'r swm unigol sy'n ddyledus.

Roedd biliau treth y cyngor yn seiliedig ar luosyddion bandiau A i I:

Band	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Lluosydd	6/9	7/9	8/9	9/9	11/9	13/9	15/9	18/9	21/9
Nifer yr eiddo ar 31 Mawrth 2016	3,959	7,158	14,272	7,688	5,349	3,594	1,968	306	168

Dadansoddiad o'r enillion net o Dreth y Cyngor:

2014/15 £000		2015/16 £000
53,810	Treth y Cyngor sy'n gasgladwy	55,733
(8,729)	Swm sy'n daladwy i Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru	(9,121)
(172)	Darpariaeth am beidio â thalu Treth y Cyngor	195
44,909	Enillion net o Dreth y Cyngor	46,807
	Hollt Cyngor Sir Ddinbych:	
43,248	Cyngor Sir Ddinbych	45,046
1,550	Cynghorau Cymuned	1,733
111	Gostyngiad Cyfradd Annomestig Dewisol	28
44,909		46,807

12. Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)

Trefnir yr NNDR ar sail genedlaethol. Nododd Llywodraeth Cymru'r gyfradd o 48.2c yn 2015/16 (47.3c yn 2014/15) ac yn ddibynnol ar effeithiau trefniadau trawsnewidiol, mae busnesau lleol yn talu cyfraddau a gyfrifir drwy luosi eu gwerth ardrethol gyda'r swm hwnnw. Y Cyngor sy'n gyfrifol am gasglu cyfraddau sy'n ddyledus gan drethdalwyr yn ei ardal, ond yn talu'r enillion i'r gronfa NNDR a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n aildosbarthu'r symiau sy'n daladwy i awdurdodau lleol ar sail y swm penodol fesul pen o'r boblogaeth.

Roedd incwm yr NNDR (ar ôl gostyngiad a darpariaethau) o £23,129k ar gyfer 2015/16 (£20,498k ar gyfer 2014/15) yn seiliedig ar gyfanswm cyfradd ardrethol o £58,646k am y flwyddyn.

Dadansoddiad o'r enillion net o gyfraddau annomestig:

2014/15 £000		2015/16 £000
20,498	Trethi annomestig casgladwy	23,129
(211)	Cost Iwfans Casglu	(213)
(196)	Darpariaeth ar gyfer Dyledion Drwg	(268)
20,091	Talu i'r Gronfa Genedlaethol	22,648
29,631	Aildosbarthu o'r Gronfa Genedlaethol	27,245

13. Eiddo, Peiriannau ac Offer

	Anheddau Cyngor £000	Tir ac Adeiladau Eraill £000	Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Offer £000	Asedau Isadeiledd £000	Asedau Cymunedol £000	Asedau dros ben £000	Asedau sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd £000	Cyfanswm eiddo, peiriannau ac offer £000
2015/16								
Cost neu Brisiad								
Ar 1 Ebrill 2015	134,107	242,405	18,386	152,113	2,716	2,172	13,698	565,597
Ychwanegiadau	3,941	24,384	2,914	9,086	6	0	4,156	44,487
Cynnydd/(gostyngiadau) adbriso a gydnabyddir yn y Gronfa Adbriso Wrth Gefn	(2,487)	14,502	0	0	0	(603)	0	11,412
Cynnydd/(gostyngiadau) adbriso a gydnabyddir yn yr Arian Dros Ben/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	(7,662)	(12,633)	0	0	(158)	(893)	0	(21,346)
Dadgydnabod - gwaredu	(585)	(104)	(134)	0	0	0	0	(823)
Dadgydnabod - arall	(3,465)	(2,853)	(2,142)	(98)	0	0	0	(8,558)
Trosglwyddiadau	0	8,082	0	0	0	(491)	(11,116)	(3,525)
Asedau a ail-ddosbarthwyd (i)/o Asedau ar Werth	0	250	0	0	0	1,265	0	1,515
Symudiadau eraill mewn cost neu brisio	(10,874)	(22,756)	(537)	(9,208)	0	(14)	(1,645)	(45,034)
Ar 31 Mawrth 2016	112,975	251,277	18,487	151,893	2,564	1,436	5,093	543,725

Tudalen 90

	Anheddau Cyngor £000	Tir ac Adeiladau Eraill £000	Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Offer £000	Asedau Isadeiledd £000	Asedau Cymunedol £000	Asedau dros ben £000	Asedau sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd £000	Cyfanswm eiddo, peiriannau ac offer £000
2015/16								
Dibrisiad ac amhariad cronedig								
Ar 1 Ebrill 2015	(26,920)	(44,479)	(12,290)	(38,327)	(69)	(105)	(3,305)	(125,495)
Tâl dibrisiad	(2,607)	(6,542)	(2,106)	(3,570)	0	(7)	0	(14,832)
Dibrisiad yn cael ei ysgrifennu allan i'r Gronfa Adbriso Wrth Gefn	6,438	8,022	0	0	0	87	0	14,547
Dibrisiad wedi'i ysgrifennu allan i'r Arian Dros Ben/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	0	250	0	0	0	0	0	250
Colledion/(gwrthdroadau) amhariad a gydnabyddir yn y Gronfa Adbriso Wrth Gefn	0	(4,923)	0	0	0	0	0	(4,923)
Colledion/(gwrthdroadau) amhariad a gydnabyddir yn yr Arian Dros Ben/Diffyg ar Ddarpariaethau Gwasanaethau	(3,942)	(2,703)	(23)	(1,520)	(6)	0	0	(8,194)
Dadgydnabod - gwaredu	0	0	107	0	0	0	0	107
Dadgydnabod - arall	3,465	2,853	2,141	98	0	0	0	8,557
Trosglwyddiadau	0	(4)	0	0	0	7	0	3
Symudiadau eraill mewn dibrisiad ac amhariad	10,874	22,756	537	9,208	0	14	3,305	46,694
Ar 31 Mawrth 2016	(12,692)	(24,770)	(11,634)	(34,111)	(75)	(4)	0	(83,286)
Gwerth Llyfr Net								
Ar 31 Mawrth 2016	100,283	226,507	6,853	117,782	2,489	1,432	5,093	460,439
Ar 31 Mawrth 2015	107,187	197,926	6,096	113,786	2,647	2,067	10,393	440,102

2014/15	Anheddau Cyngor £000	Tir ac Adeiladau Eraill £000	Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Offer £000	Asedau Isadeiledd £000	Asedau Cymunedol £000	Asedau dros ben £000	Asedau sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd £000	Cyfanswm eiddo, peiriannau ac offer £000	Asedau PFI wedi'u cynnwys yn Eiddo, Peiriannau ac Offer* £000
Cost neu Brisiad									
Ar 1 Ebrill 2014	144,611	239,345	22,312	140,372	4,231	1,860	7,964	560,695	4,321
Ychwanegiadau	3,543	8,073	1,388	11,737	55	0	6,274	31,070	0
Cynnydd/(gostyngiadau) adbrisió a gydnabyddir yn y Grŵpfa Adbrisió Wrth Gefn	(9,299)	13,549	0	0	0	1,564	0	6,037	371
Cynnydd/(gostyngiadau) adbrisió a gydnabyddir yn yr Ardal Dros Ben/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	(4,468)	(12,243)	0	0	0	(100)	(430)	(17,464)	(110)
Dadgydnabod - gwaredu	(254)	(736)	(49)	0	0	0	0	(1,039)	0
Dadgydnabod - arall	0	0	(6,103)	0	0	0	0	(6,103)	0
Asedau a ail-ddosbarthwyd (i)/o Asedau ar Werth	0	(2,201)	0	0	0	(1,488)	0	(3,689)	0
Symudiadau eraill mewn cost neu brisió	(26)	(3,382)	838	4	(1,570)	336	(110)	(3,910)	(22)
Ar 31 Mawrth 2015	134,107	242,405	18,386	152,113	2,716	2,172	13,698	565,597	4,560

*Terfynwyd y contract PFI ym mis Medi 2015, ac felly nid yw'r golofn hon yn berthnasol bellach ar gyfer y nodyn Eiddo, Peiriannau ac Offer 2015/16. Cyfeiriwch at Nodyn 37 am fanylion o'r terfyniad os gwelwch chi'n dda.

2014/15	Anheddau Cyngor £000	Tir ac Adeiladau Eraill £000	Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Offer £000	Asedau Isadeilledd £000	Asedau Cymunedol £000	Asedau dros ben £000	Asedau sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd £000	Cyfanswm eiddo, peiriannau ac offer £000	Asedau PFI wedi'u cynnwys yn Eiddo, Peiriannau ac Offer £000
Dibrisiad ac amhariad cronedig									
Ar 1 Ebrill 2014	(24,561)	(50,135)	(15,375)	(33,950)	(111)	(61)	(2,135)	(126,328)	(313)
Tâl dibrisiad	(3,071)	(5,791)	(2,854)	(3,279)	0	(24)	0	(15,019)	(69)
Dibrisiad yn cael ei ysgrifennu allan i'r Gronfa Adbriso Wrth Gefn	5,005	16,166	0	0	0	0	0	21,171	292
Dibrisiad wedi'i ysgrifennu allan i'r Arian Dros Ben/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	0	0	0	0	0	22	0	22	0
Colledion/(gwrthdroadau) amhariad a gydnabyddir yn y Gronfa Adbriso Wrth Gefn	(2,230)	(1,121)	0	0	0	0	0	(3,351)	0
Colledion/(gwrthdroadau) amhariad a gydnabyddir yn yr Arian Dros Ben/Diffyg ar Ddarpariaethau Gwasanaethau	(2,089)	(6,950)	(106)	(1,094)	(55)	0	(1,170)	(11,464)	0
Dadgydnabod - gwaredu	0	7	29	0	0	0	0	36	0
Dadgydnabod - arall	0	0	6,103	0	0	0	0	6,103	0
Dadgydnabod – Asedau ar Werth	0	122	0	0	0	0	0	122	0
Symudiadau eraill mewn dibrisiad ac amhariad	26	3,223	(87)	(4)	97	(42)	0	3,213	22
Ar 31 Mawrth 2015	(26,920)	(44,479)	(12,290)	(38,327)	(69)	(105)	(3,305)	(125,495)	(68)
Gwerth Llyfr Net									
Ar 31 Mawrth 2015	107,187	197,926	6,096	113,786	2,647	2,067	10,393	440,102	4,492
Ar 31 Mawrth 2014	120,050	189,210	6,937	106,422	4,120	1,799	5,829	434,367	4,008

Dibrisiad

Mae'r Eiddo, Peiriannau ac Offer i gyd wedi cael eu dibrisio drwy ddefnyddio'r dull llinell syth dros y cyfnodau canlynol:

- Anheddau Cyngor – 15-75 mlynedd
- Tir ac Adeiladau Eraill (gan gynnwys asedau treftadaeth) - 1-194 o flynyddoedd
- Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Offer – 3-10 mlynedd
- Isadeiledd – 40 mlynedd
- Asedau Dros Ben – 5-40 mlynedd

Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr ac a Reolir

Mae tir ac adeiladau eraill yn cynnwys tir ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac a reolir.

Adolygiad Cofrestr Asedau

Bob blwyddyn mae gwerthoedd llyfr net yn y cofrestrau asedau yn cael eu hadolygu ac mae unrhyw asedau sy'n cael eu cynnal ar werth llyfr net o £0, yn cael eu dadgydnabod, lle bo hynny'n bosibl. O ganlyniad i'r dadgydnabod hwn, mae'r gwerth llyfr gros wedi'i ostwng gyda gostyngiad cyfatebol mewn dibrisiant cronedig ac amhariad. Yn 2015/16, ysgrifennwyd allan amhariadau'r flwyddyn flaenorol, sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf sydd ddim yn gwella'r ased, oedd wedi eu cynnwys yn y gwerth llyfr net o £0.

O 1 Ebrill 2015 mae lefel prisio de mimimis o £30k wedi ei osod. Yn 2015/16 mae hyn wedi arwain at nifer o adeiladau yn cael eu dadgydnabod yn Tir ac Adeiladau Eraill, Asedau Dros Ben a Cherbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Offer.

Ymrwymadau Cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2016, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i nifer o gontractau ar gyfer adeiladu neu wella Eiddo, Peiriannau neu Offer yn 2016/17 a'r dyfodol. Mae'r gost a gyllidebwyd ar gyfer y prif ymrwymadau yn £16,655k fel isod. Roedd ymrwymadau tebyg 31 Mawrth 2015 yn £26,753k.

Prosiect	Amcangyfrif Contract £000	Taliadau i 31 Mawrth 2016 £000	Cyfanswm Taliadau Contractau yn y Dyfodol £000
Ysgol Cymunedol Bodnant – Estyniad a Gwaith Ailwampio	2,885	2,189	680
Y Rhyl, Ysgol Newydd (Gwerth y Contract yn unig)	21,619	18,904	2,715
Ysgol Glan Clwyd – Estyniad, Ailfodelu ac Ailwampio	14,510	2,008	12,520
Stryd y Rhos ac Ysgol Penbarras – Ysgolion Newydd (Dyluniad)	358	0	358
Tai – Atgyweiriadau Allanol	460	78	382
Cyfanswm	39,832	23,179	16,655

Adbriso

Fel rhan o'r rhaglen i adbriso'r holl asedau o fewn pum mlynedd i'w prisiad blaenorol, mae cyfran o'r eiddo rhydd-ddaliadol ac ar brydles, sy'n cynnwys portffolio eiddo'r Awdurdod, wedi'u prisiu gan Mrs C Jones Black BSc (Anrh.) MRICS, ar y seiliau a nodir isod, yn unol â Datganiadau Prisiadau asedau a Nodiadau Canllaw Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr

Siartredig, ond nad oedd yr holl eiddo wedi'u harchwilio. Nid oedd hyn yn ymarferol nac wedi'i ystyried gan y prisiwr o fod yn hanfodol ar gyfer diben prisio. Cynhaliwyd archwiliadau rhwng Tachwedd 2015 a Mehefin 2016.

Cafodd eiddo a ystyriwyd gan yr Awdurdod yn weithredol eu prisio ar sail gwerth marchnad agored ar gyfer defnydd presennol, neu le nad oedd modd asesu oherwydd nad oedd marchnad ar gyfer yr ased, y gost ddisodli wedi'i dibrisio. Prisiwyd Asedau Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Offer, Isadeiledd ac asedau cymunedol, ar gost hanesyddol. Caiff anheddau Cyngor eu prisio ar y gwerth gyfredol mewn defnydd fel tai cymdeithasol.

Mae'r Datganiad canlynol yn dangos y cynnydd yn rhaglen dreigl y Cyngor ar gyfer adbriso asedau sefydlog.

	Anheddau Cyngor	Tir ac Adeiladau Eraill	Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Offer	Asedau dros ben	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000
Cariwyd ar gost hanesyddol Prisiwyd ar werth cyfredol ar:			6,853		6,853
31 Mawrth 2016	32,959	42,080		1,432	76,471
31 Mawrth 2015	21,054	114,360			135,414
31 Mawrth 2014	17,546	34,336			51,882
31 Mawrth 2013	16,464	35,731			52,195
31 Mawrth 2012	12,260	0			12,260
Cyfanswm y Gost neu Brisiad	100,283	226,507	6,853	1,432	335,075

Fel rhan o'r rhaglen barhaus yn 2015/16 adolygwyd yr asedau canlynol:

- Tai Cyngor – Y Rhyl
- Cyfleusterau Hamdden
- Gwasanaethau Cefn Gwlad
- Eiddo Dros Ben

Cafodd adolygiad blynyddol ei wneud hefyd o Eiddo Buddsoddi, Asedau sy'n cael eu Hadeiladu, Eiddo a Ddelir i'w Gwerthu ac Asedau Cymunedol.

Adolygwyd yr asedau a gafwyd oddi wrth terfynu'r contract PFI: Neuadd Y Sir, Neuadd Y Dref a'r Storfa Gorfforaethol hefyd yn ystod y flwyddyn, ond dim ond newid bach oedd yn y prisiadau gan fod yr eiddo eisoes yn dangos ar Fantolen yr Awdurdod.

Colledion Amhariad

Cyffredinol

Yn ystod yr ymarfer ailbriso ni ddaeth y Prisiwr o hyd i dueddiadau sylfaenol eraill a fyddai'n effeithio ar asedau sy'n weddill heb eu hailbriso yn ystod 2015/16. Fodd bynnag, cydnabyddir bod yna brosiectau mawr ar y gweill sydd â photensial i effeithio ar brisiadau yn y dyfodol, ond mae'r prosiectau hyn yn eu camau cynnar.

Adeilad Newydd

Ysgol Uwchradd Y Rhyl

Cwblhawyd gwaith o adeiladu Ysgol Uwchradd newydd Y Rhyl ym mis Mawrth 2016 am gost o £24.6m (Gwerth Contract £21.6m). Roedd y gwaith yn cynnwys:

- Gwaith allanol i'r Ganolfan Hamdden gyfagos
- Dymchwel Cyrtau Sboncen
- Dymchwel yr hen ysgol
- Adeiladu cyfleuster addysg Tir Morfa Lefel Ysgol Uwchradd

Mae wedi ei adeiladu i ddarparu ar gyfer 1200 o ddisgyblion er bod y rhif rôl tua 300 o ddisgyblion yn is na hyn. Mae'r ysgol newydd wedi ei brisio am £14,000k yn seiliedig ar niferoedd y disgyblion ar y gofrestr fel yn y ganllawiau BB98. Mae'r prisiad diwygiedig wedi arwain at golled o £5,349k. Yn ogystal, mae hen Ysgol Uwchradd Y Rhyl wedi cael ei hailbrisio am ddim, felly mae'r golled hon o £250k a'r golled ar yr ysgol newydd wedi ei godi yn erbyn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

14. Eiddo Buddsoddi

Mae'r eitemau canlynol o incwm a gwariant wedi'u cyfrifo yn y llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

	2015/16 £000	2014/15 £000
Incwm rhent o Eiddo Buddsoddi	(418)	(402)
Treuliau gweithredu uniongyrchol yn codi o Eiddo Buddsoddi	300	117
(Enillion)/colled net	(118)	(285)

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar allu'r Cyngor i wireddu'r gwerth yn ei eiddo buddsoddi neu ar hawl y Cyngor i daliad yr incwm ac enillion y gwaredu. Nid oes gan y Cyngor unrhyw rwymedigaeth gytundebol i brynu, adeiladu neu ddatblygu eiddo buddsoddi, neu atgyweiriadau, cynnal a chadw neu wella. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r symudiad yng ngwerth teg yr eiddo buddsoddi dros y flwyddyn:

	2015/16 £000	2014/15 £000
Balans ar ddechrau'r flwyddyn	8,375	10,042
Ychwanegiadau:		
• Gwariant dilynol	99	185
Gwaredu	0	0
Enillion/(colledion) net o addasiadau gwerth teg	(4,397)	(2,549)
Trosglwyddiadau:		
• (i)/o Restrau Eiddo	0	0
• (i)/o Eiddo, Peiriannau ac Offer	3,522	697
Balans ar ddiwedd y flwyddyn	7,599	8,375

O 1 Ebrill 2015 mae lefel prisio de mimimis o £30k wedi ei osod. Yn 2015/16 mae hyn wedi arwain at nifer o adeiladau yn cael eu dadgydnabod.

15. Offerynnau Ariannol

Categoriâu o Offerynnau Ariannol

Caiff y categorïau o offerynnau ariannol eu cario yn y Fantolen:

Tymor Hir 31-Maw-15 £000	Cyfredol 31-Maw- 15 £000		Tymor Hir 31-Maw-16 £000	Cyfredol 31-Maw- 16 £000
5	23,386	Buddsoddiadau Benthyciadau a symiau Derbyniadwy	1	5,013
5	23,386	Cyfanswm y buddsoddiadau	1	5,013
915	16,369	Dyledwyr Benthyciadau a symiau Derbyniadwy	770	9,889
915	16,369	Cyfanswm y Dyledwyr	770	9,889
(140,202)	(5,135)	Benthyciadau Dyledion ariannol ar gost wedi'i hamorteiddio	(183,991)	(6,968)
(140,202)	(5,135)	Cyfanswm y Benthyciadau	(183,991)	(6,968)
(9,305)	(379)	Dyledion Hirdymor Eraill PFI a dyledion prydles ariannol	0	0
(9,305)	(379)	Cyfanswm Dyledion Hirdymor Eraill	0	0
(9,528)	(22,020)	Credydwyr Dyledion ariannol ar gost wedi'i hamorteiddio	(1,429)	(18,359)
(9,528)	(22,020)	Cyfanswm y Credydwyr	(1,429)	(18,359)

Nid yw'r ffigyrau ar gyfer dyledwyr a chredydwyr yn y tabl uchod yn cynnwys unrhyw symiau nad ydynt yn cael eu dosbarthu fel offerynnau ariannol megis taliadau ymlaen llaw, derbyn ebau ymlaen llaw ac unrhyw eitemau statudol. Mae ffigyrau y flwyddyn flaeonol ar gyfer dyledwyr a chredydwyr wedi cael eu newid er mwyn peidio cynnwys eitemau statudol.

Mae'r benthyciad sy'n weddill yn y tabl uchod yn cynnwys benthyciad a dderbyniwyd o Gynllun Effeithlonrwydd Ynni Salix, sy'n rhaglen a ddarperir gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Salix Finance a'r Ymddiriedolaeth Garbon i ddarparu benthyciadau di-log. Derbyniodd y Cyngor fenthyciad o £181k yn ystod 2011/12, £15k yn ystod 2013/14 a £226k yn ystod 2015/16 a'r balans ar y benthyciad hwn ar 31 Mawrth 2016 yw £281k.

Mae'r Cyngor hefyd yn aelod o Cyclescheme, sy'n fenter eithrio rhag talu treth Llywodraeth y DU, a gyflwynwyd i annog gweithwyr i feicio i'r gwaith, ac felly'n lleihau llygredd amgylcheddol. Mae'r Cyngor yn rhoi benthyciadau i weithwyr ar gyfer y diben hwn, a'r balans sy'n weddill ar 31 Mawrth 2016 yw £10k.

Nid yw'r Cyngor yn cyfrif y benthyciadau hyn yn fenthyciadau meddal oherwydd nid yw'r addasiad gwerth teg yn faterol.

Gwariant, Enillion a Cholledion Incwm

Mae enillion a cholledion a gydnabyddir yn y Cyfrif Incwm a Gwariant mewn perthynas ag offerynnau ariannol yn cynnwys yr eitemau canlynol:

Dyledion Ariannol 2014/15 £000	Asedau Ariannol 2014/15 £000		Dyledion Ariannol 2015/16 £000	Asedau Ariannol 2015/16 £000	Cyfanswm 2015/16 £000
9,250		Traul Llog Colledion dadgydnabod	9,977		9,977
9,250		Cyfanswm traul mewn Arian Dros Ben neu ddiffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau	9,977		9,977
	(257)	Incwm llog Enillion dadgydnabod		(135)	(135)
	(257)	Cyfanswm incwm Arian Dros Ben neu ddiffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau		(135)	(135)

Gwerthoedd Teg Asedau a Dyledion

Caiff asedau ariannol a dyledion ariannol y Cyngor eu cario yn y Fantolen ar y gost wedi'i hamorteiddio. Mae'r IFRS yn gofyn bod Gwerthoedd Teg yr asedau a'r dyledion hyn yn cael eu datgelu ar gyfer dibenion cymharu. Diffinnir Gwerth Teg fel y swm y gellir cyfnewid ased amdano, neu setliad dyled, rhwng partïon gwybodus, parod mewn gwerthiant hyd braich. Gwerth Teg offeryn ariannol wrth ei gydnabod am y tro cyntaf yw pris y trafodyn fel arfer. Roedd dyled y Cyngor oedd yn weddill ar 31 Mawrth 2015 a 31 Mawrth 2016 yn cynnwys benthyciadau o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a Chynllun Effeithlonrwydd Ynni Salix. Mae ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y Cyngor, Arlingclose Cyf, wedi darparu symiau Gwerth Teg i'r Cyngor mewn perthynas â'i bortffolio dyledion. Mae Arlingclose Cyf wedi asesu'r Gwerthoedd Teg drwy gyfrifo'r symiau y byddai'r Cyngor yn gorfod eu talu i ddileu'r benthyciadau ar y dyddiadau hyn.

Yn achos buddsoddiadau'r Cyngor, roedd bron pob un o'r rhain yn adneuo'n tymor gyda Banciau a Chymdeithasau Adeiladu. Roedd dyddiadau aeddfedu'r buddsoddiadau hyn o fewn 12 mis i ddyddiad y Fantolen. Nid yw contractau'r adneuo'n tymor yn caniatáu adbryniant cynamserol. Nid oedd nam ar unrhyw un o'r buddsoddiadau (h.y. mewn risg o ddiffygdalu). Mae gwerthoedd teg ar gyfer buddsoddiadau felly wedi'u hasesu fel bod yr un peth â chario'r swm ar y Fantolen.

Mae Gwerth Teg yn fwy na'r swm cario oherwydd bod benthyciadau'r Cyngor yn rhedeg ar gyfraddau a oedd yn sefydlog ar y pryd y cawsant eu cymryd. Mae'r ymrwymiad hwn i dalu llog ar gyfraddau sy'n uwch na'r cyfraddau benthycia newydd cyfatebol ar ddyddiad y Fantolen yn golygu y byddai'r Cyngor yn gorfod talu mwy na'r swm cario os ydyw'n dewis ad-dalu ei fenthyciadau ar y dyddiad hwnnw.

Mae'r gwerthoedd teg a gyfrifir fel a ganlyn:

Swm Cario 31 Mawrth 2015 £000	Gwerthoedd Teg 31 Mawrth 2015 £000		Swm Cario 31 Mawrth 2016 £000	Gwerthoedd Teg 31 Mawrth 2016 £000
(145,337)	(236,364)	Dyledion Ariannol	(190,959)	(260,635)
(9,528)	(9,528)	Credydwy'r Hirdymor	(1,429)	(1,429)
(154,865)	(245,892)	Cyfanswm Dyledion Ariannol	(192,388)	(262,064)
23,391	23,391	Benthyciadau a Symiau		
915	915	Derbyniadwy	5,014	5,014
		Dyledwy'r Hirdymor	770	770
24,306	24,306	Cyfanswm Asedau Ariannol	5,784	5,784

16. Dyledwy'r

	31 Mawrth 2016 £000	31 Mawrth 2015 £000
Cyrrff llywodraeth ganolog	6,830	12,283
Awdurdodau Lleol eraill	4,071	7,519
Cyrrff GIG	907	1,211
Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu	3	41
Endidau ac unigolion eraill	6,520	11,210
Cyfanswm	18,331	32,264

17. Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod

Mae balans arian parod a chywerthoedd arian parod yn cynnwys yr elfennau a ganlyn:

31 Mawrth 2015 £000		31 Mawrth 2016 £000
497	Arian sydd gan y Cyngor	471
(3,424)	Cyfrifon cyfredol banc	(879)
5,300	Arian sydd yn y cyfrif mynediad uniongyrchol	7,000
2,373	Cyfanswm Arian a Chywerthoedd Arian Parod	6,592

18. Asedau i'w Gwerthu

	Cyfredol	
	2015/16 £000	2014/15 £000
Balans yn weddill ar ddechrau'r flwyddyn	5,168	1,121
Asedau sydd wedi'u neilltuo fel rhai sydd i'w gwerthu		
• Eiddo, Peiriannau ac Offer	80	3,679
• Arall	0	0
Colledion Adbriso	(732)	(311)
Enillion Adbriso	71	1,334
Asedau sydd ddim wedi'u neilltuo fel rhai sydd i'w gwerthu		
• Eiddo, Peiriannau ac Offer	(1,595)	(112)
Asedau a werthwyd	(252)	(543)
Balans yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn	2,740	5,168

19. Credydwyr

	31 Mawrth 2016 £000	31 Mawrth 2015 £000
Cyrff llywodraeth ganolog	(2,556)	(2,669)
Awdurdodau Lleol eraill	(1,850)	(2,521)
Cyrff GIG	(532)	(288)
Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu	(117)	(2)
Endidau ac unigolion eraill	(16,686)	(19,974)
Cyfanswm	(21,741)	(25,454)

20. Darpariaethau

	Cronfa Yswiriant £000	Hawliadau Cyflog Cyfartal/ôl-dâl £000	Darpariaethau eraill £000	Cyfanswm £000
Balansau ar 1 Ebrill 2015	(869)	(60)	(277)	(1,206)
Darpariaeth ychwanegol a wnaed yn 2015/16	(623)	(76)	(52)	(751)
Symiau a ddefnyddiwyd yn 2015/16	453	101	134	688
Symiau na ddefnyddiwyd a wyrdrowyd yn 2015/16	137	0	139	276
Balans ar 31 Mawrth 2016	(902)	(35)	(56)	(993)
Tymor Hir	(420)	0	(2)	(422)
Tymor Byr	(482)	(35)	(54)	(571)

Y Ddarpariaeth ychwanegol ar y Fantolen yw y Ddarpariaeth Absenoldebau Cronedig o (£2,384k), ((£2,834k) yn 2014/15). Mae hyn yn ymwneud â'r ddarpariaeth sydd ei hangen ar gyfer y buddion y mae gweithwyr wedi'u cronni ond sydd heb eu cymryd ar ddyddiad y Fantolen. Oherwydd bod hwn yn ddarpariaeth dybiannol ac na ellir cydnabod symudiadau hwn yn y cyfrif refeniw, mae'r balansau wedi'u heithrio o'r tabl uchod.

Cronfa Yswiriant

Sefydlwyd y gronfa yswiriant fewnol i ariannu rhagamcan cost setlo risgiau yswiriedig.

Ar 31 Mawrth 2016, mae darpariaeth o £902k wedi'i neilltuo ar gyfer rhagamcan cost llawn talu atebolrwydd yswiriant.

Mae'r holl hawliau iawndal yn ddi-nod yn unigol ac yn ymwneud ag anafiadau personol neu ddifrod i eiddo lle mae'r bai honedig ar yr Awdurdod (e.e. heb drwsio, heb gyflawni dyletswydd). Darperir ar gyfer yr hawliau lle mae'n debygol y bydd rhaid i'r Awdurdod dalu yn seiliedig ar brofiad y gorffennol o setlo hawliau.

Rydym yn disgwyl talu £482k yn y ddeuddeg mis nesaf, a thalu'r gweddill, sef £420k yn yr un i bum mlynedd nesaf. Gall yr Awdurdod gael ad-daliad gan ei yswirwyr ond nes y bydd hawliau yn cael eu setlo, ni fydd incwm yn cael ei gydnabod oherwydd y bydd yr yswirwyr ond yn ad-dalu symiau uwchben ein terfynau gormodol.

Hawliadau Cyflog Cyfartal/Ôl-dâl

Dyma gronfa i dalu am unrhyw atebolrwydd posibl a all godi.

Mae'r darpariaethau eraill i gyd yn ddi-nod yn unigol.

21. Trosglwyddiadau i/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd

Mae'r nodyn hwn yn nodi'r symiau a neilltuwyd o Gronfa'r Cyngor a balansau'r Cyfrif Refeniw Tai mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i ddarparu arian ar gyfer cynlluniau gwariant i'r dyfodol a'r symiau a ddaeth o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i ddiwallu gwariant Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai yn 2015/16.

	Balans ar 1 Ebrill 2014	Trosglwyddiadau allan 2014/15	Trosglwyddiadau i mewn 2014/15	Balans ar 31 Mawrth 2015	Trosglwyddiadau allan 2015/16	Trosglwyddiadau i mewn 2015/16	Balans ar 31 Mawrth 2016
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Cronfa'r Cyngor:							
Balansau gan ysgolion dan gynllun dirprwyo (i)	(3,892)	1,257	(903)	(3,538)	2,283	(307)	(1,562)
<u>Cronfeydd Wrth Gefn a ddelir fel rhan o Gynllun Corfforaethol Y Cyngor (vi)</u>							
Buddsoddiad Strategol Ysgolion yr 21ain Ganrif	(12,461)	1,831	(4,490)	(15,120)	17,145	(2,171)	(146)
Buddsoddiad Strategol Tai Gofal Ychwanegol	(2,196)	302	(400)	(2,294)	790	(400)	(1,904)
Cynlluniau Tref/Datblygiad Economaidd	(515)	0	(193)	(708)	219	(134)	(623)
<u>Cronfeydd Wrth Gefn Grantiau Penodol</u>							
Grant Menter Cyllid Preifat (vii)	(4,474)	0	(2,591)	(7,065)	8,499	(1,434)	0
Grantiau Refeniw heb eu defnyddio	(554)	361	(460)	(653)	237	(177)	(593)
Rheoli Gwastraff Cynaliadwy (v)	(3,895)	100	(273)	(4,068)	968	(247)	(3,347)
<u>Cronfeydd Wrth Gefn a ddelir ar gyfer Achosion Gyfreithiol</u>							
Gofynion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (a.106)	(1,543)	146	(14)	(1,411)	198	(15)	(1,228)
Statws Sengl (iii)	(782)	412	0	(370)	76	0	(294)
<u>Cronfeydd Wrth Gefn Mawr Eraill</u>							
Lliniaru Cyllideb (ii)	0	0	0	0	0	(1,511)	(1,511)
Cefnogi Pobl (iv)	(2,992)	0	0	(2,992)	386	0	(2,606)
Cynlluniau Cyfalaf (vi)	(904)	381	(693)	(1,216)	12,986	(20,808)	(9,038)
Lleoliadau Arbenigol	(890)	0	0	(890)	299	0	(591)
Cynhelir rhestr o ddiddordebau aelodau etholedig gan Bennaeth y Gyfraith a Llywodraethu, ac mae'n agored i'w harchwilio gan y cyhoedd. Mae nifer o aelodau etholedig hefyd wedi'u penodi gan y Cyngor i wasanaethu ar gyffwrdd eraill sydd â pherthynas ariannol gyda'r Cyngor. Caiff y rhain eu manylu yn yr adran Cwmnïau isod.

Swyddogion

Gofynnwyd i'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Phenathiaid Gwasanaeth gwblhau datganiad i ddatgelu unrhyw drafodion yn ymwneud â pharti sydd ganddynt â'r awdurdod. Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiad.

Cyrff Cyhoeddus Eraill**Asiantaeth Pensiynau Athrawon**

Mae'r costau pensiwn a godir yn y gyfradd gyfrannu a osodwyd gan yr Adran Addysg ar sail cronfa dybiannol. Mae manylion pensiwn athrawon wedi'u nodi yn Nodyn 38.

Cronfa Bensiynau Clwyd

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gorff a dderbyniwyd i Gronfa Bensiynau Clwyd. Mae manylion o'r trafodion a wnaed gyda Cronfa Bensiwn Clwyd wedi'u cynnwys yn Nodyn 39.

Cynghorau Cymuned/Tref a Dinas

Mae Cyfanswm y praeseptau a dalwyd i'r 37 o gynghorau cymuned/tref a dinas wedi'u cynnwys yn Nodyn 8 ac yn dod i gyfanswm o £1,733k (£1,550k yn 2014/15).

Comisiynydd Heddlu & Throsedd Gogledd Cymru ac Awdurdod Tân Gogledd Cymru

Mae Comisiynydd Heddlu & Throsedd ac Awdurdodau Tân ac Achub yn gosod eu ffioedd eu hunain i dalwyr treth y cyngor, sydd wedyn yn cael eu cynnwys ar bil treth y cyngor - mae'r taliadau hyn yn cael eu hadnabod fel y praesept. Mae cyfanswm y praeseptau a'r ardollau a dalwyd i Gomisiynydd Heddlu & Throsedd Gogledd Cymru ac Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn dod i gyfanswm o £13,481k (£13,071k yn 2014/15). Mae dadansoddiad wedi ei ddarparu yn Nodyn 8.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae gan yr Awdurdod ddau drefniant cyllideb ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: un ar gyfer darparu storfa Offer Cymunedol; a sefydlwyd yr ail gyda'r nod o sicrhau darpariaeth gwasanaeth integredig o weithiwr cefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n cefnogi defnyddwyr gwasanaethau yn y gymuned. Roedd cyfraniad Cyngor Sir Ddinbych i'r storfa Offer Cymunedol yn £211k (£211k yn 2014/15) a chyfrannodd yr Awdurdod £50k i'r Gwasanaeth Gweithwyr Cefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol (£50k yn 2014/15).

Cymdeithas Llynwodraeth Leol (CLIL)/Cymdeithas Llynwodraeth Leol Cymru (CLILC)

Mae'r Cyngor yn aelod o CLIL/CLILC a gwnaed taliadau iddynt o £84k yn 2015/16 (£89k yn 2014/15), a derbyniodd y Cyngor incwm o £2k ganddynt (£40k yn 2014/15).

Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC)

Mae CBAC yn fwrdd arholi, sydd yn darparu cymwysterau ac asesiad arholiadau i ysgolion Sir Ddinbych. Mae is-gadeirydd ei Fwrdd yn Aelod Etholedig o Gyngor Sir Ddinbych. Yn 2015/16 talodd Cyngor Sir Ddinbych £621k i CBAC (£552k yn 2014/15).

Cwmnïau

Mae Cod Ymarfer Cyfrifo yn gofyn i awdurdod sydd â chysylltiadau materol mewn un neu fwy o is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiedig baratoi cyfrif refeniw grŵp a mantolen. Nid yw cysylltiadau'r Cyngor â'r cwmnïau perthnasol naill ai'n diwallu'r meini prawf ar gyfer bod yn is-gwmni neu'n gwmni cysylltiedig fel y nodir yn y Cod, neu lle maent yn diwallu'r meini prawf, ni ystyrir eu bod yn faterol mewn perthynas â graddfa gyffredinol gweithrediadau'r Cyngor, ac o ganlyniad nid yw Cyfrifon Grŵp wedi'u paratoi.

Mae manylion y cwmnïau perthnasol fel a ganlyn:

Clwydfro Cyfyngedig (yn masnachu fel Asiantaeth Menter Sir Ddinbych)

Roedd Clwydfro yn gwmni cyfyngedig drwy warant, heb unrhyw gyfalaf cyfrannau. Amcan y cwmni oedd hyrwyddo ac annog gweithgaredd diwydiannol a masnachol neu fenter yn y sir, gyda'r bwriad o leihau diweithdra.

Rhoddodd Clwydfro Cyf y gorau i fasnachu ar 30 Medi 2015. Cynhyrchwyd cyfrifon ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2014 a 30 Medi 2015. Roedd y pedwar cyfarwyddwr oedd yn dal swydd yn ystod y cyfnod yna i gyd yn Cynghorwyr Sir Ddinbych. Mae datganiadau ariannol Clwydfro Cyf sydd heb eu harchwilio yn dangos bod dyledion net y cwmni ar 30 Medi 2015 yn £27 a cholled net ar gyfer y cyfnod oedd £179,796. Nid oedd unrhyw atebolrwydd cyfreithiol i'r cyngor gyfrannu at golledion neu ddiffy y cwmni.

Mae amcanion y cwmni bellach yn cael eu cynnal gan Menter Môn, cwmni cyfyngedig preifat heb gyfalaf cyfrannau. Nid yw Cynghorwyr Sir Ddinbych ar Fwrdd y cwmni hwn ac nid oes gan y Cyngor unrhyw hawliau pleidleisio.

Gellir cael gwybodaeth bellach gan Menter Môn Cyf, Neuadd y Dref Llangefni, Sgwar Bulkeley, Llangefni, Sir Fôn, LL77 7LR.

Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan a Mentrau Castell Bodelwyddan Cyf.

Mae Grŵp Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan yn gwmni cyfyngedig drwy warant, heb unrhyw gyfalaf cyfrannau. Mae'n elusen gofrestredig a sefydlwyd yn Chwefror 1994. Amcanion yr Ymddiriedolaeth yw datblygu addysg drwy gaffael, cynnwys a dangos gwrthrychau a chasgliadau o natur addysgol, a drwy sefydlu, caffael a rheoli amgueddfeydd, orielau a llyfrgelloedd i'w defnyddio ar gyfer dibenion o'r fath. Mae'r Ymddiriedolaeth yn caffael arteffactau y mae'n eu hadfer, eu cadw a'u harddangos. Mae hefyd yn rheoli parc cyhoeddus ar gyfer gweithgareddau hamdden ac yn hyrwyddo gwerthfawrogiad o'r byd naturiol. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn rhoi grant blynyddol i Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan ac yn ystod 2015/16, derbyniodd yr Ymddiriedolaeth £144,681. Mae'r Cyngor hefyd yn darparu ei wasanaethau cyflog. Roedd Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn cynnwys cyfanswm o un ar ddeg aelod, gyda un ohonynt yn Gynghorydd Cyngor Sir Ddinbych.

Nid yw'r datganiadau ariannol a archwiliwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015/16 ar gael eto. Fodd bynnag, roedd asedau net y Grŵp ar 31 Mawrth 2015 yn £727,865 ac roedd yr adnoddau sy'n mynd allan am y flwyddyn yn dod i gyfanswm o £731.

Ni ystyrir bod y cwmni'n is-gwmni neu'n gwmni cysylltiedig yr Awdurdod, ar sail er gwaethaf bod yn fuddsoddwr yn y cwmni, mae Sir Ddinbych yn dal llai na 20% o'r hawliau pleidleisio, sydd felly'n aelodaeth leiafrifol. Felly nid oes cyfrifon grŵp wedi'u paratoi.

Nid oes unrhyw atebolrwydd cyfreithiol i'r cyngor gyfrannu at golledion neu ddiffygion y cwmni.

Gellir cael gwybodaeth bellach gan Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan Cyf., Bodelwyddan, LL18 5YA.

Hamdden Clwyd Cyf.

Sefydlwyd Hamdden Clwyd Cyfyngedig 1 Ebrill 2001 fel Sefydliad Nad yw'n Dosbarthu Elw. Rhoddodd y cwmni orau i fasnachu ddydd Gwener 7 Chwefror 2014 ac mae ymarferydd ansolfedd wedi bod yn rheoli'r gwaith o ddirwyn y cwmni i ben, sydd bellach wedi dod i ben. Cymeradwywyd adroddiad terfynol y Diddymwr mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2016. Dan delerau dyleddeb, ystyriwyd y Cyngor fel credydwr ffafriol a derbyniodd daliad o £295,478. Mae balansau dyledwyr amrywiol am £37,599 yn parhau a ddarparwyd ar eu cyfer yn llawn hyd nes cwblhad y gweithdrefnau dileu ffurfiol.

Mae'r cyngor yn warantwr o ymrwymadau pensiwn y cwmni ac mae'r rhwymedigaeth hyn bellach wedi eu cynnwys yn nyledion cyffredinol Sir Ddinbych. Bydd yr effaith llawn yn cael ei gynnwys fel rhan o'r prisiad actiwaraidd yn 2016. Amcangyfrifwyd y rhwymedigaeth i fod tua £800k yn wreiddiol ond bydd oblygiadau ariannol y cyngor yn llai na hyn a bydd hyn yn cael ei effeithio gan nifer fawr o ffactorau eraill fel newidiadau i'r tybiaethau prisiad actiwaraidd cyffredinol a'r nifer o weithwyr y cyngor.

Cwmni Scala Prestatyn Cyf.

Cafodd y Cwmni ei redeg fel elusen ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant ddielw. Yn 2009/10 cytunodd y Cyngor i roi benthyciad o £80,000 i'r Cwmni ac o ran y benthyciad nodwyd y gall barhau am hyd at ddeng mlynedd.

Cafodd y Cyngor wybod gan y cyfreithwyr ansolfedd ym mis Rhagfyr 2015 bod y broses i gael gwared ar Cwmni Scala Prestatyn Cyf. oddi ar y Gofrestr Cwmniâu

wedi dechrau yn ffurfiol. Fel rhan o hyn cafodd y Cyngor wybod 'nad oes gan y Scala unrhyw asedau ac nid yw mewn sefyllfa i wneud unrhyw daliadau sy'n ddyledus'. Mae cyfanswm y ddyled sydd gan y cwmni i'r cyngor yn dod i gyfanswm o £140k (£60k mewn mân ddyledion a benthyciad o £80k). Mae'r benthyciad wedi cael ei ddiddymu ac mae'r symiau i amrywiol ddyledwyr wedi cael eu darparu ar eu cyfer yn llawn, tra'n disgwyl cwblhau'r gweithdrefnau diddymu ffurfiol.

35. Gwariant Cyfalaf ac Ariannu Cyfalaf

Dangosir cyfanswm y gwariant cyfalaf yn y flwyddyn yn y tabl isod (gan gynnwys gwerth yr asedau a gaffaelwyd o dan brydlesau ariannol a chontractau PFI/PP), ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Lle bydd gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu yn y dyfodol drwy daliadau i refeniw wrth i asedau gael eu defnyddio gan y Cyngor, mae'r gwariant yn golygu bod cynnydd yn y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), mesuriad o'r gwariant cyfalaf a wnaed yn hanesyddol gan y Cyngor nad ydyw wedi'i ariannu eto. Dadansoddir y GCC yn ail ran y nodyn hwn.

	2015/16 £000	2014/15 £000
Gofyniad Cyllido Cyfalaf Agoriadol	188,857	185,835
Buddsoddiad Cyfalaf		
Eiddo, Peiriannau ac Offer	44,524	31,070
Eiddo Buddsoddi	99	185
Gwariant Refeniw a Ariennir o Gyfalaf Trwy Statud	3,893	4,409
Gwariant wedi ei Gyfalafu – Taliad Setliad CRT	40,045	
Ffynonellau o Arian		
Derbyniadau cyfalaf	(1,870)	(1,478)
Grantiau a chyfraniadau eraill y Llywodraeth	(30,209)	(21,935)
Symiau a roddwyd o'r neilltu o refeniw:		
Cyfraniadau refeniw uniongyrchol	(2,234)	(1,167)
MRP a Dyledwyr Hirdymor	(9,433)	(8,062)
Gofyniad Cyllido Cyfalaf Terfynol	233,672	188,857

	2015/16 £000	2014/15 £000
Esboniad o symudiadau mewn blwyddyn		
Cynnydd mewn angen sylfaenol i fenthyca (a gefnogir gan gymorth ariannol y llywodraeth)	2,967	2,250
Cynnydd mewn angen sylfaenol i fenthyca (heb gefnogaeth cymorth ariannol y llywodraeth)	51,720	9,026
MRP a Dyledwyr Hirdymor	(9,031)	(7,973)
Derbyniadau Cyfalaf a neilltuwyd	(439)	(192)
Asedau a gaffaelwyd o dan brydlesau ariannol	0	0
Asedau a gaffaelwyd o dan gontractau PFI	(402)	(89)
Cynnydd / (gostyngiad) mewn Gofyniad Cyllido Cyfalaf	44,815	3,022

36. Prydlesau

Mae'r Cyngor yn prydlesu rhai o'i eiddo, cerbydau ac eitemau o offer, yn ogystal â phrydlesu rhai o'r eiddo y mae'n berchen arnynt. Mae trefniadau'r prydlesau wedi'u hadolygu a'u dosbarthu fel prydlesau gweithredol neu ariannol fel y disgrifir mewn mwy o fanylder isod.

Awdurdod fel LesddeiliadPrydlesau Ariannol

Mae'r Cyngor wedi caffael rhai eiddo o dan brydlesau ariannol.

Caiff yr asedau a gafaelir o dan y prydlesau hyn eu cario fel Adeiladau, Peiriannau ac Offer yn y Fantolen ar y symiau net canlynol:

	31 Mawrth 15 £000	31 Mawrth 16 £000
Tir ac Adeiladau Eraill	3,351	3,295
	3,351	3,295

Prydlesau Gweithredol

Mae'r Cyngor wedi caffael eiddo, cerbydau ac eitemau eraill o offer drwy wneud prydlesau gweithredol. Y taliadau prydles lleiaf yn y dyfodol sy'n ddyledus o dan brydlesau na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

	31 Mawrth 15 £000	31 Mawrth 16 £000
Dim hwyrach na blwyddyn	2	25
Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na 5 mlynedd	9	100
Hwyrach na 5 mlynedd	12	127
	23	252

Roedd y taliadau prydles lleiaf a godwyd ar wasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r prydlesau hyn yn £16k yn 2015/16 ac yn £2k yn 2014/15.

Awdurdod fel PrydlesyddPrydlesau Weithredol

Mae'r Cyngor yn prydlesu eiddo i unigolion o dan brydlesau gweithredol ar gyfer dibenion amrywiol, fel datblygiad economaidd, i ddarparu unedau i fusnesau lleol. Y taliadau prydles lleiaf sy'n dderbyniadwy o dan brydlesau na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

	31 Mawrth 15 £000	31 Mawrth 16 £000
Dim hwyrach na blwyddyn	798	955
Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na 5 mlynedd	2,469	2,609
Hwyrach na 5 mlynedd	11,645	12,085
	14,912	15,649

37. Cynlluniau Ariannu Preifat a Chytundebau Tebyg

Fe wnaeth y Cyngor ymrwymo i gynllun PFI dau ddeg pum mlynedd gyda Neptune PFI Ruthin Ltd, gan ddechrau o ddyddiad dechrau'r gwasanaeth, Mai 2004. Roedd y contractwr am ddylunio, adeiladu, ariannu, gweithredu a rheoli cyfleusterau cyhoeddus i ddarparu gofod dinesig a swyddfa ar gyfer cyfarfodydd, gweithrediadau a swyddogaethau'r Cyngor, ac ar gyfer cyfarfodydd a chynulliadau cyhoeddus eraill. Mae'r cyfleusterau wedi'u lleoli ar nifer o safleoedd ar wahân yn Rhuthun ac yn cynnwys Neuadd y Sir, Neuadd y Dref a storfa'r Sir. Er mwyn arbed arian, etholodd y cyngor i derfynu'r Cytundeb PFI bymtheg mlynedd yn gynnar – roedd y cytundeb yn dod i ben yn 2029. Cyhoeddodd y Cyngor rhybudd ffurfiol i derfynu'r Cytundeb ar 14 Mai 2015 a sbardunodd hyn daliad iawndal i gyd-barti'r PFI a chyflwynwyd cyfrif terfynu i'r cyngor ar 7 Medi. Cytunwyd elfennau terfynol y swm iawndal ar 14 Hydref 2015 ac arweiniodd hyn at gyfanswm iawndal o £16,995k. Yn ogystal â hyn, codwyd ffioedd o £34k am gymorth arbenigol a chyngor cyfreithiol a threthi penodol. Ariannwyd y swm iawndal gan gronfeydd wrth gefn a benthyca. Cyfeiriwch at Nodyn 5 Eitemau o Incwm a Gwariant Materol os gwelwch yn dda.

Eiddo, Peiriannau ac Offer

Cydnabyddir yr asedau a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaethau ar Fantolen yr Awdurdod. Manylir ar symudiadau yn eu gwerth dros y blynyddoedd fel y manylir yn y dadansoddiad o'r symudiad ar Eiddo, Peiriannau ac Offer yn Nodyn 13.

Dyledion prydlles ariannol

Ar ddechrau'r brydles, cafodd gwerth teg yr asedau sefydlog eu cyfateb gyda dyled prydlles ariannol. Y ddyled gychwynnol oedd £12,195k, a ostyngodd drwy gyfraniad cyfalaf gan Gyngor Sir Ddinbych o £300k. Ar ddiwedd 2014/15 roedd rhwymedigaeth y brydles yn £9,684k. Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill i 4 Fedi 2015, ysgrifennwyd y brydles i lawr gan £162k ychwanegol. Ysgrifennwyd balans y brydles (£9,522k) allan fel rhan o'r trafodion taliad terfynu.

Taliadau Unedol

Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill i 4 Fedi, 2015, talodd yr Awdurdod y taliad unedol i weithredwyr PFI ac mae'r swm sy'n daladwy yn awr yn cael ei ddadansoddi mewn i bedair elfen:

- Gwerth teg y gwasanaethau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn – debydwyd i'r gwasanaeth perthnasol yn y Cyfrif Incwm a Gwariant. Yn 2015/16, £264k oedd hyn (£503k am flwyddyn llawn yn 2014/15) a thaliadau am gyfleustodau ac yswiriant.
- Cost ariannol - £516k yn 2015/16 (£1,236k am flwyddyn llawn yn 2014/15).
- Taliad tuag at ddyled - sy'n berthnasol i ysgrifennu i lawr dyled y Fantolen tuag at weithredwr y PFI fel y dangosir uchod.

- Costau disodli cylch oes – nid oes unrhyw gostau cylch oes yn 2015/16 a cymerwyd i ystyriaeth y rhagdaliad ddyledus o £1,026k yn nhrafodaethau'r setliad terfynol ac ysgrifennwyd allan o'r fantolen.

38. Cynlluniau Pensiwn y Rhoddir Cyfrif Amdanynt fel Cynlluniau Cyfraniad Diffiniedig

Mae athrawon a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan yr Adran Addysg. Mae'r Cynllun yn rhoi buddiannau penodol i athrawon pan fyddant yn ymddeol, ac mae'r Cyngor yn cyfrannu at y costau drwy wneud cyfraniadau ar sail canran o gyflogau pensiynadwy aelodau. Yn dechnegol, mae'r Cynllun yn gynllun â buddion diffiniedig. Fodd bynnag, nid yw'r Cynllun wedi'i gyllido ac mae'r Adran Addysg yn defnyddio cronfa dybiannol i gyfrifo cyfradd gyfraniadau cyflogwyr a delir gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Cyngor yn gallu nodi ei gyfran o sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y Cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifeg. At ddiben y Datganiad Cyfrifon hwn, caiff ei gyfrif ar yr un sail â chynllun cyfraniadau diffiniedig. Yn 2015/16, talodd y cyngor sir £5,342k i Bensiynau Athrawon o ran buddiannau ymddeol athrawon, sy'n gyfwerth â 14.1% o gyflog pensiynadwy hyd at Awst 31 ac yna 16.48% ar ôl hynny. Y ffigurau ar gyfer 2014/15 oedd £4,853k ac 14.1%. Yn ogystal, gwnaed taliadau o ran ymddeoliadau cynnar cyfwerth â £530k (£390k yn 2014/15). Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd £1k i fod i gael ei adennill oddiwrth Pensiynau Athrawon o ganlyniad i addasiadau ganslo cyflog. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a roddir wrth ymddeol yn gynnar y tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Cyfrifir y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig ac fe'u nodir yn Nodyn 39.

39. Cynlluniau Pensiwn â Buddiannau Diffiniedig

Cymryd rhan mewn Cynlluniau Pensiwn

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Cyngor yn gwneud cyfraniadau at gost buddiannau ar ôl cyflogaeth. Er na fydd y buddiannau hyn yn cael eu talu nes i'r gweithwyr ymddeol, mae ymrwymiad ar y Cyngor i wneud y taliadau (ar gyfer y buddiannau hyn) a datgelu pryd y gall gweithwyr gael eu hawliad yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn dau gynllun ar ôl cyflogaeth.

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mae hwn yn gynllun cyflog terfynol â buddiannau diffiniedig a gaiff ei gyllido, sy'n golygu bod y Cyngor a gweithwyr yn talu cyfraniadau i mewn i gronfa, a gyfrifir ar lefel a fwriedir i gydbwysu dyledion pensiynau gydag asedau buddsoddi.
 - Trefniadau ar gyfer rhoi buddiannau â disgrisiwn ar ôl ymddeol wrth ymddeol yn gynnar – mae hwn yn drefniant buddiannau diffiniedig na chaiff ei gyllido, lle caiff dyledion eu cydnabod pan gaiff y buddiannau eu rhoi. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi wedi'u cronni i dalu'r dyledion pensiynau hyn, a rhaid creu arian parod i dalu taliadau pensiwn gwirioneddol pan fyddant yn daladwy.
- Mae rheolaeth y Gronfa yn cael ei freinio yng Nghyngor Sir y Fflint, sef Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Cronfa Bensiwn sy'n cynnwys pum Cynghorydd o Gyngor Sir y Fflint a phedwar aelod cyfetholedig.

Mae'r Pwyllgor, gyda chymorth ymgynghorwyr proffesiynol y Gronfa, yn ymgymryd â rolau megis penderfynu ar bolisïau mewn perthynas â'r strategaeth fuddsoddi, gweinyddu llywodraethu, cyfathrebu, strategaeth ariannu a darpariaethau rheoli risg. Am fanylion pellach ynghlŷn ag egwyddorion llywodraethu a buddsoddi Cronfa Bensiwn Clwyd, ewch i www.clwydpensionfund.org neu cysylltwch â Chronfa Bensiwnau Clwyd yn:

Cronfa Bensiwn Clwyd
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NA

- Y prif risgiau i awdurdod y cynllun yw'r tybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (h.y. codi arian ar raddfa fawr o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, llog bondiau a pherfformiad y buddsoddiadau ecwiti a ddelir gan y cynllun. Mae'r rhain yn cael eu lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi tâl ar Gronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai yn y symiau sy'n ofynnol yn ôl statud fel y disgrifir yn y nodyn polisïau cyfrifeg.

Trafodion sy'n gysylltiedig â Buddiannau ar ôl Cyflogaeth

Rydym yn cydnabod cost buddiannau ymddeol yng nghost gwasanaethau pan gânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan gaiff y buddiannau eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r tâl y mae angen i ni eu gwneud yn erbyn Treth y Cyngor yn seiliedig ar yr arian sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly caiff cost wirioneddol buddiannau ar ôl cyflogaeth/buddiannau ymddeol ei dynnu allan o Gronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai drwy'r Datganiad ynghlŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans Cronfa'r Cyngor drwy'r Datganiad ynghlŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn:

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Trefniadau Buddiannau â Disgresiwn	
	2015/16 £000	2014/15 £000	2015/16 £000	2014/15 £000
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cost y Gwasanaethau <i>Cost gwasanaeth, yn cynnwys:</i>				
• Costau Gwasanaeth Cyfredol	14,653	11,943		
• Costau Gwasanaeth y Gorffennol / (Enillion)	790	492		
• (Enillion) Colled o Setliadau a Chwtogiadau	0	0		
<i>Gwariant Gweithredu Arall:</i>				
• Treuliau Gweinyddu	285	299		
Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi:				
• Treuliau Llog Net	6,730	6,800	271	373
Cyfanswm y Buddiannau ar ôl Cyflogaeth a godir ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau Buddiannau eraill ar ôl Cyflogaeth a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Ailfesuriad y Rhwymedigaeth Buddiannau Diffiniedig Net yn cynnwys:	22,458	19,534	271	373
• *Adenillion ar Asedau Cynlluniau (ac eithrio'r swm a nodir yn y Gwariant Llog Net) (A)	7,440	(28,376)		
• *(Enillion) a Cholledion Actiwari yn sgil Newidiadau mewn Rhagdybiaethau Demograffig (B)	0	0		
• *(Enillion) a Cholledion Actiwari yn sgil Newidiadau mewn Rhagdybiaethau Ariannol (C)	(30,299)	75,482	(194)	542
• *Arall (D)	0	0		
Cyfanswm Buddiannau ar ôl Cyflogaeth a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(401)	66,640	77	915
Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn				
• Gwrthdroi costau net a wnaed i'r Gwarged neu'r Ddyled ar gyfer Darparu Gwasanaethau ar gyfer Buddiannau ar ôl Cyflogaeth yn unol â'r Cod	(22,458)	(19,534)	(271)	(373)
Swm gwirioneddol a godir yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn.				
• Cyfraniadau gweithiwr sy'n daladwy i'r cynllun	15,797	15,324		
• Buddiannau ymddeol sy'n daladwy i bensiynwyr			828	856

*A + B + C + D = Ailfesuriad y Rhwymedigaeth / (Ased) Buddiannau Diffiniedig Net fel y dyfynnwyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Asedau Pensiwn a Rhwymedigaethau a Gydabyddir yn y Fantolen

Mae'r swm a nodir yn y Fantolen yn sgil rhwymedigaeth yr awdurdod o ran ei gynlluniau buddiannau diffiniedig fel a ganlyn: (£23,053k) 2015/16; £47,648k 2014/15

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Trefniadau Buddiannau â Disgresiwn	
	2015/16 £000	2014/15 £000	2015/16 £000	2014/15 £000
Gwerth Presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig	523,391	535,985	8,411	9,162
Gwerth teg yr Asedau Cynlluniau	(324,415)	(320,811)		
Is-gyfanswm Symudiadau eraill yn y rhwymedigaeth (ased)	198,976	215,174	8,411	9,162
Rhwymedigaeth net yn sgil y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig	198,976	215,174	8,411	9,162

Cysoni Symudiadau yn yr Asedau'r Cynllun Gwerth Teg

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	
	2015/16 £000	2014/15 £000
Gwerth teg agoriadol asedau'r cynllun	320,811	277,095
Incwm llog	10,707	12,763
Treuliau gweinyddu	(285)	(299)
Enilliad/(colled) aifsesuriad:		
• Yr elw ar asedau'r cynllun, ac eithrio'r swm a gynhwysir yn y gwariant llog net	(7,440)	28,376
• Arall		
Effaith newidiadau yng nghyfraddau'r gyfnewidfa dramor		
Cyfraniadau gan y cyflogwr	15,797	15,324
Cyfraniadau gan weithwyr	3,566	3,774
Buddiannau a dalwyd	(18,741)	(16,222)
Arall		
Gwerth teg terfynol asedau'r cynllun	324,415	320,811

Cysoni Gwerth Presennol y Cynllun Rhwymedigaethau (Rhwymedigaeth Buddiannau Diffiniedig)

	Rhwymedigaethau a Ariennir Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Rhwymedigaeth nas Ariennir Trefniadau Buddiannau Disgresiwn	
	2015/16 £000	2014/15 £000	2015/16 £000	2014/15 £000
Balans agoriadol ar 1 Ebrill	535,985	440,953	9,162	9,103
Cost gwasanaeth presennol	14,653	11,943		
Cost llog	17,437	19,563	271	373
Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun	3,566	3,774		
(Enillion) a cholledion ailfesuriad:				
• (Enillion) a cholledion actiwari yn sgil newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig	0	0		
• (Enillion) a cholledion actiwari yn sgil newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol	(30,299)	75,482	(194)	542
• Arall	0	0		
Cost gwasanaeth blaenorol	79	115		
Colledion/(enillion) a chwtogiad	711	377		
Rhwymedigaethau a ragdybir ar gyfuniad endidau				
Buddiannau a dalwyd	(18,741)	(16,222)	(828)	(856)
Rhwymedigaethau wedi eu dileu ar setliadau				
Balans terfynol ar 31 Mawrth	523,391	535,985	8,411	9,162

Asedau Cynwysedig y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:

	Gwerth Teg Asedau'r Cynllun	
	2015/16 £000	2014/15 £000
Arian Parod a Symiau Cywerth ag Arian Parod	3,244	9,624
Ecwitiai		
• DU a ddyfynnwyd	0	0
• Byd-eang a ddyfynnwyd	23,033	24,061
• Byd-eang a ddyfynnwyd	0	11,228
• UDA	0	0
• Japan	0	0
• Ewrop	0	0
• Marchnadoedd datblygol	18,492	19,249
• Cyffindir	6,164	3,208
• Dwyrain Pell	0	0
Is-gyfanswm Ecwiti	47,689	57,746
Bondiau		
Bondiau Tramor Eraill	39,903	41,705
LDI	73,967	73,788
Is-gyfanswm Bondiau	113,870	115,493
Eiddo:		
• DU	9,732	9,624
• Tramor	15,896	12,832
Is-gyfanswm Eiddo	25,628	22,456
Eraill:		
• Cronfeydd Diogelu	32,766	12,832
• Ecwiti preifat	35,361	35,289
• Isadeiledd	6,488	6,416
• Coed ac Amaeth	6,164	6,416
• Nwyddau	0	6,416
• DGF	53,205	48,123
Is-gyfanswm Eraill	133,984	115,492
Cyfanswm Asedau	324,415	320,811

Sail ar gyfer Amcangyfrif Asedau a Dyledion

Mae dyledion wedi'u hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned a ragamcanir, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy mewn blynyddoedd i ddod yn dibynnu ar ragdybiaethau am gyfraddau marwolaeth, lefelau cyflog ac ati.

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a dyledion buddiannau â Disgresiwn wedi'u hamcangyfrif gan Mercer Human Resource Consulting, cwmni o actiwaraid, ac mae amcangyfrifon ar gyfer Cronfa'r Cyngor Sir yn seiliedig ar brisiad llawn diweddaraf y cynllun ar 31 Mawrth 2013.

Y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari oedd:

	Cynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol		Trefniadau Buddion Disgresiwn	
	2015/16 £000	2014/15 £000	2015/16 £000	2014/15 £000
Rhagdybiaethau Marwolaeth: Hirhoedledd yn 65 ar gyfer pensïynwyr presennol:				
• Dynion	23.5 blwyddyn	23.4 blwyddyn	23.5 blwyddyn	23.4 blwyddyn
• Merched	26.0 blwyddyn	25.9 blwyddyn	26.0 blwyddyn	25.9 blwyddyn
Hirhoedledd yn 65 ar gyfer pensïynwyr y dyfodol:				
• Dynion	26.4 blwyddyn	26.3 blwyddyn		
• Merched	29.4 blwyddyn	29.3 blwyddyn		
Cyfradd Chwyddiant	2.00%	2.00%	2.00%	2.00%
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau	3.50%	3.50%		
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau	2.00%	2.00%	2.00%	2.00%
Cyfradd disgowntio buddiannau'r cynllun	3.60%	3.30%	3.40%	3.10%

Mae amcangyfrif y rhwymedigaeth budd ddiffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwari a nodir yn y tabl uchod. Mae'r dadansoddiadau sensitifrwydd isod wedi eu pennu ar sail newidiadau rhesymol posibl ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac mae'n rhagdybio ar gyfer pob newid bod y rhagdybiaeth wedi dadansoddi newidiadau tra mae'r holl ragdybiaethau eraill yn aros yn gyson. Mae'r rhagdybiaethau o ran hirhoedledd, er enghraifft, yn rhagdybio bod disgwyliad oes yn cynyddu neu'n lleihau ar gyfer dynion a merched. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd, a gall newidiadau mewn rhai rhagdybiaethau fod yn rhyngberthynol. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad sensitifrwydd wedi dilyn polisiau cyfrifo'r cynllun h.y. ar sail actiwari yn defnyddio'r dull credyd uned a ragamcanir. Nid yw'r dulliau na math y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth lunio'r dadansoddiad sensitifrwydd isod wedi eu newid ers y cyfnod blaenorol.

Newid mewn rhagdybiaethau 31 Mawrth 2016	Effaith ar y rhwymedigaeth net yn sgil y Rhwymedigaeth Budd Ddiffiniedig yn y Cynllun £000
Hirhoedledd (cynnydd mewn 1 flwyddyn)	10,282
Cyfradd chwyddiant (cynnydd o 0.1%)	9,989
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau (cynnydd o 0.1%) heb ei ddarparu	2,444
Cyfradd ddisgowntio rhwymedigaeth y cynllun (cynnydd o 0.1%)	(9,805)

Risgiau a'r Strategaeth Fuddsoddi

Mae'r Gronfa yn cynnal sefyllfaoedd yn defnyddio amrywiaeth o offerynnau ariannol ac felly mae'n agored i nifer o risgiau ariannol gan gynnwys risgiau credyd a gwrthannol, risg hylifedd, risg marchnad a risg cyfraddau cyfnewid.

Mae gweithdrefnau rheoli risg yr Awdurdod Gweinyddu yn canolbwyntio ar natur anrhagweladwy'r marchnadoedd ariannol a gweithredu cyfyngiadau i leihau'r risgiau hynny. Mae'r Gronfa Bensiwn yn adolygu ei Ddatganiad Egwyddorion Buddsoddi, a'r Datganiad Strategaeth Ariannu cysylltiedig, yn flynyddol, sy'n gosod polisi'r Gronfa Bensiwn ar faterion fel y math o fuddsoddiadau i'w dal, y balans rhwng

gwahanol fathau o fuddsoddiadau, cyfyngiadau buddsoddi a'r ffordd y rheolir risg. Mae'r Gronfa yn cynnal adolygiadau ffurfiol ar ei strwythur, ac elfen allweddol o'r broses adolygu yw risg. Mae'r Gronfa yn dilyn polisi o leihau risg drwy amrywio buddsoddiadau ar draws dosbarthiadau asedau, rhanbarthau buddsoddi a rheolwyr cronfa.

Effaith ar Lif Arian yr Awdurdod

Amcanion y cynllun yw cadw cyfraniadau cyflogwyr mor gyson â phosibl. Mae'r Cyngor Sir wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r cynllun i gyflawni lefel gyllido 100% dros y 19 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro yn flynyddol. Bydd y prisiad tair blynedd nesaf yn cael ei gwblhau ar 31 March 2016.

Bydd yn rhaid i'r cynllun ystyried newidiadau cenedlaethol i'r cynllun dan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Dan y Ddeddf, efallai na fydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru a Lloegr, a'r prif gynlluniau pensiwn eraill, yn darparu buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth ar ôl 31 March 2014. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau, o fewn fframwaith cyffredin, i sefydlu cynlluniau cyfartaledd enillion gyrfa newydd i dalu pensiynau a buddiannau eraill i weision cyhoeddus penodol.

Rhagwelir y bydd yr awdurdod yn talu £15,866k i'r cynllun yn 2016/17.

Cyfartaledd pwysol hyd y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar gyfer aelodau'r cynllun yw 19 mlynedd, 2015/16 (19 mlynedd 2014/15).

40. Rhwymedigaethau Amodol

Gall dyled ddigwyddiadol gael ei diffinio fel naill ai:

- Rhwymedigaeth ddichonadwy sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol, na ellir cadarnhau ei bodolaeth ond trwy un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y sefydliad;

neu

- rhwymedigaeth bresennol sy'n codi o ddigwyddiadau'r gorffennol ond na chaiff ei gydnabod oherwydd:

(i) Nid yw'n debygol y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd er mwyn setlo'r rhwymedigaeth;

neu

(ii) Ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth gyda digon o ddibynadwyedd.

Municipal Mutual Insurance Cyf. (MMI) oedd prif yswiriwr cyrff y sector cyhoeddus cyn iddo roi'r gorau i ddarparu yswiriant busnes ym mis Medi 1992. Er mwyn sicrhau bod MMI yn rheoli ei fusnes yn drefnus, rhoddwyd cynllun trefniant gyda'i gredydwyr ar waith. O fewn y Ddarpariaeth Yswiriant a fanylir yn Nodyn 20 mae elfen mewn perthynas â'r Cynllun. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd unrhyw daliad yn y dyfodol a wneir gan MMI ar ôl gosod yr ardoll gychwynnol yn cael ei wneud ar y gyfradd is o 75%. Mae rhagweld hawliadau yn y dyfodol yn ansicr oherwydd natur ddiweddaraf nifer yr hawliadau y mae MMI yn parhau i'w derbyn. Mae'r ardoll yn destun adolygiad gan weinyddwr y cynllun o leiaf bob 12 mis. Er gwaethaf gosod ardoll gychwynnol o 15%, wrth fodelu canlyniadau disgwylidig ar gyfer rheoli busnes MMI yn ddiddyled, mae'r gweinyddwr y rwan wedi gofyn am 10% ychwanegol.

Dylid nodi rhwymedigaeth digwyddiadau o ran costau sy'n parhau sef £1,820k o ran hawliadau Clwyd a £306k o ran hawliadau Rhuddlan.

41. Natur a Maint y Risgiau sy'n Deillio o Offerynnau Ariannol

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymarfer Rheoli Trysorlysoedd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ac mae'n cydymffurfio â'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf ar gyfer Awdurdodau Lleol.

Fel rhan o fabwysiadu Cod Rheoli'r Trysorlys, cymeradwyodd y Cyngor Strategaeth Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2015/16 ar 24 Chwefror 2015. Mae'r Strategaeth yn nodi'r paramedrau ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag Offerynnau Ariannol. Mae'r Cyngor hefyd yn cynhyrchu Arferion Rheoli'r Trysorlys sy'n nodi'r trefniadau ymarferol i'w dilyn i reoli'r risgiau hyn.

Mae Strategaeth Reoli'r Trysorlys yn cynnwys Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn unol â Chyfarwyddyd Buddsoddi Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol. Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn egluro y dylid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd, yn hytrach nag arenillion. Mae Strategaeth Trysorlys y Cyngor, ynghyd â'i Arferion Rheoli'r Trysorlys, yn seiliedig ar geisio cyfradd uchaf dychweliadau sy'n gyson â lefelau priodol diogelwch a hylifedd.

Y prif risgiau a gaiff eu cwmpasu yw:

Risg Credyd: Y posibilrwydd y bydd partïon eraill yn methu talu symiau dyledus i'r Cyngor.

Risg Hylifedd: Y posibilrwydd y does gan y Cyngor ddim arian ar gael i gwrdd â'i ymrwymadau i wneud taliadau.

Risg Marchnad: Y posibilrwydd y gallai colled ariannol godi i'r Cyngor o ganlyniad i newidiadau mewn mesuriadau fel cyfraddau llog a symudiadau ar y farchnad stoc.

Risg Credyd

Buddsoddiadau

Mae'r Cyngor yn rheoli'r risg trwy sicrhau bod buddsoddiadau wedi'u lleoli gyda'r llywodraeth ganolog, awdurdodau eraill neu Fanciau a Chymdeithasau Adeiladu sydd â sgorau credyd digon uchel fel y nodwyd yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys. Bydd cyfyngiad o £5,000k yn cael ei roi ar swm yr arian y gellir ei fuddsoddi gyda pharti unigol. Ni ellir buddsoddi mwy na chyfanswm o £10,000k am gyfnod hirach na blwyddyn.

Nid oes gan y Cyngor unrhyw brofiad hanesyddol o ddiffygdlu gan barti arall. Mae'r Cyngor yn defnyddio amryw o ddangosyddion yn ogystal â sgorau credyd i benderfynu pwy i fuddsoddi gyda nhw. Mae'r rhain yn cynnwys gwarantau'r Llywodraeth, cryfder ariannol y Wlad a phrisiau cyfranddaliadau. Bydd y Cyngor a'i ymgynghorydd trysorlys yn parhau i ddadansoddi a monitro'r dangosyddion hyn a datblygiadau credyd yn rheolaidd ac yn ymateb yn ôl yr angen i sicrhau diogelwch y symiau a fuddsoddwyd.

Dyledwyr

Cydnabyddir yn yr amgylchedd economaidd presennol y bydd casglu arian dyledus yn anoddach, ond mae'r Awdurdod eisoes wedi buddsoddi mewn methodoleg Rheoli Credyd cryf gyda staff hyfforddedig wedi'u cefnogi gan drefnau effeithiol a ddylai gynnal llif arian a lleihau enghreifftiau o droseddau cytundebol.

Mae'r tabl isod yn crynhoi gwerth nominal portffolio buddsoddi'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

		Sgôr Tymor Hir ar adeg Buddsoddi	Sgôr Tymor Hir ar 31/03/2015	Balans a fuddsoddwyd ar 31/03/2015 £000	Dyddiad Ad-dalu			
					0-3 Mis £000	4-6 Mis £000	7-9 Mis £000	10-12 Mis £000
Banciau'r DU	Bank of Scotland	A+	A+	4,000	4,000			
	NatWest	BBB+	BBB+	3,000	3,000			
	Close Brothers	A	A	5,000	5,000			
	Cyfanswm			12,000	12,000			

Diffiniad		
Graddau Tymor Hir	AA	Ansawdd Credyd Uchel iawn Disgwyliad o risg credyd isel iawn. Gallu cryf iawn i dalu ymrwymadau ariannol, sydd ddim yn agored yn sylweddol i ddigwyddiadau rhagweladwy.
	A	Ansawdd Credyd Uchel Disgwyliad o risg credyd isel. Gallu cryf i dalu ymrwymadau ariannol, a all fod yn fwy agored i amodau busnes neu economaidd anffafriol nag sy'n wir ar gyfer graddau uwch.
	BBB	Ansawdd Credyd Da Disgwyliad o risg credyd isel ar hyn o bryd. Gallu digonol i dalu ymrwymadau ariannol, ond mae amodau busnes neu economaidd anffafriol yn fwy tebygol o effeithio ar y gallu hwn.

Risg Hylifedd

Mae gan y Cyngor fynediad at gyfleusterau benthyca gan y Bwrdd Benthyca Gwaith Cyhoeddus (PWLB). Does dim risg yn cael ei adnabod na fydd y Cyngor yn gallu dod o hyd i'r arian i dalu ei ymrwymadau. Mae'r Cyngor hefyd yn gorfod rheoli'r risg na fydd yn agored i ailgyflenwi cyfran helaeth o'r arian a fenthycwyd ar adeg pan mae cyfraddau llog yn anffafriol.

Roedd dadansoddiad aeddfedrwydd dyled PWLB y Cyngor ar 31 Mawrth 2016 fel a ganlyn:

	Blynyddoedd	31 Mawrth 2015 £000	31 Mawrth 2016 £000	%
Benthyciadau Tymor Byr	Llai na 1 blwyddyn	(3,652)	(5,440)	2.86
Benthyciadau Tymor Hir	Dros 1 dan 6	(17,326)	(22,687)	11.93
	Dros 6 dan 10	(10,957)	(11,685)	6.14
	Dros 10 dan 15	(10,891)	(10,453)	5.50
	Dros 15 dan 20	(6,719)	(22,729)	11.95
	Dros 20 dan 25	(1,277)	(23,221)	12.21
	Dros 25 dan 30	(6,000)	(6,000)	3.16
	Dros 30 dan 35	0	0	0
	Dros 35 dan 40	(24,250)	(62,130)	32.67
	Dros 40 dan 45	(58,700)	(25,820)	13.58
	Dros 45 dan 50	(5,000)	0	0
Cyfanswm Benthyca Tymor Hir		(141,120)	(184,725)	97.14
Cyfanswm Benthyca ar Swm Nominal		(144,772)	(190,165)	100.00
Llog a Gronnwyd		(1,450)	(1,476)	
Premiwm a Ohiriwyd		974	965	
Cyfanswm Benthyca ar Gost Amorteiddio		(145,248)	(190,676)	

Risg Marchnad

(1) Risg Cyfradd Llog:

Mae'r Cyngor yn agored i risgiau sy'n deillio o symudiadau yn y cyfraddau llog. Nod y Strategaeth Rheoli Trysorlys yw lliniaru'r risgiau hyn trwy osod terfyn uchaf o 40% ar ddyled allanol a all fod yn destun cyfraddau llog amrywiol. Ar 31 Mawrth 2015 a 31 Mawrth 2016, roedd 100% o'r portffolio dyledion mewn offerynnau cyfradd sefydlog.

Mae buddsoddiadau hefyd yn amodol ar symudiadau mewn cyfraddau llog. Oherwydd bod buddsoddiadau yn cael eu gwneud ar gyfraddau sefydlog, ond ar gyfer cyfnodau amser byrrach, maent yn fwy agored i symudiadau cyfraddau llog. Mae'n rhaid cydbwysu'r risg yn erbyn y camau gweithredu a gymerwyd i liniaru'r risg credyd.

(2) Risg pris:

Nid yw'r Cyngor yn buddsoddi mewn cyfranddaliadau ecwiti ac felly ni fydd unrhyw risg prisiau (h.y. y risg y bydd y Cyngor yn dioddef colled o ganlyniad i symudiadau anffafriol ym mhrys yr offerynnau ariannol).

(3) Risg cyfnewid tramor

Nid oes gan y Cyngor unrhyw asedau na dyledion ariannol mewn arian tramor. Felly, nid yw'n agored i risg o golli arian o ganlyniad i symudiadau anffafriol yn y cyfraddau cyfnewid.

42. Asedau Treftadaeth

Cysoni Gwerth Asedau Treftadaeth sydd gan yr Awdurdod.

	Cofeb Hynafol Cofrestredig £000	Plas Newydd £000	Carchar Rhuthun £000	Nant Clwyd Y Dre £000	Cyfanswm Asedau Treftadaeth £000
Cost neu Brisiad 1 Ebrill 2015	361	1,138	4,525	2,999	9,023
Ychwanegiadau	0	0	0	37	37
Colledion Amhariad a gydnabyddir yn y Gronfa					
Adbriso Wrth Gefn	0	0	0	(37)	(37)
Dibrisiadau	0	(8)	(32)	(15)	(55)
31 Mawrth 2016	361	1,130	4,493	2,984	8,968

	Cofeb Hynafol Cofrestredig £000	Plas Newydd £000	Carchar Rhuthun £000	Nant Clwyd Y Dre £000	Cyfanswm Asedau Treftadaeth £000
Cost neu Brisiad 1 Ebrill 2014	361	1,146	4,557	3,014	9,078
Dibrisiadau	0	(8)	(32)	(15)	(55)
31 Mawrth 2015	361	1,138	4,525	2,999	9,023

Cofebion Hynafol Cofrestredig

Mae Castell Dinas Bran yn gastell canoloesol sy'n sefyll yn uchel ar fryn uwchben tref Llangollen. Mae hefyd yn safle bryngaer o'r Oes Haearn. Mae wedi'i brisio yn ôl ei gost. Mae Archeolegwyr y Sir wedi dosbarthu cofebion rhestredig eraill ac adeiladau rhestredig fel asedau treftadaeth ond nid oes gwerth ariannol wedi'i neilltuo ar gyfer y rhain. Maent yn cynnwys Tŵr Jiwbilî, Moel Fenlli, Moel y Gaer Llanbedr, Caer Drewyn, Tŷ Baddon Rufeinig Prestatyn. Gellir cael rhagor o wybodaeth gan Archeolegydd y Sir.

Regalia Dinesig

Nid yw Regalia Dinesig wedi'i gynnwys ar y fantolen eto oherwydd bod angen rhagor o wybodaeth. Credir bod y rhan fwyaf o'r Regalia Dinesig yn berchen i'r Cyngorau Tref unigol.

Adeiladau Treftadaeth

Mae gan Sir Ddinbych yr adeiladau treftadaeth a ganlyn. Adbrisiwyd yr adeiladau yn 2013/14 fel rhan o raglen adbrisio flynyddol. Nid oes prisiad, ar hyn o bryd, ar gyfer yr arteffactau a gedwir yn yr adeiladau.

Plas Newydd – Adeilad Gradd 2 a Thirwedd Rhestredig*

Mae Plas Newydd yn eiddo dau lawr ar wahân sydd wedi'i adeiladu gyda ffrâm bren a drychiadau brics a charreg wedi'u rendro a'u paentio. Mae gan yr amgueddfa tua 400 o arteffactau gan gynnwys dodrefn, eitemau cymdeithasol a domestig (llyfrau, medalau, cerameg a gwisgoedd), effemera a chasgliadau amrywiol.

*Carchar Rhuthun – Carchar Fictoraidd Gradd 2**

Caeodd Carchar Rhuthun fel carchar yn 1916. Prynodd y Cyngor Sir yr adeiladau yn 1926 a'u defnyddio ar gyfer swyddfeydd, archifau'r sir a llyfrgell y dref. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, defnyddiwyd adeiladau'r carchar fel ffatri arfau, cyn ei dychwelyd i'r Cyngor Sir fel pencadlys Gwasanaeth Llyfrgell Sir Ddinbych. Yn 2002, ailwampiodd y carchar yn helaeth a'i ailagor fel amgueddfa. Mae rhai o'r eitemau yn y casgliad yn rhannau annatod o'r adeilad, fel y baddonau carreg, ac mae eraill yn eitemau 2D a 3D sy'n ymwneud â hanes y carchar. Mae hefyd eitemau sy'n cael eu benthyg gan y Galerïau Cyfiawnder yn Nottingham.

Nant Clwyd Y Dre – Adeilad Graddfa 1 a Gerddi Rhestredig*

Prynwyd yr eiddo gan Gyngor Sir Clwyd yn 1984. Roedd yn adfail ond roedd rhaglen i adnewyddu a diogelu'r rhannau allanol a gwblhawyd yng nghanol y 1990au. Cafodd yr eiddo ei adnewyddu yn llawn a'i agor i'r cyhoedd ym mis Mehefin 2007 fel amgueddfa oherwydd ei deilyngdod hanesyddol.

Mae'r eiddo yn cynnwys Tŷ 14eg Ganrif a ehangwyd yn helaeth. Mae'r eiddo yn strwythur rhestredig gradd 1 gyda gardd hanesyddol cofrestredig, gazebo rhestredig gradd 1 a waliau gardd rhestredig. Mae'r mwyafrif o'r eitemau sy'n cael eu harddangos yn atgynhyrchiadau neu o ffynhonnell anhysbys y tu allan i Sir Ddinbych.

Casgliadau Gwasanaeth Treftadaeth Sir Ddinbych

Mae'r casgliad yn dyddio o'r 1960au pan, cyn bodolaeth gwasanaeth amgueddfa neu dreftadaeth, roedd deunydd yn cael ei gasglu gan amryw o adrannau o'r hen awdurdodau lleol. Mae tua 10,000 o wrthrychau yn y casgliad gan gynnwys hanes cymdeithasol a diwydiannol, archif a deunydd archeolegol.

Amgueddfeydd

Mae tua 1,000 o eitemau yn gysylltiedig â'r hen amgueddfa yn Ninbych a tua 3,000 o eitemau unigol yn gysylltiedig ag Amgueddfa'r Rhyl.

Asedau Treftadaeth Anniriaethol

Mae rhai cofnodion hanesyddol yn cael eu cadw yn Swyddfa Cofnodion Sir Ddinbych, ond mae angen ymchwil pellach ar gyfer perchnogaeth rhai o'r cofnodion.

Arall

Nodwyd fod fan Ysgol Uchradd yn Sir Ddinbych lun gan yr arlunydd Tirlun Cymreig, Syr John "Kiffin" Williams. Amcangyfrif ir ei fod yn werth rhwng £15,000 - £20,000.

Prisio

Mae'r Gwasanaeth Treftadaeth wedi nodi bod angen prosiect mawr i adolygu'r casgliad. Nes y bydd yr adolygiad hwn wedi'i gwblhau nid oes gwybodaeth union ar gael ynglŷn â gwerth y casgliad.

Rheoli Casgliadau

Mae rheoli casgliadau yn cael ei arwain gan y Cynllun Achrediadau a Strategaeth Amgueddfeydd Cymru. Mae casgliadau treftadaeth teithiol y Sir yn cael eu cadw yn Storfa'r Sir yn Rhuthun. Mae'r rhain yn cynnwys casgliadau archeolegol (fel canfyddiadau Rhufeinig o Faddondy Prestatyn a chasgliadau canoloesol o Gastell Rhuddlan), casgliadau sy'n gysylltiedig â Merched Llangollen, sawl cadair Eisteddfod a chasgliadau hanes cymdeithasol yn ymwneud â'r sir gyfan. Ar hyn o bryd does dim aelod penodol o staff sy'n gyfrifol am ofaulu am casgliadau yn Sir Ddinbych; yn lle hynny, mae'r Gwasanaeth Treftadaeth yn contractio allan gofal curadurol am y casgliadau i Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan, er mwyn bodloni gofynion Achredu Amgueddfeydd.

Benthyciadau

Bydd nifer o eitemau yn cael eu benthycu i ac o'r Gwasanaeth Treftadaeth. Mae gan Plas Newydd ddodrefn sy'n cael ei fenthycu gan Amgueddfa Cenedlaethol Cymru ac mae'r rhain wedi'u cynnwys ym mholisi yswiriant Sir Ddinbych. Bydd cofrestr fenthyciadau yn cael ei chadw ym mhrif swyddfa'r amgueddfa.

Caffael a Gwerthu

Mae gan y Gwasanaeth Treftadaeth "Lyfryn Dogfennau a Threfnau Amgueddfa", yn ogystal â'r polisïau eraill a nodwyd uchod, ac mae hwn yn nodi'r trefnau ar gyfer caffael a gwerthu eitemau. Dylai bod gan bob eitem rif unigryw a manylion perchnogaeth a'r math o eitem. Pan fydd eitem yn cael ei dderbyn bydd yr eitem yn rhan swyddogol o gasgliad yr amgueddfa.

Adran 4: Datganiadau Atodol

A

Nodiadau Ynglŷn Â'r Datganiadau Atodol

Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai

2014/15 £000		Nodyn	2015/16 £000
	Gwariant		
2,902	Trwsio a chynnal		3,009
2,337	Goruchwyllo a rheoli		2,190
14	Rhenti, cyfraddau, trethu a ffioedd eraill		15
3,219	Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai Negyddol yn daladwy		0
0	Taliad Setliad i Lywodraeth Cymru		40,045
9,758	Dibrisiant ac amhariad ar asedau anghyfredol	5	14,329
19	Costau rheoli dyledion		40
54	Symudiad mewn darpariaeth dyledion drwg		(10)
18,303	Cyfanswm Gwariant		59,618
	Incwm		
(12,932)	Rhenti anheddau (Gros)		(13,225)
(160)	Rhenti nad ydynt ar gyfer anheddau (Gros)		(167)
(13,092)	Cyfanswm incwm		(13,392)
	Gwariant net Gwasanaethau y Cyfrif Refeniw Tai fel sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		
5,211			46,226
46	Cyfran y Cyfrif Refeniw Tai o'r Craidd Corfforaethol a Democrataidd		58
5,257	Gwariant Net y Gwasanaethau Cyfrif Refeniw Tai		46,284
	Cyfran y Cyfrif Refeniw Tai o'r incwm a gwariant sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		
9	Costau Gweinyddu Pensiwn		9
1,375	Llog yn daladwy a thaliadau tebyg		3,385
(6)	Incwm llog a buddsoddiadau		(15)
213	Llog net ar y rhwymedigaeth buddiannau net diffiniedig (ased)	6	212
(2,410)	Grantiau cyfalaf a chyfraniadau eraill a gafwyd		(2,411)
4,438	(Gweddill) neu ddiffyg ar gyfer y flwyddyn ar wasanaethau Cyfrif Refeniw Tai		47,464

Symudiadau'r Datganiad Cyfrif Refeniw Tai

2014/15 £000		2015/16 £000	
(1,287)	Balans y Cyfrif Refeniw Tai ar 1 Ebrill		(1,852)
4,438	(Gweddill) neu ddiffyg ar gyfer y flwyddyn ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cyfrif Refeniw Tai.	47,464	
(5,083)	Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Ariannu dan y Rheoliadau (gweler isod)	(48,312)	
(645)	(Cynnydd) neu leihad net cyn trosglwyddo i neu o'r cronfeydd wrth gefn		(848)
80	Trosglwyddiadau i neu (o'r) cronfeydd wrth gefn		96
(565)	(Cynnydd) neu leihad yn y flwyddyn ar y Cyfrif Refeniw Tai		(752)
(1,852)	Balans y Cyfrif Refeniw Tai ar 31 Mawrth		(2,604)

	<u>Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail ariannu dan y Rheoliadau:</u>		
	Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf		
	<u>Gwrthdroad eitemau sydd wedi eu debydu a'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</u>		
(9,758)	Y tâl a godir am ddibrisiant ac amhariad ar asedau anghyfredol		(14,329)
0	Taliad Setliad Tai		(40,045)
2,410	Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a gymhwyswyd		2,411
0	Gwariant Refeniw a Ariennir o Gyfalaf Trwy Statud		0
(254)	Symiau'r asedau nad ydynt yn gyfredol a ddiddymwyd wrth waredu neu werthu fel rhan o'r enillion/colledion wrth waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		(585)
	<u>Cynnwys eitemau nad ydynt wedi eu debydu na'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</u>		
1,620	Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiadau cyfalaf		2,474
813	Gwariant Cyfalaf y codir tâl yn erbyn Balansau'r Cyfrif Refeniw Tai		1,405
	Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Derbyniadau Cyfalaf		
254	Trosglwyddiad enillion gwerthiannau arian parod a gredydwyd fel rhan o'r enillion/colledion wrth waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cyfrif Refeniw Tai		585
	Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol		
8	Y swm sy'n gwahaniaethu rhwng costau ariannu y codir tâl amdanynt i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r costau ariannu y codir tâl amdanynt yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol.		4
	Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Bensiynau		
(577)	Gwrthdroad eitemau mewn perthynas â buddiannau ymddeol sydd wedi eu debydu a'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cyfrif Refeniw Tai.		(665)
413	Cyfraniadau pensiwn gweithiwr yn daladwy yn y flwyddyn		427
	Addasiadau'n cynnwys y Cyfrif Absenoldeb Cronnol		
(12)	Y swm sy'n gwahaniaethu rhwng tâl swyddogion y codir amdanynt i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cyfrif Refeniw Tai ar sail gronnus, a'r tâl y codir amdanynt yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol.		6
(5,083)	Cyfanswm yr addasiadau		(48,312)

Nodiadau ynglŷn â'r Datganiadau Atodol**1. Stoc Tai**

Roedd cyfanswm stoc tai y Cyngor fel a ganlyn:

2014/15 Nifer yr Eiddo		2015/16 Nifer yr Eiddo
1,837	Tai	1,827
973	Fflatiau	972
618	Byngalos	616
3,428	Cyfanswm	3,415

Yn ystod y flwyddyn, gwerthwyd wyth adeilad dan y Cynllun Hawl i Brynu. Cafodd chwech eu hail-enwi ac enillwyd un adeilad ychwanegol drwy rannu adeilad presennol yn ddau.

2. Ôl-ddyledion Rhent

Ar 31 Mawrth 2016, roedd ôl-ddyledion rhent y tenantiaid yn £334k, (£338k ar 31 Mawrth 2015) sy'n cynrychioli 2.53% o'r incwm net rhent sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn. Dilëwyd cyfanswm ôl-ddyledion o £80k yn ystod y flwyddyn. Gwnaethpwyd gostyngiad i'r ddarpariaeth Dyledion Drwg ac Amheus o £10k yn ystod y flwyddyn a'r balans ar ddiwedd y flwyddyn yw £226k.

3. Derbyniadau Cyfalaf

Mae derbyniadau cyfalaf y cyfrif refeniw tai ar gyfer 2015/16 wedi'u crynhoi isod:

2014/15 £000	Derbyniadau Tai	2015/16 £000
254	Gwerthiannau – Cynllun Hawl i Brynu	585
0	Gwerthiannau - Tir	0
0	Gostyngiadau a ad-dalwyd	0
1	Morgeisi	0
255	Cyfanswm Derbyniadau	585

4. Dadansoddiad Gwariant Cyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai

Yn ystod 2015/16, roedd gwariant cyfalaf o £3,962k ar welliannau i stoc tai y Cyngor. Mae'r cyfanswm gwariant cyfalaf wedi'i ariannu gan tair ffynhonnell: Y Lwfans Gwaith Trwsio Mawr (grant y llywodraeth), derbyniadau cyfalaf (o'r cynllun 'Hawl i Brynu') a cyfraniadau refeniw Uniongyrchol y Cyfrif Refeniw Tai fel y nodwyd yn y tabl drosodd.

2014/15 £000	Gwariant Cyfalaf Tai	2015/16 £000
70	Rheoli Ansawdd Perfformiad – Prosiect TG	54
3,515	Cynlluniau Gwella	3,908
3,585	Gwariant yn y Flwyddyn	3,962
	<i>Wedi'i ariannu gan:</i>	
2,410	Lwfans Gwaith Trwsio Mawr (Grant)	2,411
64	Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiol	146
- Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol ac Arweinydd y Cyngor wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd strategol ac ymweliadau â busnesau allweddol ledled y sir. Mae'r Arweinydd wedi ymweld hefyd â nifer o fusnesau yng nghanol trefi i ddangos ein hymrwymiad i gefnogi busnesau a chasglu adborth am feysydd i'w gwella yn y dyfodol.
- Cafwyd mwy o lawer o gysylltu drwy ddulliau electronig ar ôl dechrau ffrwd Twitter a sefydlu gwefan blogio i gyfathrebu â busnesau mewn gwahanol ffyrdd. Mae deunydd y Cyngor ar y we ar gyfer busnesau wedi gwella drwy gydweithio â gwasanaethau eraill y Cyngor ac mae astudiaethau achos ar ffurf clipiau fideo wedi'u lansio drwy wefan blogio'r rhaglen Uchelgais Economaidd a Chymunedol er mwyn hybu prosiect Sir Ddinbych Ddigidol i gymell busnesau i fanteisio ar bosibiliadau band eang cyflym iawn.
- Rydym wedi rhoi system newydd ar waith i wella ein cronfa ddata o gysylltiadau â chwmnïau ac rydym yn ymchwilio i ffyrdd o amlhau'r defnydd ohoni. Rydym wedi'i defnyddio i hysbysu busnesau'n rheolaidd am ein digwyddiadau a mentrau ni a'r rheini a ddarperir gan sefydliadau eraill sy'n cynnig cymorth. Defnyddiwyd y system hefyd i gynnal a meithrin cysylltiadau mwy cynhyrchiol â busnesau allweddol.
- Erbyn hyn mae busnesau'n cymryd rhan yn ein prosiect 'Gwell Busnes i Bawb' drwy rith-grŵp o randdeiliaid sy'n fwy addas i anghenion y busnesau hyn. Rydym yn ystyried ymestyn y dull hwn o weithredu i wasanaethau eraill sy'n ymgysylltu â busnesau yn eu gwaith pob dydd.
- Rydym wedi cyflwyno proses symlach i hybu buddsoddi ar gyfer busnesau sy'n ystyried symud i'r sir neu ehangu yn y sir yn ogystal â Phecyn Cymorth Buddsoddi i helpu swyddogion i ddelio'n fwy effeithiol ag ymholiadau o'r fath. Yn yr adborth cyntaf a gafwyd, mae buddsoddwyr yn dweud bod y profiad yn un cadarnhaol iawn.
- Rydym wedi sefydlu cynllun grantiau datblygu i fusnesau bach sy'n cychwyn neu'n tyfu. Cafwyd croeso i'r cynllun ac mae nifer o fusnesau wedi mynegi diddordeb.

...rydym yn cyflawni ein cyfrifoldeb at ein staff mewn ffordd weithgar a chynlluniedig

Mae ein gweithdrefnau chwythu'r chwiban yn sicrhau bod cyflogeion yn gallu codi materion sy'n peri pryder yn rhydd gyda phobl a chyrrff o bob math. Adolygwyd y weithdrefn hon yn ddiweddar a bydd yn cael ei lansio yn y misoedd nesaf.

Mae gennym nifer o offer (polisiau, gweithdrefnau, cynllunio gweithlu; cyfarfodydd un i un) i'n helpu i reoli ein hadnoddau staffio mewn ffordd effeithiol, gyson a theg. Rydym hefyd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i sicrhau ein bod yn cynnwys ein cyflogeion a'u cynrychiolwyr mewn penderfyniadau. Byddwn yn cynnal arolygon o staff yn rheolaidd, ac roedd y gyfradd ymateb i arolwg 2015 wedi codi i 49% o'i

chymharu â'r gyfradd ymateb o 44.6% i arolwg 2013. Mae effeithiau'r toriadau ariannol a'r ailstrwythuro a moderneiddio cysylltiedig yn amlwg, ac mae'r ymateb i rai cwestiynau'n is o lawer na'r canlyniadau ar gyfer 2013. Yr ymatebion mwyaf trawiadol o bosibl yw'r rhai i gwestiynau allweddol am ymgysylltu â chyflogeion, er bod y canlyniadau'n weddol dda o hyd. Roedd yr arolwg yn dangos:

- bod llai o gyflogeion (76%) yn falch o weithio i'r Cyngor o'i gymharu â 83% yn 2013;
- bod llai o gyflogeion (83%) yn fodlon ar y Cyngor fel cyflogwr o'i gymharu ag 88% yn 2013;
- bod mwy na 90% o gyflogeion yn dweud eu bod yn mwynhau eu gwaith, yn gwybod beth a ddisgwylir ganddynt ac yn cyd-dynnu'n dda â'u cydweithwyr;
- bod y trefniadau ar gyfer rheoli newid wedi gwella, ond bod lle i wella eto o bosibl, gan mai dim ond 61% sy'n teimlo ein bod yn cynllunio ac yn cyflawni newidiadau'n dda;
- bod yr ymateb ar gyfathrebu yr un fath, gan mai dim ond 64% sy'n teimlo eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am yr hyn sy'n mynd ymlaen yn eu gwasanaeth.

Mae rhai negeseuon cymysg yn codi o'r arolwg mewn perthynas â chyfathrebu, ac mae'n bosibl y bydd angen rhoi sylw i hyn. Ar y llaw arall, mae canran y rheini sy'n teimlo eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am yr hyn sy'n mynd ymlaen ar draws y Cyngor wedi gwella, fel y mae'r ganran sy'n cyrchu ac yn darllen y Penawdau / neges y Prif Weithredwr, ond mae gostyngiad yn y nifer sy'n teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn ymgynghori ar faterion allweddol ac yn y nifer sy'n credu y bydd uwch-reolwyr yn gweithredu ar sail canlyniadau'r arolwg. Mae canlyniadau'r cwestiynau ynghylch y weledigaeth gorfforaethol ar gyfer y dyfodol a'r hyder yng ngalluoedd y tîm arwain corfforaethol yn awgrymu o bosibl nad yw rhai negeseuon allweddol yn cael eu trosglwyddo.

Materion pwysig ym maes llywodraethu

Nid oes unrhyw faterion o bwys ym maes llywodraethu i'w cofnodi y flwyddyn hon.

Mae'r ddau fater pwysig ym maes llywodraethu a nodwyd y flwyddyn ddiwethaf mewn perthynas â darparwyr gwasanaethau amgen a chaffael corfforaethol wedi derbyn sylw bellach, er bod y ddau fater wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu yn Atodiad 1 er mwyn monitro'r camau gweithredu a sicrhau gwelliant parhaus.

Mae unrhyw faterion llai pwysig a nodwyd yn ein hunanasesiad wedi'u cynnwys hefyd yn y Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu sy'n cael ei fonitro gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Rydym yn bwriadu cymryd camau yn y flwyddyn i ddod i ddelio â'r materion a nodwyd yn ein Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym wedi ein bodloni y bydd y camau hyn yn ateb yr angen am welliannau a nodwyd yn ein hadolygiad o effeithiolrwydd a byddwn yn monitro'r gweithredu arnynt yn ein hadolygiad blynyddol nesaf.

Llofnod: (Arweinydd)2016

Llofnod: (Prif Weithredwr)2016

Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu

Maes i'w wella	Cam gweithredu	Cyfrifoldeb	Cyfnod
Darparwyr Gwasanaethau Amgen			
Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith ar gyfer yr holl wasanaethau allweddol a ddarperir gan ddarparwyr gwasanaethau amgen yn unol â'i fframwaith monitro newydd.	<p>Adolygir y gwasanaeth refeniw a budd-daliadau bob blwyddyn drwy waith y gwasanaeth Archwilio Mewnol ar sicrwydd ariannol. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o drefniadau llywodraethu.</p> <p>Adolygir trefniadau gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn Chwarter 1 2016/17.</p> <p>Bydd yr agweddau gwerth am arian yn nhrefniadau GwE yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Mae hyn yn digwydd yn awr ar gyfer 2015/16 ac mae wedi'i amserlennu ar gyfer Chwarter 4 2016/17.</p>	Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol	<p>Hydref 2016 ac yn flynyddol ar ôl hynny</p> <p>Erbyn 30 Mehefin 2016</p> <p>Yn mynd ymlaen ar gyfer 2015/16 ac yn flynyddol wedyn</p>
Perfformiad			
Mae angen i'r Cyngor gyflawni cynllun gweithredu ei Strategaeth Dai er mwyn gwella'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy yn y sir.	Mae adolygiad y tîm Archwilio Mewnol o'r cyflawni ar gynllun gweithredu'r Strategaeth Dai wedi'i amserlennu ar gyfer Chwarter 3 2015/16 er mwyn asesu cynnydd.	Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol	Erbyn 31 Rhagfyr 2016

Maes i'w wella	Cam gweithredu	Cyfrifoldeb	Cyfnod
<p>Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar gydnerthedd ariannol wedi nodi bod angen i'r Cyngor gryfhau ei ddull o gynhyrchu incwm.</p>	<p>Er bod ffioedd a thaliadau gwasanaeth wedi'u hystyried mewn cylchoedd cyllideb blaenorol, mae'r broses ddiwygiedig ar gyfer 2017/18 yn cynnwys mwy o lawer o ddadansoddi ar ffrydiau incwm gwasanaeth, gan gynnwys y taliadau unigol, y cyfanswm a godwyd, y cyfnod adolygu, etc. Bydd y data gwasanaeth hyn yn sail i gofrestr gorfforaethol o'r holl ffioedd a thaliadau.</p> <p>Mae'r broses gyllideb ar gyfer 2017/18 wedi dechrau ac mae'r data gwasanaeth yn cael eu dosbarthu ac fe'u hasesir ym mis Mehefin. Cyflwynir y canlyniadau cyntaf i aelodau etholedig ym mis Gorffennaf. Rydym yn gobeithio defnyddio'r data meincnodi cenedlaethol a gasglwyd yn ddiweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru yn y broses asesu. Byddai dadl wedyn ar unrhyw benderfyniadau ynghylch ffioedd a thaliadau a'u heffaith yn cael ei hasesu ym mhroses y gyllideb gorfforaethol.</p> <p>Felly, erbyn diwedd Chwefror 2017 (h.y. diwedd proses y gyllideb), bydd y Cyngor wedi mabwysiadu dull cryfach o ddelio â ffioedd a thaliadau.</p>	<p>Prif Swyddog Cyllid</p>	<p>Chwefror 2017</p>
Cyfansoddiad			
<p>Mae angen cwblhau'r adolygiad o Gyfansoddiad y Cyngor, er mwyn cynnwys cynllun dirprwyo newydd ar ôl ailstrwythuro gwasanaethau.</p>	<p>Cwblhau'r adolygiad a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, ac wedyn i'r Cyngor i'w gymeradwyo.</p>	<p>Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democraidd ac Adnoddau Dynol</p>	<p>Gorffennaf 2016</p>

Maes i'w wella	Cam gweithredu	Cyfrifoldeb	Cyfnod
Fframwaith Polisi			
<p>Mae angen cwblhau'r adolygiad o bolisi gwrth-dwyll a llygredd y Cyngor a'i lansio i hybu ymwybyddiaeth ym mhob rhan o'r sefydliad.</p>	<p>Cwblhau'r adolygiad a'i gyflwyno i'r Tîm Gweithredu Corfforaethol a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Ei gymeradwyo'n derfynol gan y Cabinet.</p>	<p>Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democraidaidd ac Adnoddau Dynol</p>	<p>Gorffennaf 2016</p>
Trefniadau Craffu			
<p>Mae presenoldeb aelodau etholedig yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu wedi gostwng yn sylweddol.</p>	<p>Rydym wedi cytuno â'r Cyngor i sefydlu gweithgor o aelodau etholedig i edrych ar amseroedd a lleoliadau'r pwyllgorau. Rydym hefyd yn ystyried rhai newidiadau cyfansoddiadol eraill, fel dileu'r cyfyngiad ar aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol rhag bod yn aelodau o bwyllgorau craffu eraill, rhyddhau'r Is-gadeirydd i fod yn aelod o bwyllgorau heblaw'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a'r mater o ganiatáu dirprwyon mewn cyfarfodydd.</p> <p>Mae pwnc presenoldeb wedi'i godi nifer o weithiau gydag arweinwyr y grwpiau, ac mae cadeiryddion pwyllgorau wedi'u hannog i hyrwyddo presenoldeb yn eu cyfarfodydd.</p>	<p>Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democraidaidd ac Adnoddau Dynol</p>	<p>Gwaith yn mynd ymlaen a bydd yn parhau drwy gydol 2016/17</p>

Maes i'w wella	Cam gweithredu	Cyfrifoldeb	Cyfnod
Ymgysylltu â Rhanddeiliaid			
<p>Cafwyd cyfradd ymateb wael i Arolwg o Breswylwyr 2015. Ar 31 Mawrth 2016, nid oedd y canlyniadau eto wedi'u cwblhau a'u cyhoeddi na'r camau nesaf wedi'u cytuno i ymateb i faterion a oedd wedi codi.</p>	<p>Mae'r canlyniadau wedi'u coladu a'u dadansoddi bellach. Mae adroddiad cryno i'w gyflwyno i Frifio'r Cabinet ym Mai 2016 ac wedyn i Bwyllgor Craffu. Sefydlwyd yr arolwg hwn i ategu'r Cynllun Corfforaethol presennol, sydd yn ei flwyddyn olaf. Bydd swyddogion yn cwrdd cyn hir i ddatblygu strategaeth ymgysylltu ehangach a fydd yn rhoi gwell gwybodaeth am bryderon preswylwyr. Bydd hyn yn cyfrannu i'r cynllun corfforaethol newydd ac yn helpu i ddatblygu cynllun lles nesaf y sector cyhoeddus.</p>	<p>Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata</p>	<p>Tachwedd 2016</p>

Maes i'w wella	Cam gweithredu	Cyfrifoldeb	Cyfnod
Caffael			
<p>Gan fod y Cyngor bellach wedi cymeradwyo Strategaeth Gaffael a Rheolau Gweithdrefnau Contract (RhGCau) newydd, mae angen iddo sicrhau bod gwasanaethau'n eu mabwysiadu ac yn cydymffurfio â nhw.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cynhelir sesiynau hyfforddi ar y Strategaeth Gaffael a'r RhGCau newydd a byddant yn parhau tra bydd galw amdanynt. • Datblygu set o fesuryddion perfformiad a chamau gwella i'w chynnwys yng nghynllun gwasanaeth Cyfleusterau, Asedau a Thai 2016/17, er mwyn mesur cynnydd ar weithredu'r strategaeth a chydymffurfio â'r RhGCau. • Ailstrwythuro'r tîm caffael corfforaethol i sicrhau ei fod wedi'i drefnu mewn ffordd a fydd yn creu'r gallu a'r galluogrwydd sydd eu hangen i gyflawni'r strategaeth a chymhwyso'r RhGCau. • Cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad er mwyn craffu ar y cynnydd a gafwyd ar weithredu'r strategaeth a gweld a yw holl wasanaethau'r Cyngor yn cymhwyso'r RhGCau newydd . • Llunio adroddiad blynyddol yn disgrifio'r perfformiad ar sail y mesurau a gytunwyd. • Bydd adolygiad y tîm Archwilio Mewnol yn cynnwys asesiad o gydymffurfiaeth â'r strategaeth a'r RhGCau 	<p>Rheolwr Rhaglen - Caffael</p> <p>Rheolwr Rhaglen - Caffael</p> <p>Pennaeth Cyfleusterau, Asedau a Thai</p> <p>Rheolwr Rhaglen - Caffael</p> <p>Rheolwr Rhaglen - Caffael</p> <p>Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol</p>	<p>31 Rhagfyr 2016</p> <p>30 Mehefin 2016</p> <p>30 Medi 2016</p> <p>31 Rhagfyr 2016</p> <p>30 Mehefin 2016</p> <p>31 Mawrth 2017</p>

Adran 7: Geirfa

ADDASIAD BLWYDDYN FLAENOROL - Addasiadau materol sy'n ymwneud â blynyddoedd blaenorol sy'n deillio o newidiadau mewn polisiau cyfrifo neu o gywiro gwallau sylfaenol. Nid yw hyn yn cynnwys cywiriadau neu addasiadau dro ar ôl tro i'r rhagamcanion cyfrifo yn y blynyddoedd blaenorol.

ADENILLION A DDISGWYLIR AR ASED AU PENSIWN - Mewn cynllun â buddion diffiniedig wedi ei ariannu, dyma gyfradd gyfartalog yr adenillion a ddisgwylir yn ystod gweddill oes y rhwymedigaeth sy'n berthynol i'r asedau gwirioneddol sydd wedi eu dal gan y cynllun. Mae'n cynnwys incwm a newidiadau i werth teg ond mae'n net o dreuliau'r cynllun.

AMHARIAD - Gostyngiad yng ngwerth ased anghyfredol nes bod yn is na'r swm sydd i'w gario ar y fantolen. Gall amhariad fod o ganlyniad i dreuliant budd economaidd (amhariad budd economaidd) neu gwymp cyffredinol mewn prisiau.

AMORTEIDDIAD - Dileu dyled yn raddol, megis benthyciad, trwy wneud taliadau rheolaidd dros gyfnod penodedig o amser. Rhaid i daliadau o'r fath fod yn ddigonol i gyfarch y prifswm a'r llog.

ARCHWILIO CYFRIFON - Adolygiad annibynnol o faterion ariannol yr Awdurdod.

ARDRETHI ANNOMESTIG - Ardoll ar fusnesau yw Ardreth Annomestig, sy'n seiliedig ar gyfradd genedlaethol yn y bunt, a osodwyd gan y llywodraeth a'i lluosu â gwerth trethiannol asesedig yr eiddo y maent yn ei feddiannu. Fe'i cesglir gan y Cyngor ar ran llywodraeth ganolog ac yna caiff ei hailddosbarthu i gefnogi costau gwasanaethau.

ARIAN PAROD - Yn cynnwys arian parod mewn llaw ac adneuon ar gais.

ARIANNU CYFALAF - Cyllid y cafwyd gafael arno i dalu am wariant cyfalaf. Mae amryfal ffyrdd o ariannu gwariant cyfalaf gan gynnwys benthycia, prydlesu, ariannu refeniw uniongyrchol, derbynion cyfalaf y gellir eu defnyddio, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, cronfeydd refeniw wrth gefn a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

ASED - Eitem y mae iddi werth ariannol i'r awdurdod. Caiff asedau eu dosbarthu naill yn rhai cyfredol neu'n rhai anghyfredol.

- Bydd ased cyfredol yn cael ei defnyddio neu'n peidio â bod o unrhyw werth materol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf (e.e. arian parod a stoc);

- Bydd ased anghyfredol o fudd i'r Awdurdod ac i'r gwasanaeth y mae'n ei wasanaethu am gyfnod sy'n hwy na blwyddyn a gall fod yn ddiriaethol e.e. adeilad ysgol, neu'n anniriaethol, e.e. trwyddedau meddalwedd gyfrifiadurol.

ASED DIGWYDDIADOL - Ased tebygol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol yw ased digwyddiadol, na ellir cadarnhau ei fodolaeth ond trwy un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth yr Awdurdod.

ASEDAU ANNIRIAETHOL - Ased anariannol adnabyddadwy heb iddo unrhyw sylwedd ffisegol yw ased anniriaethol. Yr asedau anniriaethol y deuir o hyd iddynt amlaf o fewn awdurdodau lleol yw meddalwedd gyfrifiadurol.

ASEDAU CYMUNEDOL - Asedau y mae'r Cyngor yn bwriadu dal ei afael ynddynt am yr hir dymor, nad oes iddynt unrhyw oes ddefnyddiol benodadwy a gallai hynny gyfyngu ar sut y gellir eu gwaredu. Esiamplau o asedau cymunedol yw parciau ac adeiladau hanesyddol.

ASEDAU ISADEILEDD - Asedau anghyfredol sy'n perthyn i'r Cyngor na ellir eu trosglwyddo na'u gwerthu, na ellir ond adfer gwariant arnynt trwy wneud defnydd parhaus o'r ased a grëwyd. Mae priffyrdd, llwybrau a phontydd yn enghreifftiau.

BENTHYCA DROS DRO - Arian sy'n cael ei fenthig am gyfnod o lai na blwyddyn.

BENTHYCIAD MEDDAL - Benthyciad a wnaed yn ddi-log neu ar gyfradd is na chyfradd y farchnad, fel arfer oherwydd rhesymau polisi. Bydd benthyciadau o'r fath yn aml yn cael eu rhoi i unigolion neu sefydliadau y mae'r Cyngor yn credu sy'n dod â budd i'r boblogaeth leol.

BUDD-DALIADAU TAI - System o gymorth ariannol i unigolion tuag at rai costau tai penodol a weinyddir gan awdurdodau ac y derbynnir cymhorthdal ar ei gyfer gan Lywodraeth Ganolog.

BUDDIANNAU Â DISGRESIWN (PENSIYNAU) - Buddiannau ymddeoliad, nad oes gan y cyflogwr unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, gytundebol nac adeiladol i'w dyfarnu, ac a gânt eu dyfarnu'n ôl pwerau disgresiwn yr Awdurdod megis y Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddiannau, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007.

BUDDIANNAU GWEITHWYR - Pob ffurf o gydnabyddiaeth a roddir gan y Cyngor yn gyfnewid am wasanaeth a gyflawnwyd gan ei weithwyr.

BUDDION YMDDEOL - Pob mathau o ystyriaeth sy'n cael ei roi gan gyflogwr i'w cyfnewid am wasanaethau gan y gweithwyr sy'n daladwy ar ôl cwblhau'r gyflogaeth.

BUDDSODDIADAU (CRONFA BENSIWN) - Gwneir cyfrif o fuddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn yn y datganiadau ar gyfer y gronfa honno. Fodd bynnag, mae'n ofynnol hefyd ar i awdurdodau ddatgelu, fel rhan o'r datgeliadau sy'n ymwneud â buddiannau ymddeol, pa gyfran o asedau'r cynllun pensiwn sydd i'w priodoli sy'n gysylltiedig â'u rhwymedigaethau gwaelodol.

BUSNES GWEITHREDOL - Y cysyniad fod y Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi gan dybio y bydd y Cyngor yn parhau i fodoli'n weithredol yn y dyfodol rhagweladwy.

BWRDD BENTHYCA GWAITH CYHOEDDUS (PWLB) - Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n darparu benthyciadau am un flwyddyn a mwy i awdurdodau ar gyfraddau llog sydd ddim ond ychydig yn uwch na'r cyfraddau llog y gall y llywodraeth ei hun eu benthycia.

BYWYD ECONOMAIDD DEFNYDDIOL (UEL) - Y cyfnod lle bydd y Cyngor yn cael budd o ddefnyddio ased anghyfredol.

CIPFA - Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

COSTAU ADNEWYDDU DIBRISIEDIG - Dull prisio sy'n rhoi brasamcan gydnabyddedig o werth eiddo arbenigol ar y farchnad. Mae'n rhoi amcangyfrif o werth defnydd presennol y tir ar y farchnad, ynghyd â'r costau adnewyddu gros presennol ar gyfer yr adeilad a llai dirywiad materol yr ased o gymharu â'i gyflwr materol presennol.

COSTAU GWASANAETH BLAENOROL (PENSIYNAU) - Mewn cynllun pensiwn â buddion diffiniedig, y cynnydd yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn mewn perthynas â gwasanaeth gweithiwr mewn cyfnodau blaenorol sy'n codi yn y cyfnod presennol o ganlyniad i gyflwyno neu wella buddiannau ymddeol.

COSTAU GWASANAETH CYFREDOL (PENSIYNAU) - Y cynnydd yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn â buddion diffiniedig, sydd i'w disgwyl o ganlyniad i wasanaeth gweithwyr yn ystod y cyfnod presennol.

COSTAU HEB EU DOSBARTHU - Gorbenion yw'r rhain nad oes unrhyw ddefnyddiwr yn cael budd ohonynt bellach ac felly ni chânt eu dosrannu i wasanaethau.

COSTAU LLOG (PENSIYNAU) - Mewn cynllun â buddion diffiniedig, y cynnydd disgwylidig yn ystod y cyfnod yng ngwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun oherwydd bod y buddion yn nes o un cyfnod at y setliad.

CRAIDD CORFFORAETHOL A DEMOCRATAIDD - Mae'r craidd corfforaethol a democrataidd yn cynnwys pob gweithgaredd y mae awdurdodau lleol yn ymwneud â nhw yn benodol oherwydd eu bod yn awdurdodau etholedig, amlbwrpas. Mae costau'r gweithgareddau hyn felly yn ychwanegol at y costau y byddai rhes o gyrff annibynnol, un-pwrpas, a enwebwyd yn ei wario wrth reoli'r un gwasanaethau. Nid oes sail resymegol felly dros ddosrannu'r costau hyn i wasanaethau.

CREDYDWR - Swm sy'n ddyledus gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaethau a gyflenwyd o fewn y cyfnod cyfrifo, ond na wnaed taliad ar eu cyfer cyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

CRONFA YMDDIRIEDOLAETH - Arian sy'n cael ei weinyddu gan yr Awdurdod ar gyfer pwrpasau fel gwobrau, elusennau, prosiectau penodol, ac ar ran plant dan oed.

CRONFEYDD WRTH GEFN - Croniant arian dros ben, diffyg ariannol a neilltuad arian dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cronfeydd refeniw wrth gefn ar gael a gellir eu gwario neu eu clustnodi ar ddisgresiwn y Cyngor. Ni ellir defnyddio rhai cronfeydd cyfalaf fel y Gronfa Adbrisio Wrth Gefn i dalu'r gwariant presennol.

CRONIADAU - Symiau a gânt eu cynnwys yn y cyfrifon terfynol i gydnabod incwm a gwariant refeniw a chyfalaf a enillwyd neu a wariwyd yn ystod y flwyddyn ariannol, ond na dderbyniwyd neu na wnaed taliad gwirioneddol ar eu cyfer erbyn 31 Mawrth.

CYFNOD CYFRIFO - Y cyfnod amser y mae a wnelo'r cyfrifon ag o, sydd fel arfer yn gyfnod o ddeuddeg mis yn dechrau ar 1 Ebrill. Diwedd y cyfnod cyfrifo yw dyddiad y fantolen.

CYFRADD LLOG GWIRIONEDDOL - Dyma'r gyfradd llog sydd ei hangen i ddisgowntio amcangyfrif y llif yr arian prifswm a'r llog yn ystod oes ddisgwyliedig yr offeryn ariannol er mwyn bod yn hafal â swm y gydnabyddiaeth gychwynnol.

CYFRIF INCWM A GWARIANT - Cyfrif refeniw'r Cyngor sy'n adrodd am gostau net y flwyddyn ar gyfer y swyddogaethau y mae'n gyfrifol amdanynt, ac sy'n dangos sut mae'r costau hynny wedi cael eu hariannu o braeseptau, grantiau ac incwm arall.

CYFRIF REFENIW TAI (CRT) - Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys gwariant ac incwm sy'n deillio o'r ddarpariaeth tai a gynigir gan yr Awdurdod.

CYLLIDEB - Y refeniw net a'r gwariant cyfalaf rhagweladwy dros y cyfnod cyfrifo.

CYMHORTHDAL NEGYDDOL - Pe bai'r Cyfrif Cymhorthdal Refeniw Tai yn cynhyrchu canlyniad, sy'n tybio fod incwm y Cyngor yn uwch na'i wariant, byddai sefyllfa o 'Gymhorthdal Negyddol' yn digwydd. Pe digwydd hynny byddai'n rhaid i'r awdurdod dalu swm sy'n gyfwerth â'r gwaged tybiannol, o'i Gyfrif Refeniw Tai i'r Llywodraeth.

CYNLLUN ARIANNU PREIFAT(PFI) - Yn nodweddiadol, mae trefniadau PFI yn cynnwys endid sector preifat yn adeiladu neu'n gwella eiddo sy'n cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus, a gweithredu a chynnal yr eiddo hwnnw am gyfnod amser penodol ar ran y corff sector cyhoeddus. Bydd y corff sector cyhoeddus yn talu am gael defnyddio'r asedau a'r gwasanaethau cysylltiedig dros gyfnod y trefniant trwy daliad unedol.

CYNLLUN PENSIWN Â BUDDION DIFFINIEDIG - Cynlluniau pensiwn y mae'r buddion sy'n cael eu derbyn gan eu haelodau yn annibynnol ar y cyfraniadau a delir a heb fod yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r hyn sy'n cael ei fuddsoddi yn y cynllun.

CYWERTHOEDD ARIAN PAROD - Buddsoddiadau hynod hylifol, byr dymor, sy'n hawdd eu cyfnewid am symiau hysbys o arian parod ac sy'n amodol ar risg ansylweddol o unrhyw newid yn eu gwerth.

DARPARIAETH - Swm sy'n cael ei roi i un ochr yn y cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau neu golledion i'r dyfodol sy'n debygol neu'n debygol iawn o ddigwydd, ond mae'r symiau neu'r dyddiadau y byddant yn digwydd yn ansicr.

DERBYNIADAU CYFALAF - Yr incwm a wneir wrth waredu tir neu asedau anghyfredol eraill. Gellir defnyddio cyfran o dderbyniadau cyfalaf Tai i ariannu gwariant cyfalaf newydd, yn rhwym wrth reolau sydd wedi eu hamlinellu gan y Llywodraeth, ond ni ellir eu defnyddio i ariannu gwariant refeniw ar wahân i Wariant Refeniw a Ariennir o Gyfalaf Trwy Statud.

DIBRISANT - Mesuriad o gostau traul, defnydd neu ostyngiad arall yn oes economaidd ddefnyddiol asedau anghyfredol yr Awdurdod yn ystod y cyfnod cyfrifo, p'un ai bod hynny oherwydd defnydd, treigl amser, neu ddarfodiad o ganlyniad i newidiadau technolegol neu newidiadau eraill.

DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN - Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, boed ffafriol neu anffafriol, sy'n digwydd rhwng dyddiad y fantolen a'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon.

DULL RHAGAMCANU UNEDAU - Dull prisio buddion cronedig lle bydd y rhwymedigaethau cynllun pensiwn yn darparu ar gyfer rhagamcan enillion. Y buddion cronedig yw'r buddion ar gyfer gwasanaeth hyd at bwynt penodol mewn amser, dim ots a oes hawliau personol neu beidio.

DYLED - Dyled yw pan fo taliad yn ddyledus gan y Cyngor i unigolyn neu sefydliad arall.

- Mae dyled gyfredol yn swm a ddaw'n daladwy neu y gellid ei alw i mewn o fewn y cyfnod cyfrifo nesaf, e.e. credydwy'r neu ddyled arian parod.
- Dyled ohiriedig yw swm sydd, trwy drefniant, yn daladwy y tu hwnt i'r flwyddyn nesaf ar ryw adeg yn y dyfodol, neu sydd i'w ad-dalu gyda swm blynyddol dros gyfnod o amser.

DYLED DDIGWYDDIADOL - Gall dyled ddigwyddiadol fod naill ai:

- yn rhwymedigaeth ddichonadwy sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol, na ellir cadarnhau eu bodolaeth ond trwy un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth yr Awdurdod, neu
- yn rhwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol pan nad yw'n debygol fod angen trosglwyddo buddiannau economaidd, neu pan na ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddigon dibynadwy.

DYLEDWR - Swm sy'n ddyledus i'r Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaethau a gyflenwyd o fewn y cyfnod cyfrifo, ond na wnaed taliad ar eu cyfer cyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

EIDDO BUDDSODDI - Eiddo sy'n cael ei ddal yn unig er mwyn cael enillion rhenti neu adbrisiant cyfalaf neu'r ddau.

EITEMAU ANGHYFFREDIN - Eitemau o bwys, sydd â graddfa fawr o abnormaledd, sy'n deillio o ddigwyddiadau neu drafodion oddi allan i weithgarwch arferol yr awdurdod nad oed disgwyl iddynt ddigwydd eto. Nid ydynt yn cynnwys eitemau eithriadol, nac yn cynnwys eitemau o gyfnod blaenorol dim ond oherwydd eu bod yn gysylltiedig â chyfnod blaenorol.

EITEMAU EITHRIADOL - Eitemau o bwys sy'n deillio o faterion neu drafodion sydd o fewn gweithgareddau arferol yr Awdurdod y mae angen eu datgelu ar wahân yn rhinwedd eu maint neu eu nifer er mwyn rhoi cynrychiolaeth deg o'r cyfrifon.

ENILLION A CHOLLEDION ACTIWARAIDD - Mewn cynllun pensiwn â buddion diffiniedig, y newidiadau mewn gwargedau neu ddiffygion actiwaraidd sy'n digwydd oherwydd:

- nad yw digwyddiadau wedi cyd-fynd â'r rhagdybiaethau actiwaraidd a wnaed ar gyfer y prisiad diwethaf (profi enillion a cholledion); neu
- fod y rhagdybiaethau actiwaraidd wedi amrywio

GRANT CYNNAL REFENIW - Grant a dalwyd gan y Lywodraeth Ganolog i awdurdodau, sy'n cyfrannu at gost cyffredinol eu gwasanaethau.

GRANTIAU LLYWODRAETH - Grantiau gan y llywodraeth tuag at wariant refeniw neu gyfalaf yn gyfnewid am gydymffurfiaeth yn y gorffennol neu yn y dyfodol ag amodau penodol yn ymwneud â gweithgareddau'r Cyngor. Gall y grantiau fod yn benodol i gynllun neilltuol neu gallant fod yn cefnogi gwariant refeniw neu gyfalaf (yn y drefn honno) yr Awdurdod yn gyffredinol.

GWAITH AR Y GWEILL - Cost gwaith a wnaed ar brosiect anghyflawn ar ddyddiad y fantolen, ac y dylid rhoi cyfrif amdano.

GWARIANT CYFALAF - Gwariant wrth gaffael ased anghyfredol, a fydd yn cael ei defnyddio i ddarparu gwasanaethau y tu hwnt i'r cyfnod cyfrifo presennol neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased anghyfredol bresennol, yn hytrach na dim ond cynnal y gwerth hwnnw'n unig.

GWARIANT REFENIW - Gwariant darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd.

GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF TRWY STATUD (REFCUS) - Gwariant y gellir ei ddosbarthu fel arian cyfalaf i bwrpasau ariannu pan nad yw'n arwain at nodi gwariant ar y Fantolen fel ased anghyfredol. Mae hyn i'w alluogi i gael ei ariannu o adnoddau cyfalaf. Enghreifftiau o REFCUS yw grantiau o natur cyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI - Caffael a gwaredu asedau tymor hir a buddsoddiadau eraill nad ydynt wedi eu cynnwys o fewn cywerthoedd arian parod.

GWEITHGAREDDAU CYLLIDO - Gweithgareddau sy'n arwain at newidiadau ym maint ac yng nghyfansoddiad y prifswm a dderbyniwyd neu a ad-delir i ddarparwyr cyllid allanol.

GWEITHGAREDDAU GWEITHREDOL - Gweithgareddau'r Cyngor nad ydynt yn weithgareddau buddsoddi nac ariannu.

GWERTH DEFNYDD PRESENNOL - Y swm yr amcangyfrifir y dylai eiddo gyfnewid amdano ar ddyddiad prisiad rhwng prynwr parod a gwerthwr parod mewn gwerthiant hyd braich, yn dilyn ei farchnata'n briodol fel y bo'r partion wedi gweithredu yn wybodus, yn ddarbodus a heb eu gorfodi. Tybir y rhoir meddiant, yn wag, i'r prynwr o bob rhan o'r eiddo y mae eu hangen ar y busnes gan ddiystyru unrhyw ddefnydd amgen posibl ac unrhyw nodweddion eraill o'r eiddo a fyddai'n achosi i'w werth ar y farchnad fod yn wahanol i'r hyn y byddai ei angen i gymryd lle'r potensial gwasanaeth gweddillol am y costau lleiaf.

GWERTH GWEDDILLIOL - Gwerth gwiredadwy net yr ased ar ddiwedd ei fywyd defnyddiol.

GWERTH LLYFR NET - Y swm a nodir ar gyfer asedau anghyfredol yn y fantolen, h.y. eu costau hanesyddol neu eu gwerth presennol llai y symiau cronus a roddir ar gyfer dibrisiant ac amhariad.

GWERTH TEG - Gwerth teg unrhyw ased yw'r swm y gellir ei gyfnewid amdano, neu setliad dyled, rhwng partion gwybodus, parod mewn gwerthiant hyd braich.

GWERTH TRETADWY - Gwerth rhent tybiedig blynyddol yr eiddo, sy'n cael ei ddefnyddio i bwrpasau ardrethi annomestig.

INCWM - Symiau y mae'r Cyngor yn eu derbyn neu'n disgwyl eu derbyn o unrhyw ffynhonnell, gan gynnwys ffioedd, gwerthiannau a grantiau.

ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW - Yr isafswm y mae'n rhaid codi ar ei gyfer yn y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn gallu darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau a symiau eraill sydd wedi cael eu benthycu gan y Cyngor.

LLIFOEDD ARIAN - Mewnlif ac all-lif arian parod a chywerthoedd arian parod.

MATEROLIAETH - Y cysyniad y dylai'r Datganiad Cyfrifon gynnwys yr holl symiau, y byddai disgwyl iddynt, pe caent eu gadael allan neu eu camddyfyngu, arwain at lurgunio'r datganiadau ariannol a charmarwain defnyddwyr y cyfrifon maes o law.

OFFERYN ARIANNOL - Unrhyw gontract sy'n peri bod ased ariannol gan y naill endid ac yn peri bod dyled ariannol neu offeryn ecwiti gan y llall. Mae'r term yn cynnwys asedau ariannol a dyledion ariannol, o dderbyniadwyon masnachu (anfonebau dyledus) a thaladwyon masnachu (anfonebau dyladwy) syml hyd at ddeilliadau cymhleth a deilliadau sefydlog.

PARTIÖN CYSYLLTIEDIG - Credir bod partiön yn gysylltiedig os oes gan un parti y gallu i reoli'r parti arall neu ddylanwadu yn sylweddol ar y parti arall wrth wneud penderfyniadau ariannol neu weithredol.

PARTNERIAETHAU PREIFAT CYHOEDDUS (PPC) - Menter ar y cyd lle bydd partner sector preifat yn cytuno i roi gwasanaethau i, neu ar ran sefydliad sector cyhoeddus. Mae Cynllun Ariannu Preifat yn fath o PPC.

POLISIÄU CYFRIFO - Yr egwyddorion, y seiliau, y confensiynau, y rheolau a'r arferion penodol a gymhwysir gan y Cyngor wrth baratoi a chyflwyno ei ddatganiadau ariannol.

PRAESEPT - Yr ardoll y bydd awdurdodau praeseptio yn ei chodi ar awdurdodau bilio, sy'n ei gwneud yn ofynnol ar i'r olaf gasglu incwm gan drethdalwyr y cyngor ar eu rhan.

PRYDLES - Cytundeb pan fo'r prydleswr yn rhoi'r hawl i'r prydlesai ddefnyddio ased am gyfnod, yn gyfnewid am daliad neu gyfres o daliadau.

PRYDLES ARIANNOL - Prydles sy'n trosglwyddo bron y cyfan o'r risgiau a'r gwobrau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar ased i'r prydleswr.

PRYDLES WEITHREDOL - Prydles pan fo perchnogaeth yr ased anghyfredol yn aros gyda'r prydleswr.

RHAGLEN GYFALAF - Y cynlluniau cyfalaf y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gweithredu mewn cyfnod penodedig.

RHESTRAU EIDDO - Yr eitemau hynny o ddeunyddiau crai ac o gyflenwadau y mae'r Awdurdod wedi eu caffael ac sy'n cael eu dal ganddynt yn y disgwyl y bydd iddynt ddefnydd yn y dyfodol.

RHWYMEDIGAETHAU'R CYNLLUN PENSIWN - Rhwymedigaethau cynllun pensiwn â buddion diffiniedig ar gyfer treuliau sy'n ddyledus ar ôl dyddiad y prisiant. Mae rhwymedigaethau'r cynllun sydd wedi eu mesur yn defnyddio'r dull rhagamcanu unedau yn adlewyrchu'r buddiannau y mae'r cyflogwr wedi ymrwymo i'w darparu am wasanaeth hyd at ddyddiad y prisiad.

TÄL - Bydd pob swm sy'n cael ei dalu neu ei dderbyn gan weithiwr a symiau sy'n ddyledus trwy lwfansau treuliau (os yw'r symiau hynny yn berthnasol i dreth incwm y DU) a gwerth ariannol unrhyw fuddiannau sy'n cael eu derbyn, ac eithrio mewn arian parod.

TRAFODION PARTIÖN CYSYLLTIEDIG - Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu unrhyw drafodion pwysig rhwng yr Awdurdod a phartiön cysylltiedig i sicrhau bod budd-ddeiliaid yn ymwybodol pan fydd y trafodion hyn yn digwydd a swm a goblygiadau hynny.

TREFNIADAU ASIANTAETHOL - Trefniant rhwng dau sefydliad pan fydd un yn gweithredu fel asiant, yn casglu arian ar ran y llall, ac yna'n talu'r arian iddo.. Enghraifft o hyn yw casgliadau Ardrethi Annomestig Cenedlaethol, pan fo'r Cyngor yn gweithredu fel yr asiant bilio ar ran llywodraeth ganolog, yn casglu arian gan dreth dalwyr ar ran llywodraeth ganolog ac yna talu'r arian hwnnw yn ei flaen iddynt.

TREFNIANT CONSESIWN GWASANAETH - Mae cytundeb consesiwn gwasanaeth yn gyffredinol yn golygu y bydd y rhoddwr (corff sector cyhoeddus fel arfer) yn cyfleu i'r gweithredwr (endid sector preifat fel arfer), am gyfnod y consesiwn, yr hawl i ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi mynediad i'r cyhoedd i gyfleusterau economaidd a chymdeithasol mawr.

Y FANTOLEN - Datganiad ynglŷn ag asedau, dyledion a chronfeydd wrth gefn a gofnodwyd ar ddiwedd y cyfnod cyfrifo.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

Cyngor Sir Ddinbych

Blwyddyn archwilio: 2015-16

Cyhoeddwyd: Medi 2016

Cyfeirnod y ddogfen: 526A2016

Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Anthony Veale, Michelle Phoenix a Gareth Evans a thîm archwilio Cyngor Sir Ddinbych

Cynnwys

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamed ar eich datganiadau ariannol. Mae rhai materion i'ch hysbysu amdanynt cyn eu cymeradwyo.

Adroddiad cryno

Cyflwyniad	4
Statws yr archwiliad	4
Adroddiad archwilio arfaethedig	4
Materion o bwys sy'n deillio o'r archwiliad	5
Datgeliadau pensiwn	7
Annibyniaeth a gwrthrychedd	7

Atodiadau

Llythyr Sylwadau Terfynol	8
Adroddiad archwilio arfaethedig Archwilydd Cyffredinol Cymru	11
Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol atynt	13

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

1. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) ar 31 Mawrth 2016 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.
2. Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.
3. Y symiau meintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i'r Cyngor yw £3.567 miliwn ar gyfer eitemau incwm a gwariant, balansau cyfalaf gweithio, ac ar gyfer balansau eraill. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.
4. Mae Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gofnodi rhai materion sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu corff mewn da bryd i gymryd camau priodol.
5. Mae'r adroddiad hwn yn nodi, i'w hystyried, y materion sy'n deillio o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol y Cyngor ar gyfer 2015-16, y mae angen cyflwyno adroddiad arnynt o dan ISA 260.

Statws yr archwiliad

6. Cawsom y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 ar 21 Mehefin 2016, naw diwrnod gwaith cyn y terfyn amser statudol, sef 30 Mehefin 2016, ac rydym bellach wedi cwblhau'r gwaith archwilio fwy neu lai. Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, mae'r meysydd canlynol heb eu datrys:
 - cwblhau ein gwaith ar Eiddo, Offer a Chyfarpar;
 - gweithdrefnau cwblhau ac adolygu'r datganiadau ariannol terfynol; a
 - gweithdrefnau adolygiad archwilio terfynol.
7. Hoffem dynnu sylw'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol hefyd at y ffaith ein bod wedi derbyn hysbysiad gan etholwr ynghylch gwrthwynebiad posibl i ddatganiadau ariannol 2015-16. Rydym wrthi'n cadarnhau manylion y gwrthwynebiad posibl hwn ac a oes unrhyw oblygiadau i ddatganiadau ariannol 2015-16. Byddwn yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ynghyd â'r materion a grybwyllwyd ym mharagraff 6 uchod yn ei gyfarfod a drefnwyd ar gyfer 28 Medi 2016.
8. Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion pwysicaf sy'n deillio o'r archwiliad, y credwn y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae'r tîm archwilio eisoes wedi trafod y materion hyn gyda swyddogion y Cyngor, gan gynnwys Swyddog Adran 151.

Adroddiad archwilio arfaethedig

9. Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol unwaith y byddwch wedi darparu Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn [Atodiad 1](#).
10. Nodir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn [Atodiad 2](#).

Materion o bwys sy'n deillio o'r archwiliad

Camddatganiadau nas cywirwyd

11. Ni nodwyd unrhyw gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol, nad ydynt wedi'u cywiro eto.

Camddatganiadau a gywirwyd

12. Mae yna gamddatganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. Fe'u nodir gydag esboniadau yn [Atodiad 3](#).

Materion pwysig eraill sy'n deillio o'r archwiliad

13. Fel rhan o'r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n berthnasol i'r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion o bwys sy'n codi. Roedd rhai materion yn codi yn y meysydd hyn eleni:
 - **Nid oes gennym unrhyw bryderon ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol.** Cafwyd gennym fod y wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy ac yn hawdd ei deall. Daethom i'r casgliad bod y polisïau a'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol a bod datgeliadau'r datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn glir.
 - **Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad.** Cawsom wybodaeth mewn modd amserol a defnyddiol ac ni chyfyngwyd ar ein gwaith.
 - **Ni wnaethom drafod na gohebu â rheolwyr am unrhyw faterion sylweddol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.**
 - **Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol.**

-
- **Nid oes unrhyw faterion eraill sy'n arwyddocaol i'r gwaith o oruchwylio'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt:**
 - **Cofrestr asedau sefydlog** - o gofio gwerth yr asedau a ddelir gan y Cyngor ac amrywiaeth yr asedau hynny, mae'n bwysig bod y Cyngor yn cadw cofrestr gynhwysfawr a chywir o asedau sefydlog. Mae'r Cyngor wedi cadw taenlenni cymhleth ers sawl blwyddyn i ategu ei gofrestr asedau sefydlog. Yn ein hadroddiad atoch yn 2014-15 nodwyd, er bod taenlenni'r gofrestr asedau sefydlog yn cael eu cynnal yn dda ac yn ategu'r gwaith o baratoi'r datganiad cyfrifon, ein bod yn ymwybodol y dylai'r Cyngor ystyried uwchraddio i gofrestr asedau sefydlog integredig i gefnogi proses symlach o gau cyfrifon, hwyluso'r ymarferion prasio blynyddol a gwella'r cysylltiadau rhwng y swyddogaeth gyfrifyddu (Adran Gyllid) a'r swyddogaeth stiwardio a gyflawnir gan y Gwasanaethau Amrywiol. Dylai'r angen i gau cyfrifon awdurdodau lleol yn gynt dros y blynyddoedd nesaf fod yn ysgogydd allweddol yn ystyriaethau'r Cyngor. Er i rywfaint o gynnydd gael ei wneud o ran arfarnu opsiynau, nid yw'r Cyngor wedi caffael diweddariad i'r gofrestr asedau sefydlog eto. Ailadroddwn yr argymhelliad a wnaed gennym yn 2014-15 y dylai'r Cyngor ystyried hyn yn y dyfodol
 - **Awdurdodi anfonebau** – yn ystod ein harchwiliad gwnaethom adolygu sampl o drafodion gwariant a nodwyd sawl enghraifft lle yr aethpwyd y tu hwnt i derfynau awdurdodi unigolyn o fewn y system prynu anfonebau electronig. Cadarnhaodd adolygiad pellach nad oedd unrhyw broblemau o ran dilysrwydd y taliadau a oedd yn cael eu gwneud. Fodd bynnag, mae ein gwaith wedi nodi rhai gwendidau yn y rheolaethau mewnol yn ymwneud â gwariant y mae'r Cyngor yn cymryd camau i fynd i'r afael â nhw. Yn y lle cyntaf, mae hyn yn golygu adolygu lefelau awdurdodi a'u gosod yn briodol ar gyfer swyddogion perthnasol.

-
- **Datgeliadau pensiwn** - Mae Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 19 (Buddiannau Cyflogeion) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff ddatgelu yn eu datganiadau ariannol blynyddol yr asedau, rhwymedigaethau a thrafodion, ynghyd â gwybodaeth benodol am dybiaethau sylfaenol, mewn perthynas â buddiannau ymddeol.

Seilir y ffigurau a ddatgelir yn y datganiadau ariannol ar 'Ffigurau Cyfrifyddu'r Cynllun Pensiwn' a baratoir yn flynyddol gan actiwari Cronfa Bensiwn Clwyd, Mercer ('yr Actiwari'). Yn eu tro, mae'r ffigurau a ddarperir i'r Actiwari yn dibynnu ar ddata cywir a roddir iddynt gan awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiwn Clwyd ('y Gronfa').

Nododd archwilyr y Gronfa nad oedd y wybodaeth a oedd yn cael ei rhoi i'r Actiwari o ran data aelodaeth y Cyngor yn hollol gyfredol. Er ein bod yn fodlon nad yw hyn yn cael effaith berthnasol ar gyfrifon 2015-16, mae perygl bod data anghywir yn cael effaith sylweddol ar y ffigurau cyfrifyddu blynyddol a'r prisiad tair blynedd a baratoir gan yr Actiwari.

Mae'n hollbwysig felly bod cofnodion aelodaeth yr awdurdod gweinyddu yn gyfredol a'u bod yn cofnodi data yn gywir ar gyfer cofnodion gweithredol, gohriedig a phensiynwyr. Mae angen i gorff y cyflogwr (drwy ei dîm cyflogres) a'r awdurdod gweinyddu gydweithio er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae gwneud hyn yn golygu y gall yr Actiwari baratoi datganiadau blynyddol IAS19, a'r prisiad tair blynedd, yn seiliedig ar ddata cadarn.

- **Nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl safonau archwilio, gael eu cyfleu i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu.**

Annibyniaeth a gwrthrychedd

14. Fel rhan o'r broses derfynol, mae'n ofynnol i ni roi sylwadau i chi ynghylch ein hannibyniaeth.
15. Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac, yn ein barn broffesiynol, rydym yn annibynnol ac ni chaiff ein gwrthrychedd ei beryglu. Nid oes unrhyw gydb berthnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Cyngor sy'n effeithio ar ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn ein barn ni.

Atodiad 1

Llythyr Sylwadau Terfynol

Cyngor Sir Ddinbych

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

28 Medi 2016

Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2015-16

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 er mwyn mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt ac i ba raddau y maent wedi'u paratoi'n briodol.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau rheolwyr

Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau o ran y canlynol:

- Paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16; yn arbennig, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny.
- Cynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

Gwybodaeth a roddwyd

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

- Mynediad llawn i'r canlynol:
 - yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
 - gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; a
 - mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt, yn eich barn chi.

-
- Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu cam-ddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll.
 - Ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir rydym yn ymwybodol ohoni ac sy'n effeithio ar Gyngor Sir Ddinbych ac sy'n ymwneud â:
 - rheolwyr;
 - cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
 - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
 - Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
 - Ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol. diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
 - Manylion yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

Sylwadau ar y datganiad ariannol

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymglyfreitha a hawliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Ni nodwyd unrhyw gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol, nad ydynt wedi cael eu cywiro.

Sylwadau gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Gyngor Sir Ddinbych ar 28 Medi 2016.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod y wybodaeth honno wedi'i throsglwyddo i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:

Richard Weigh (Swyddog A151)

Dyddiad: 28 Medi 2016

Llofnodwyd gan:

Y Cynghorydd Jason McClellan
(Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu
Corfforaethol)

Dyddiad: 28 Medi 2016

Atodiad 2

Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Aelodau Cyngor Sir Ddinbych

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ddinbych a'r nodiadau cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ddinbych yn cynnwys y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, y Datganiad Symudiadau ar y Cyfrif Refeniw Tai a Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon [a nodir ar dudalen ... i ...], y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu

Mae a wnelo archwiliad â chael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Sir Ddinbych a pha un a ydynt wedi'u defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a'r ffordd y cyflwynwyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn gyffredinol.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Naratif er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel pe bai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaw i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ddinbych

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ddinbych ar 31 Mawrth 2015 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny ac
- maent wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â'r canllawiau.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Ar dystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ddinbych yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Dros ac ar ran
Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd

30 Medi 2016

Atodiad 3

Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol atynt

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi'r camddatganiadau canlynol a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol.

Gwerth y cywiriad	Natur y cywiriad	Rheswm dros y cywiriad
£1,326.000	<p>Gwnaed addasiad i gynyddu prisiad Anheddau'r Cyngor yn dilyn prisiad diwygiedig ar gyfer y cyfnod rhwng 2011 a 2016 gan ddefnyddio'r fethodoleg brisio gywir.</p> <p>Mae hyn wedi effeithio ar y meysydd canlynol o fewn datganiadau ariannol 2015-16:</p> <ul style="list-style-type: none">Nodyn 13 Eiddo, Offer a Chyfarpar a'r fantolen: Gwerth llyfr net anheddau'r CyngorNodyn 22 Cronfeydd wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio - Cronfa'r CyngorNodyn 23 Cronfeydd Wrth Gefn na Ellir eu Defnyddio - cronfa ailbrisio wrth gefnNodyn 27 Swm adroddwyd ar gyfer penderfyniadau dyrannu adnoddauMantolenDatganiad llif arian parodCost gwasanaethauCyfanswm yr incwm a'r gwariant cynhwysfawrSymudiadau yn y datganiadau wrth gefnNodyn 7 Addasiad rhwng sail cyfrifeg a sail cyllido yn unol â rheoliad.Datganiadau HRA <p>Nodiadau a datgeliadau amrywiol eraill</p>	<p>Er mwyn sicrhau bod prisiad Anheddau'r Cyngor yn unol â sail Gwerth Defnydd Presennol Tai Cymdeithasol (EVU-SH) fel sy'n ofynnol yn ôl Safonau Prisiadau Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr yn unol â chanllawiau CIPFA a'r Trysorlys</p>

Gwerth y cywiriad	Natur y cywiriad	Rheswm dros y cywiriad
£3,305,000	<p>Diwygiadau i werth llyfr net Asedau sydd wrthi'n cael eu Hadeiladu (AUC) o fewn nodyn 13 Eiddo, Offer a Chyfarpar i ddileu lleihad mewn gwerth a godwyd yn anghywir.</p> <p>Mae hyn wedi effeithio hefyd ar Gost Gwasanaethau, gan leihau'r costau a godir ar wasanaethau o swm cyfatebol.</p> <p>Nid oes effaith gyffredinol ar Gronfa'r Cyngor gan fod yr addasiad yn cael ei drosglwyddo yn y pen draw i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.</p>	Er mwyn sicrhau bod y driniaeth gyfrifyddu o AUC yn unol â gofynion y Cod Ymarfer.
£3,768,00	<p>Cynyddodd Eiddo Buddsoddi o £586,000 a lleihaodd Asedau sydd wrthi'n cael eu Hadeiladu o £4,354,000 i gyfrif am gydnabod ased sy'n cael ei ddefnyddio ac i gyfrif am ailbriso'r ased hwn.</p> <p>Ceir cynnydd cyfatebol o ran Cost Gwasanaethau.</p> <p>Nid oes effaith gyffredinol ar gronfa'r Cyngor gan fod yr addasiad yn cael ei drosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.</p>	Er mwyn sicrhau bod y driniaeth gyfrifyddu yn unol â gofynion y Cod Ymarfer.
£720,000	Gostyngiad ym mhrisiad Asedau a Ddelir i'w Gwerthu a symudiad cyfatebol o fewn y gronfa ailbriso wrth gefn/Cost Gwasanaethau.	Er mwyn diwygio prisiad Asedau a Ddelir i'w Gwerthu yn unol â'r prisiad a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

Gwerth y cywiriad	Natur y cywiriad	Rheswm dros y cywiriad
<p>Amrywiol: dim effaith gyffredinol ar y canlyniadau a gofnodwyd</p>	<p>Diwygiadau i ddatgeliadau o fewn nodyn 13 (Offer, Eiddo a Chyfarpar) a nodyn 14 (Eiddo Buddsoddi) fel y'u crynhoir:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darperir naratif pellach o dan nodyn Eiddo, Offer a Chyfarpar i egluro 'Symudiadau eraill o ran cost neu brisiad'. • Darperir naratif pellach i esbonio'r polisi cyfrifyddu dibrisiant a gymhwysir at Asedau Dros Ben. • Lleihodd dibrisiant cronedig Asedau sydd wrthi'n cael eu Hadeiladu (AUC) a chynyddodd cost Asedau tir ac adeiladau eraill o £976,000 i ddangos cost gros asedau a drosglwyddwyd yn ystod y flwyddyn. Ailbriswyd yr asedau yma yn y pen draw a chyfrifwyd trwy'r gweddill dros ben/diffyg yn narpariaeth gwasanaethau, y cyfrif addasiad cyfalaf a'r ailbrisiad wrth gefn. • Ymrwymadau Cyfalaf - darparwyd naratif pellach i esbonio'r datgeliadau. • Dosbarthiad rhwng asedau dros ben, eiddo buddsoddi a thir ac aeiladau eraill o £997,000 wedi ei egluro a'i gywiro • Cynnydd net yng ngwerth Eiddo Buddsoddi i adlewyrchu tanddatganiad mewn ailbrisiadau a gofnodwyd o fewn y gofrestr asedau sefydlog o £23,000. Mae newidiadau cyfatebol yn y gweddill dros ben/diffyg yn narpariaeth gwasanaethau a'r cyfrif addasiad cyfalaf. • Digydnabyddiaeth asedau dim gwerth llyfr net wedi'u hailddosbarthu o fewn nodyn 13 fel 'digydnabyddiaeth arall' yn lle 'symudiadau eraill o ran cost neu brisiad'. 	<p>Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r Cod Ymarfer a gwella eglurder y datgeliadau.</p>

Gwerth y cywiriad	Natur y cywiriad	Rheswm dros y cywiriad
Amrywiol	<p>Cafodd nifer o fân ddiwygiadau o ran naratif a chyflwyniad a diwygiadau eraill eu gwneud i'r cyfrifon. Y prif nodiadau yr effeithiwyd arnynt oedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad Naratif • Nodyn 11 Eiddo treth gyngor • Nodyn 21 Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd • Nodyn 28 Trefniadau partneriaeth • Nodyn 31 Adroddiad cydnabyddiaeth • Nodyn 33 Grantiau • Nodyn 34 Cwmnïau Cysylltiedig 	<p>Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r Cod, sicrhau cywirdeb y cyflwyniad yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, a gwella neu gywiro datgeliadau naratif.</p>

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales



WALES AUDIT OFFICE

SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

**Adroddiad ar ansawdd y gwasanaethau gwella
ysgolion a ddarperir gan
Gonsortiw m Gogledd Cymru**

**Consortiw m Gogledd Cymru
Bryn Eirias
Ffordd Abergele
Bae Colwyn
Conwy
LL29 8BY**

Ebrill 2016

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/06/2016

Cyd-destun

Proffil rhanbarthol

Mae GwE yn darparu gwasanaethau gwella ysgolion ar gyfer rhanbarth sy'n cynnwys chwe awdurdod lleol, sef: Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn.

Roedd 80,110 o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol yn y rhanbarth yn 2015. Mae hyn gyfwerth â 22% o'r holl ddisgyblion yng Nghymru. Mae 439 o ysgolion a gynhelir yn y rhanbarth, sef 28% o'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru (CYBLD, 2015).

Mae 16% o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae hyn islaw'r ffigur cenedlaethol, sef 19%. Y lefel cymhwysedd hon yw'r isaf o'r pedwar consortia rhanbarthol (CYBLD, 2015).

Yn y rhanbarth, dywed 31% o bobl tair oed a hŷn eu bod yn medru'r Gymraeg o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 19% (Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol).

Ar 31 Rhagfyr 2015, mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 2% o'r boblogaeth yn y rhanbarth, ac mae hyn ychydig islaw cyfartaledd Cymru.

Ar 31 Mawrth 2015, mae 1,000 o blant yn y rhanbarth yn cael gofal gan awdurdod lleol, ac mae hyn gyfwerth ag 18% o blant sy'n cael gofal yng Nghymru.

Cyd-destun perfformiad

Gogledd Cymru sydd â'r gyfran isaf o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o'r pedwar rhanbarth yng Nghymru.

At ei gilydd, cyfradd y gwelliant yn neilliannau disgyblion yng Ngogledd Cymru ar draws llawer o ddangosyddion dros dair blynedd hyd at 2015 oedd yr arafaf o'r pedwar rhanbarth. Er Medi 2012, fodd bynnag, barnwyd bod dros hanner yr ysgolion uwchradd yn dda neu'n well am eu safonau adeg eu harolygu. Mae hon yn gyfran uwch o'i chymharu â gweddill Cymru.

Ym mron pob un o'r prif ddangosyddion yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 4, mae o leiaf hanner ysgolion y rhanbarth yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg yn 2015. Yn y ddau gyfnod hwn, mae hwn wedi bod yn ddarlun sy'n dirywio dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gan fod perfformiad mewn rhanbarthau eraill wedi gwella ar gyfraddau cyflymach. Fodd bynnag, mae deilliannau a aseswyd gan athrawon yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 yn fwy cadarnhaol o gymharu â deilliannau ysgolion tebyg ledled Cymru.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 wedi cynyddu ychydig o gymharu â'r cyfraddau cyffredinol ledled Cymru. Fodd bynnag, dim ond gwahaniaeth bach sydd rhwng y rhanbarthau yn y ddau gyfnod, gyda rhyw 17 o bob 20 disgybl yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen a'r

dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod yn y drefn honno ar draws yr holl ranbarthau. Adeg eu harolygu, cafodd cyfran uwch o ysgolion cynradd eu barnu'n dda neu'n well am eu safonau er Medi 2012 o gymharu â gweddill Cymru'n gyffredinol.

Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3 wedi cynyddu'n gyflymach na chyfradd Cymru dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2015, y perfformiad oedd yr uchaf yng Nghymru. Mae dros hanner yr ysgolion yn y rhanbarth yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru. Fodd bynnag, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 yn groes i berfformiad yng nghyfnod allweddol 4.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2 gan gynnwys gradd TGAU A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg wedi gwella'n arafach o lawer na hynny a welwyd ledled Cymru'n gyffredinol dros y tair blynedd diwethaf. Er 2013, mae'r gyfradd wella o ran y mesur hwn wedi bod traean cyfradd wella yng Nghymru. Nid yw perfformiad ym mhob awdurdod lleol yn y rhanbarth ddim uwch na'r targed meincnod a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015. Mae bron i ddwy ran o dair o ysgolion yn y rhanbarth yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Hefyd, mae dros draean o ysgolion yn y 25% gwaelod pan gaiff eu perfformiad ei gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg.

Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella ar y gyfradd arafaf ar draws y rhanbarthau dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2015, mae cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sydd yn cyflawni trothwy lefel 2, yn cynnwys gradd TGAU A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg, islaw'r gyfradd gyfartalog yng Nghymru o ryw ddau bwynt canran. Mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn debyg i'r darlun cenedlaethol. Fodd bynnag, mae perfformiad bechgyn a merched mewn Saesneg a mathemateg yn rhy amrywiol ar draws awdurdodau lleol.

Mae perfformiad o ran y sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio wedi aros yr un fath yn fras dros y tair blynedd diwethaf, er iddo ddirywio yn 2015. Erbyn hyn, mae'n gyson â pherfformiad ledled Cymru er iddo fod yn gyson uwch yn y pedair blynedd flaenorol. Yn 2015, roedd perfformiad yn hanner y chwe awdurdod lleol yn y rhanbarth islaw'r targed meincnod a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae llai na hanner yr ysgolion yn y rhanbarth yn y 50% uwch pan gaiff eu perfformiad ei gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg, ac mae dros draean o ysgolion yn y 25% gwaelod o gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae perfformiad o ran trothwy lefel 1 wedi gwella ar gyfradd arafach nag ar hyd a lled Cymru dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae mwyafrif yr ysgolion uwchradd yn y 50% uwch pan gaiff eu perfformiad ei gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg.

Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni pum gradd A* neu A mewn TGAU neu gyfwerth wedi dirywio dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2015, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r mesur hwn yn is na'r gyfran yng Nghymru, ac mae perfformiad yn amrywio gormod ar draws yr awdurdodau lleol.

Mae perfformiad mewn Saesneg a mathemateg yn gymharol wan ar draws y rhanbarth. Yn unol â'r dangosyddion eraill yng nghyfnod allweddol 4, y gyfradd wella fu'r wannaf o'r pedwar rhanbarth yn y ddau bwnc. Yn 2015, ar gyfer Saesneg a mathemateg, dim ond rhyw draean o ysgolion sydd yn y 50% uwch pan gaiff eu perfformiad ei gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Yn ogystal, mae gormod o ysgolion yn y 25% gwaelod ar gyfer y pynciau hyn.

Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf, ond yn arafach na gweddill Cymru. Yn 2015, roedd y gyfradd presenoldeb ychydig islaw cyfartaledd Cymru mewn ysgolion cynradd, ac ychydig uwchlaw cyfartaledd Cymru mewn ysgolion uwchradd.

Argymhellion

- A1 Sicrhau bod y gwasanaeth gwella ysgolion yn defnyddio data, gosod targedau a gweithdrefnau olrhain yn fwy effeithiol i herio a chefnogi ysgolion er mwyn gwella perfformiad yr holl ddysgwyr ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4
- A2 Gwella ansawdd arfarnu wrth gyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion
- A3 Gwella trylwyrdeb y trefniadau ar gyfer nodi a rheoli risg
- A4 Sicrhau bod cynlluniau busnes a chynlluniau gweithredol yn cynnwys meini prawf llwyddo clir a bod cynnydd yn erbyn y rhain yn cael ei fonitro'n effeithiol
- A5 Egluro rôl strategol y rhwydweithiau rhanbarthol a'u hatebolrwydd i'r Cyd-bwyllgor
- A6 Datblygu fframwaith priodol ar gyfer asesu gwerth am arian; sicrhau bod cynllun ariannol tymor canolig yn cyd-fynd â'r cynllun busnes, a bod costau ffrydiau gwaith wedi'u nodi'n llawn.

Prif ganfyddiadau

Cymorth ar gyfer Gwella Ysgolion: Digonol

Mae'r consortiw m yn adnabod ei ysgolion yn gynyddol dda. Mae adroddiadau cyn- arolygiad ar gyfer ysgolion a ddarperir gan yr awdurdod lleol, gan ddilyn cyngor gan y consortiw m, yn gyson â deilliannau arolygu i raddau helaeth. Ceir llai o bryderon ymhlith arolygwyr ynglŷn â'r adroddiadau hyn nag mewn rhanbarthau eraill yng Nghymru. Mae deilliannau arolygu yn dangos bod ysgolion wedi'u categorio'n briodol ar y cyfan.

Ym Medi 2015, cyflwynodd y consortiw m ystod o raglenni her a chymorth i ysgolion. Mae'r rhaglenni defnyddiol hyn wedi'u teilwra i ddarparu gwasanaethau cymesur addas i ysgolion yn seiliedig ar eu categori neu fath o ysgol, ac maent yn sicrhau bod ymgynghorwyr her yn cael eu lleoli'n briodol. Mae pob rhaglen yn amlinellu'n glir y modd y bydd y consortiw m yn gweithio gyda'r ysgol, ac yn disgrifio rolau a chyfrifoldebau'r consortiw m, ysgol, awdurdod lleol a, lle bo'n berthnasol, awdurdod esgobaethol. Ym mhob agwedd ar ei waith, mae'r consortiw m yn gweithio'r un mor effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, ac mae'n darparu her a chymorth cyfartal i ysgolion Cymraeg, ysgolion dwyieithog ac ysgolion cyfrwng Saesneg.

Cyn 2015, cafodd cyfran uchel o adnoddau a ffocws yn y consortiw m ei rhoi i wella ysgolion yn y categorïau coch ac ambr. Arweiniodd y gweithgarwch hwn at welliannau mewn llawer o'r ysgolion hyn. Fodd bynnag, arafodd y gyfradd wella mewn ysgolion eraill ac ni wnaeth y consortiw m nodi diffygion a arweiniodd at ddeilliannau annisgwyl o wan yng nghyfnod allweddol 4 yn 2015. Golygai anghysonderau mewn gosod targedau ac olrhain deiliannau rhagamcanol ar draws ysgolion uwchradd y rhanbarth na wnaeth y consortiw m herio tanberfformio yn ddigon cadarn.

Er bod y consortiw m wedi darparu arweiniad pellach i ysgolion ers hynny ar sut y dylid gosod targedau, mae'r targedau canlyniadol a gytunwyd gan ysgolion, awdurdodau lleol a'r consortiw m yn arwain at dargedau rhanbarthol sy'n uwch o lawer na'r targedau yr oedd y consortiw m wedi cytuno arnynt yn flaenorol yn ei gynllun busnes, yn enwedig mewn perthynas â pherfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r dangosyddion perfformiad a ddefnyddir gan ysgolion i osod targedau ac olrhain cynnydd i gyd yn berthnasol. Mae system addas ar waith i fonitro cynnydd ysgolion yn erbyn y dangosyddion perfformiad hyn, a chaiff ei defnyddio'n effeithiol i herio ysgolion yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, er y deilliannau gwan yn ddiweddar, nid yw'n ofynnol i ysgolion uwchradd gytuno ar darged ar gyfer perfformiad pum gradd A*-A yng nghyfnod allweddol 4 ac nid yw cynnydd yn erbyn y dangosydd hwn yn cael ei olrhain.

Mae'r consortiw m wedi gwella ei system rheoli gwybodaeth. Erbyn hyn, mae gan staff y consortiw m fynediad i wybodaeth o ystod ac ansawdd gwell i gynorthwyo eu gwaith, ac maent yn defnyddio'r wybodaeth honno'n fwy effeithiol. Fodd bynnag, nid yw data bob amser yn cael ei ddefnyddio'n ddigon effeithiol na phriodol wrth arfarnu rhaglenni a phrosiectau i gynorthwyo gwella ysgolion.

Mae ansawdd gwaith ymgynghorwyr her wedi gwella ers i'r consortiwm gychwyn ar ei ffurf bresennol yn Ebrill 2013. Mae'r consortiwm wedi darparu cymorth da i ddatblygu rôl ac ansawdd gwaith ymgynghorwyr her a staff eraill sy'n gysylltiedig â gwaith gwella ysgolion. Caiff y rhan fwyaf o ysgolion eu herio'n briodol. Mae prosesau'r consortiwm ar gyfer sicrhau ansawdd gwaith ymgynghorwyr her yn addas ac yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, mae arfarniadau ymgynghorwyr her mewn ychydig o ysgolion yn rhy hael neu'n rhy annelwig, ac nid ydynt yn arfarnu arweinyddiaeth yn ddigon da.

Mae'r rhaglen her a chymorth i ysgolion yn y categori gwyrdd ac ysgolion 'cryf neu sefydledig' yn y categori melyn yn cyflwyno model pwrpasol i ysgolion i herio a chynorthwyo ei gilydd. Mae hwn wedi'i gynllunio i symud y rhanbarth tuag at fodloni un o'i amcanion strategol, sef 'system hunanwella', lle mae arweinwyr addysg yn darparu 'cymorth a her i'w gilydd er mwyn gwella safonau yn yr holl ysgolion'. Mae penaethiaid yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r newid diwylliant hwn ac yn dangos buddion cynnar yn ôl y son. Ceir enghreifftiau o her gadarn a buddiol rhwng penaethiaid sydd yn y flwyddyn gyntaf o'r rhaglen hon. Fodd bynnag, mae arfarniadau mewn adroddiadau adolygu cymheiriaid yn tueddu dibynnu gormod ar ddata, heb wirio hyn yn erbyn tystiolaeth uniongyrchol fel arsylwadau gwersi neu graffu ar waith dysgwyr. Mae ymgynghorwyr her yn ymuno â thrafodaethau rhwng penaethiaid, ond nid ydynt bob amser yn cyflawni eu rôl sicrhau ansawdd yn ddigon trwyadl. Mae cyflwyno 'ysgolion cyd-arweiniol' yn ddiweddar yn cyfrannu at y 'system hunanwella' sy'n datblygu hefyd, trwy ddatblygu gallu ysgolion sydd ag arfer ragorol mewn meysydd penodol i gynorthwyo ysgolion eraill. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effaith y dull gweithredu hwn.

Mae'r consortiwm yn darparu rhywfaint o gymorth yn uniongyrchol i ysgolion, ond mae hefyd yn brocera cymorth o ffynonellau allanol fel penaethiaid o fewn y rhanbarth neu ymgynghorwyr annibynnol. Mae rhaglenni cymorth y consortiwm ar gyfer ysgolion â'r angen mwyaf yn amlinellu eu camau gweithredu ar gyfer y flwyddyn academaidd ac adnoddau cysylltiedig. Fodd bynnag, nid yw'r camau i gynorthwyo'r ysgolion hyn yn ddigon penodol bob amser, a gallai hyn gyfyngu ar eu heffaith.

Mae cymorth i ysgolion i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu ac arweinyddiaeth mewn llythrennedd, rhifedd a phynciau craidd yn ffocws cymorth cadarn i ysgolion. At ei gilydd, mae argaeledd ac ansawdd cymorth wedi gwella yn y rhanbarth, er nad yw gwaith yn cael ei arfarnu'n ddigon da bob amser. Yn ddiweddar, penododd y consortiwm arweinydd strategol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen i fynd i'r afael â gwendidau yng ngwaith y consortiwm hyd yma wrth herio a chynorthwyo ysgolion.

Mae'r consortiwm wedi bod yn araf yn darparu her a chymorth clir a chyson i ysgolion ar leihau effaith amddifadedd ar ddeilliannau. Er bod hwn yn ffocws gwaith ymgynghorwyr her, nid yw defnydd ysgolion o'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei fonitro na'i arfarnu yn drwyadl yn gyson.

Mae'r consortiwm wedi datblygu ystod gynhwysfawr a chydlynus o raglenni i ddatblygu arweinyddiaeth yn y rhanbarth, o baratoi athrawon i ymgymryd â'u rôl arweinyddiaeth gyntaf, i ddatblygu penaethiaid profiadol a llwyddiannus. Mae llawer o'r rhaglen yn rhy newydd i'w harfarnu, ac nid yw rhai agweddau wedi'u cyflawni eto.

Dechreuodd y rhaglen datblygu arweinwyr canol dros flwyddyn yn ôl, ond nid yw'r adroddiad arfarnu a gomisiynwyd gan y consortiw m yn canolbwyntio digon ar effaith.

Mae'r consortiw m yn gweithio'n effeithiol gydag uwch swyddogion a rheolwyr gwasanaethau o bob awdurdod lleol i rannu gwybodaeth berthnasol am ysgolion ac i gefnogi gwaith ei gilydd. O ganlyniad, er enghraifft, mae ymgynghorwyr her yn rhoi ystyriaeth dda i wybodaeth gyd-destunol bwysig am ysgolion, ac mae digon o wybodaeth gan awdurdodau lleol i gefnogi'u defnydd o'u pwerau ymyrryd statudol mewn ysgolion sy'n peri pryder. Mae'r consortiw m yn gweithio'n effeithiol gyda rhaglen Her Ysgolion Cymru Llywodraeth Cymru.

Mae ffocws priodol gan y consortiw m ar ddatblygiadau cenedlaethol fel newidiadau i'r cwricwlwm a chymwysterau, a dulliau i gefnogi datblygiad proffesiynol athrawon. Mae'n ymgysylltu ag ysgolion yn y gwaith cynnar i'w harwain drwy'r newid, er bod y gallu i gynorthwyo ysgolion yn effeithiol yn amrywio. Mae'r consortiw m yn gwella ei allu i gysylltu ysgolion â'i gilydd ar draws y rhanbarth ar gyfer agweddau ar gymorth nad yw'n darparu ar eu cyfer yn uniongyrchol, fel cymorth mewn meysydd pwnc di-graidd.

Arweinyddiaeth: Digonol

Yn ystod ei 18 mis cyntaf yn gweithredu, fe wnaeth arweinyddiaeth y consortiw m ganolbwyntio'n bennaf ar fodloni ei rwymedigaethau i'r cytundebau lefel gwasanaeth gyda'i chwe awdurdod lleol cysylltiedig ac adweithio i anghenion ysgolion. Golygai diffyg gallu yn uwch dîm arweinyddiaeth GwE mai cyfyngedig fu cynnydd o ran datblygu gwasanaeth gwella ysgolion effeithiol.

Ers hynny, mae uwch arweinwyr yn y chwe awdurdod lleol, yn ogystal ag aelodau newydd sydd wedi'u penodi i uwch dîm rheoli GwE, wedi diwygio'u hymagwedd at waith y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol. Mae'r ymagwedd hon yn seiliedig ar weledigaeth o system hunanwella y mae'r mwyafrif o randdeiliaid yn ei deall yn dda yn gyffredinol. O ganlyniad, mae hyder cynyddol, er bregus, ymhlith ysgolion, awdurdodau lleol ac aelodau etholedig yng ngallu'r consortiw m i gyflwyno gwasanaeth gwella ysgolion effeithiol.

Amlinellir y strwythur llywodraethu i gefnogi'r gwasanaeth mewn Cytundeb Rhwng Awdurdodau sy'n diffinio cylch gorchwyl a phwerau dirprwyedig y Cyd-bwyllgor. Mae'r consortiw m wedi bod yn araf yn sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn gyson â disgwyliadau Model Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gweithio Rhanbarthol. Er enghraifft, dim ond ystod y flwyddyn ddiwethaf y cafodd y Bwrdd Cyngori a'r bwrdd rheoli eu sefydlu.

Mae'r Cyd-bwyllgor yn darparu'r modd i uwch arweinwyr yr awdurdodau lleol i arfer eu goruchwyliaeth dros waith y consortiw m ac, ar y cyfan, mae'r aelodau'n deall ac yn cyflawni'u cyfrifoldebau'n briodol. Fodd bynnag, nid yw'r trosolwg strategol ac atebolrwydd gweithio ar y cyd mewn ystod o bartneriaethau wedi'u datblygu'n llawn. Mae'r bwrdd rheoli'n cynnig her briodol i swyddogion y consortiw m yn y rhan fwyaf o feysydd, er nad ydynt yn herio ansawdd prosesau ac adroddiadau hunanarfarnu'r consortiw m yn ddigonol. Mae'r Bwrdd Cyngori yn cynnig her adeiladol a safbwynt annibynnol i waith y consortiw m ar ôl cyfnod cychwynol lle'r oeddent yn ansicr

yn glŷn â chwmpas eu rôl. Mae grwpiau rhanddeiliaid ychwanegol, fel y pennaeth a grwpiau defnyddwyr llywodraethwyr, yn cynorthwyo rheolwr gyfarwyddwr ac uwch reolwr GwE yn dda.

Mae rheolwr gyfarwyddwr ac uwch dîm rheoli GwE wedi darparu arweinyddiaeth bwrpasol wrth ddatblygu ymagwedd gydgysylltiedig at y gwasanaeth gwella ysgolion yn ystod y flwyddyn a hanner diwethaf. Mae cydbwysedd gwell rhwng her a chymorth i ysgolion, ac mae arwyddion fod yr ymagwedd yn cael effaith gadarnhaol ar wella deilliannau mewn ysgolion sydd yn y categorïau coch ac ambr. Mae llai o dystiolaeth yn y cyfnod cynnar hwn fod y gweithio o ysgol i ysgol, ac adolygiadau cymheiriaid mewn ysgolion yn y categorïau gwyrdd a melyn, yr un mor llwyddiannus.

Mae lefel gynyddol o gydweithredu ac ymddiriedaeth rhwng GwE a'i chwe awdurdod lleol cysylltiedig. Mae GwE yn cynorthwyo'r swyddogaeth graffu ar lefel awdurdod lleol unigol trwy ddarparu adroddiadau ar berfformiad a chynnydd ysgolion yn erbyn y blaenoriaethau yng nghynllun yr awdurdod lleol unigol. Yn gyffredinol, mae'r adroddiadau'n hawdd i'w darllen ac yn eglur. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau rhwng y pwyllgorau craffu a swyddogion GwE wedi'u cynllunio ddigon ymlaen llaw bob amser, ac mae hyn yn dwyn pwysau diangen ar swyddogion i ymateb ar fyr rybudd.

Mae cynllun busnes presennol y consortiwm yn amlinellu'r nodau strategol ar gyfer y consortiwm yn dda o fewn gweledigaeth tair blynedd. Mae'r cynllun yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau gwella ysgolion Llywodraeth Cymru a'r rhai ar gyfer y rhanbarth.

Gwella ansawdd: Digionol

Mae uwch arweinwyr yn ystyried barnau'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn briodol. Byddant yn ymgynghori ag ysgolion a phartneriaid eraill yn rheolaidd i fesur barnau, ar ansawdd cyffredinol y gwasanaeth gwella ysgolion yn ogystal ag ar agweddau penodol fel cyrsiau hyfforddi ymarferwyr neu weithredu mentrau newydd.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio ystod addas o dystiolaeth uniongyrchol i lywio'r broses hunanarfarnu. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi data ac asesu perfformiad presennol ysgolion a'r consortiwm yn erbyn cymaryddion a meincnodau perthnasol. Mae'r gwelliant diweddar yn nhrefniadau'r consortiwm i gasglu, rheoli a dadansoddi data wedi galluogi ymgynghorwyr i gefnogi a llywio'u gwaith gydag ysgolion yn fanylach. Fodd bynnag, nid yw uwch arweinwyr bob amser yn defnyddio data ar lefel disgyblion yn ddigon effeithiol i lywio'u barnau yn glŷn â chryfderau a meysydd i'w gwella yn yr holl ddeilliannau perfformiad, er enghraifft wrth ddadansoddi deilliannau grwpiau o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion sy'n agored i niwed, ar lefel ranbarthol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r consortiwm wedi datblygu nifer o raglenni allweddol, fel y rhaglenni datblygu arweinyddiaeth ymarferwyr, a fframwaith her a chymorth diwygiedig y consortiwm. Mae'n rhy gynnar i'r consortiwm arfarnu effeithiolrwydd llawer o'r rhaglenni hyn. Fodd bynnag, mae'r ychydig o arfarniadau sydd wedi'u cynnal yn dibynnu gormod ar dystiolaeth rhy gul, yn tueddu canolbwyntio ar broses yn hytrach na deilliannau ac maent yn rhy ddisgrifiadol yn gyffredinol. Mae hyn yn rhwystro galluoedd uwch arweinwyr i fyfyrion ynghylch effeithiolrwydd cyffredinol y mentrau.

Mae uwch arweinwyr yn defnyddio'r dystiolaeth o weithgareddau hunanarfarnu i lywio'r adroddiad hunanarfarnu presennol. Ar y cyfan, mae'r adroddiad hwn yn rhoi golwg gynhwysfawr o waith y consortiwm. Ar gyfer pob agwedd allweddol, mae'r adroddiad yn cynnwys trosolwg byr defnyddiol o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella, ac amlinelliad o'r gwelliannau sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hunanarfarnu'n rhy ddisgrifiadol yn gyffredinol, ac nid yw'n cynnwys arfarniad digon cadarn o effeithiolrwydd gwaith y consortiwm. At ei gilydd, mae uwch arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth o'r adroddiad hunanarfarnu'n briodol, ynghyd â'r argymhellion yn adroddiad thematig Estyn ym Mehefin 2015 'Gwella Ysgolion drwy Consortia Rhanbarthol', i lywio'u blaenoriaethau cynllunio gwelliant. Mae'r cynllun busnes presennol ar gyfer 2015-2018 yn amlinellu'n briodol beth yw nodau'r consortiwm ar gyfer gwella deilliannau disgyblion ac ar gyfer datblygu strwythurau trefniadol mewnol y consortiwm ymhellach. Mae pum prif faes blaenoriaeth yn sylfaen i'r nodau, sy'n cynnwys targedau perthnasol ar gyfer gwella addysgu a dysgu mewn ysgolion ym mhob cyfnod allweddol, ac ar gyfer gwella ansawdd arweinyddiaeth ymarferwyr ysgol ar bob lefel. Yn ogystal, mae'r blaenoriaethau'n canolbwyntio'n dda ar gynorthwyo ysgolion i ddod yn ysgolion sy'n hunanwella, ac ar sicrhau bod y consortiwm yn gyson o ran ei gymorth a'i her i ysgolion yn y rhanbarth. Mae'r cynllun busnes yn cynnwys ffrwd waith ar gyfer y cyfnod 2015-2016, ac mae'n nodi'n briodol y camau gweithredu, y cyfrifoldebau arweiniol a'r cyfrifoldebau monitro ar gyfer cyflawni'r gwelliannau ym mhob un o'r pum maes blaenoriaeth. Fodd bynnag, mae diffyg targedau y gellir eu mesur neu feini prawf llwyddo clir mewn llawer o'r blaenoriaethau, eu cerrig milltir cysylltiedig, a'r camau cyflawno o fewn y ffrydiau gwaith. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i uwch arweinwyr fesur cynnydd yn y rhanbarth yn ddigon cywir.

Mae'r Bwrdd Cynghori wedi datblygu proses yn ddiweddar ar gyfer nodi a rheoli risgiau. Mae hyn yn cynnwys cofrestr risg ddefnyddiol, gyda chyfeiriadau priodol at effaith bosibl y risgiau a nodwyd ar gyllid a llywodraethu, ac ar gyflawni blaenoriaethau'r cynllun busnes. Fodd bynnag, nid yw'r risgiau hyn yn cael eu hystyried na'u harfarnu'n systematig gan y Cyd-bwyllgor neu grwpiau eraill yr aseiniwyd nhw iddynt. O ganlyniad, mae diffyg perchenogaeth briodol o'r risgiau yn y consortiwm er mwyn gweithio'n effeithiol i liniaru eu heffaith bosibl.

Ceir trefniadau rheoli perfformiad cadarn yn y consortiwm. Mae'r broses yn cynnwys arfarniad priodol o berfformiad staff yn erbyn amcanion blaenorol a chyfleoedd i bennu amcanion sy'n deillio o hunanasesiadau staff. Mae'r amcanion perfformiad y cytunwyd arnynt yn rhai penodol a mesuradwy yn gyffredinol, yn canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau'r cynllun busnes ac ar waith uniongyrchol unigolion gydag ysgolion. Mae trefniadau addas ar waith ar draws y consortiwm i ddelio â thanberfformiad drwy hyfforddiant a datblygiad staff buddiol, a phrosesau anffurfiol a ffurfiol cytûn.

Partneriaethau: Digionol

Yn gyffredinol, mae'r consortiwm yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag ystod o rwydweithiau rhanbarthol i gyflwyno gwasanaethau addysgol nad ydynt wedi'u cynnwys yn ei gyfrifoldebau craidd ar hyn o bryd. Caiff GwE a phob un o'r chwe awdurdod eu cynrychioli ar bob rhwydwaith gan aelodau staff perthnasol. Fodd bynnag, nid yw rôl strategol y rhwydweithiau rhanbarthol a'u hatebolrwydd i'r Cyd-

bwyllgor yn glir ac nid yw cyfeiriad agweddau ar eu gwaith o fewn y Model Cenedlaethol wedi'i nodi'n llawn i'r dyfodol. Mae'r Bwrdd Rheoli wedi nodi'r materion hyn fel risgiau, ac mae ganddo gynlluniau priodol i adolygu rolau a chyfrifoldebau'r rhwydweithiau rhanbarthol erbyn Medi 2016.

Mae'r Rhwydwaith Gwella Ysgolion yn darparu fforwm effeithiol i uwch swyddogion addysg o chwe awdurdod y rhanbarth ac uwch ymgynghorwyr her GwE i weithio ar y cyd ar lefel strategol a gweithredol. Mae hefyd yn ymgymryd â chyfrifoldebau gorchwyl a gorffen priodol ar ran y Bwrdd Rheoli. Er enghraifft, yn ddiweddar cynhaliodd archwiliad o benaethiaid dros dro ar draws y rhanbarth, a defnyddiodd y canfyddiadau'n effeithiol i ddatblygu rhaglen cymorth rhanbarthol sy'n bodloni angen lleol.

Mae Rhwydwaith y Cyfnod Sylfaen yn gweithio'n dda i ddatblygu agweddau ar arfer dda a dulliau hyfforddi ar y cyd ar draws y rhanbarth. Mae penodi uwch ymgynghorydd her ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn ddiweddar yn cryfhau gallu GwE i ddatblygu'r strategaeth ranbarthol ac i fynd i'r afael â gwendidau yng ngwaith y consortiwim hyd yma i gynorthwyo ysgolion.

O ganlyniad i'r gwaith a wnaed gan y Rhwydwaith Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a Chynhwysiant, mae systemau a phrosesau yn fwy cyson ar draws y rhanbarth. Er enghraifft, mae dull cydlynus o gydlynw gwasanaethau ar gyfer disgyblion sy'n derbyn gofal gan yr awdurdodau lleol, ac mae hyn wedi gwella trefniadau i ddisgyblion wrth iddynt symud rhwng ysgolion. Mae gan aelodau'r rhwydwaith ystod dda o wybodaeth am ddysgwyr sy'n agored i niwed yn eu hawdurdod lleol eu hunain. Fodd bynnag, nid oes cyd-ddealltwriaeth eto o gyflawniad a chynnydd y disgyblion hyn ar draws y rhanbarth.

Mae'r Rhwydwaith Cyfrwng Cymraeg a Meithrin Gallu yn gweithio'n dda i hyrwyddo mwy o gydweithredu a rhannu arbenigedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, a gwella cydraddoldeb darpariaeth trwy ddatblygu a rhannu polisiau ac enghreifftiau o arfer dda. Mae'r rhwydwaith wedi cydlynw'r gwaith i ehangu'r 'Siarter Iaith' yn effeithiol ar draws y rhanbarth a Chymru.

Mae'r Rhwydwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a Data, a'r Rhwydwaith Cymorth i Lywodraethwyr yn goruchwylwio ac yn cydlynw ystod o wasanaethau perthnasol. Fodd bynnag, nid yw effaith eu gwaith yn cael ei harfarnu'n ddigon da, ac o ganlyniad, nid yw cynllunio strategol y gwasanaethau hyn yn effeithiol.

Mae'r Rhwydwaith Cyllid ac Adnoddau yn gweithio'n dda i fynd i'r afael â'r materion allweddol sy'n effeithio ar y defnydd o gyllid ar gyfer ysgolion a GwE. Er enghraifft, cyflwynodd y rhwydwaith bapur defnyddiol ar y cyd i'r Bwrdd Rheoli ar ddefnyddio'r Grant Gwella Addysgu. Mae'r rhwydwaith hefyd yn gwneud gwaith gwerthfawr ar gysondeb dirprwyo cyllid grant i ysgolion.

Mae GwE yn cynnal partneriaethau effeithiol gyda sefydliadau addysg bellach drwy ei bresenoldeb yn y Rhwydwaith 14-19 Rhanbarthol. Mae'r rhwydwaith yn datblygu ac yn cyflwyno cyrsiau ar y cyd sy'n bodloni anghenion y rhanbarth yn dda.

Mae'r consortiw wedi datblygu cysylltiadau partneriaeth da gyda'r awdurdodau esgobaethol sy'n cyfrannu'n briodol at gynllunio strategol a gweithredol y consortiw drwy eu cysylltiad â'r Cyd-bwyllgor a grwpiau defnyddwyr.

Mae cydweithredu gyda'r consortia rhanbarthol eraill yng Nghymru yn datblygu'n briodol. O ganlyniad, mae GwE wedi datblygu a chyflwyno rhaglenni datblygu, sydd wedi cael derbyniad da, ar gyfer penaethiaid ac arweinwyr canol profiadol mewn ysgolion y tu allan i Ogledd Cymru. Mae'r consortiw wedi dysgu o arbenigedd consortia eraill, yn enwedig o ran datblygu'r Rhaglen Her a Chymorth, systemau casglu data a rhaglenni datblygiad proffesiynol.

Mae partneriaeth ddatblygol GwE gyda Phrifysgol Bangor yn cynnig cyfleoedd buddiol i wella ansawdd ac ystod ei wasanaethau. Mae arfarniadau cynnar o'r cyntaf o dri phrosiect ar y cyd, sy'n cynnwys 39 o ysgolion, yn awgrymu bod disgyblion wedi gwneud cynnydd sylweddol yn eu medrau darllen. Mae'r bartneriaeth hefyd yn ceisio gwella prosesau ar gyfer arfarnu agweddau ar waith GwE. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i arfarnu effeithiolrwydd y datblygiadau hyn.

Rheoli adnoddau: Anfoddhaol

Yn gyffredinol, mae prosesau rheoli ariannol effeithiol ar waith gan y consortiw. Mae'r cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol, ac mae cyllid craidd a gwariant grantiau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan staff GwE, yr awdurdod lleol cynnal a'r cydbwyllgor. Fodd bynnag, nid yw GwE wedi datblygu ei ddadansoddiad ariannol yn llawn i gefnogi cyflawni ei gynllun busnes tair blynedd. Nid yw GwE wedi datblygu cynllun ariannol tymor canolig eto, na chynllun y gweithlu sy'n gyson â'i gynllun busnes. Mae hyn yn golygu, er bod GwE yn gwneud defnydd mwyfwy effeithiol o ddata i nodi ei flaenoriaethau allweddol, nad yw'r cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol wedi'i ddatblygu'n ddigonol am nad yw'r ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes bob amser yn nodi'n glir yr adnoddau sydd i'w defnyddio.

Mae cyllid craidd yr awdurdodau lleol i GwE yn gyson ag argymhellion y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol. Fodd bynnag, mae rhyw 11% o gyllid craidd GwE yn cael ei gadw gan yr awdurdodau lleol i ddarparu cyngor a chymorth i lywodraethwyr, TGCh rhanbarthol, a chymorth Adnoddau Dynol arbenigol trwy rwydweithiau rhanbarthol. Yr awdurdodau lleol sy'n dal i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, llwybrau dysgu 14-19 a chynlluniau strategol y Gymraeg mewn Addysg a grant y Gymraeg mewn Addysg, ac fe'u hariennir gan yr elfen o'r Grant Gwella Addysg nas dirprwywyd. Mae GwE yn cydnabod y cyfleoedd cyfyngedig i gyflawni arbedion effeithlonrwydd ariannol yn ei fodel presennol, ond mae'n archwilio cynnwys meysydd gwaith ychwanegol yn y dyfodol.

Fe wnaeth swyddogion ystyried ystod o ostyngiadau cyllideb ar gyfer 2016-17; fodd bynnag, roedd y gostyngiad terfynol o 1.6% yn is nag a ragwelwyd. Roedd effaith y gyllideb derfynol ar gyfer 2016-17 yn cael ei hasesu'n llawn adeg yr arolygiad, ond mae GwE o'r farn y bydd yn gallu parhau i ddarparu ei wasanaethau a bodloni ei rwymedigaethau ariannol o fewn y sefyllfa honno gyda llai o gyllid.

Mae GwE yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith i gysoni dyraniadau grant â'i flaenoriaethau, er mai cyfyngedig fu'r cynnydd hyd yma. Mae bellach yn ofynnol i ymgynghorwyr her herio ysgolion ynglŷn â'u defnydd o gyllid grant, ond nid oes set o feini prawf clir i asesu'r defnydd o'r cyllid hwn, ac mae anghysonderau rhwng ysgolion ynglŷn â nodi effaith defnyddio cyllid grant ar ddeilliannau disgyblion. Nid yw GwE yn mynd ati'n systematig ar hyn o bryd i goladu'r wybodaeth a gasglwyd am ddefnydd ysgolion o gyllid grant, ac felly ni fanteisir yn llawn ar y cyfleoedd i rannu arfer effeithiol a dysgu ehangach. Yn 2015, comisiynodd GwE adroddiad ar ddefnyddio cyllid y Grant Amddifadedd Disgyblion gan sampl o ysgolion, ond nid oedd yr adroddiad yn nodi cost yr ymyriadau gwahanol, nac effeithiolrwydd yr ymyriadau hynny.

Cyflawnwyd arbediad cychwynnol o ryw 20% pan sefydlwyd GwE a daethpwyd o hyd i arbedion effeithlonrwydd yn 2015 ar draws swyddogaethau rheoli a gweinyddu. Cafodd yr arbedion hyn eu hailgyfeirio i gynyddu buddsoddiad mewn gweithio gydag ysgolion, ond hyd yma, nid oes fframwaith ffurfiol wedi'i ddatblygu i asesu'r gwerth am arian ehangach y mae GwE yn ei ddarparu. Nid oes barn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar y modd y gellir mesur gwerth arian gweithgareddau GwE, ac mae cryn bwyslais yn cael ei roi ar ganlyniadau lefel 2+ cyfnod allweddol 4 dros amcanion eraill y cynllun busnes.

Nid oedd adolygiad blynyddol GwE ar gyfer 2014-2015 yn cysylltu cost gwasanaethau yn glir gyda'r deilliannau a gyflawnodd. Er enghraifft, mae'r adolygiad blynyddol yn nodi bod defnydd effeithiol wedi'i wneud o'i gyllideb comisiynu. Fodd bynnag, nid yw'r meini prawf ar gyfer barnu felly wedi'u nodi'n glir, ac ni ddarparwyd unrhyw adroddiad i'r Cyd-bwyllgor na'r Bwrdd Rheoli ar y defnydd o'r gyllideb hon.

Nid yw GwE yn arfarnu ac yn adolygu ei wasanaethau a'i fentrau'n rheolaidd yn ystod eu cyfnod gweithredu er mwyn nodi meysydd i'w gwella na gwerth am arian. Yn ddiweddar, nododd GwE fod arfarniadau ei raglenni Arweinwyr Canol a Phenaethiaid wrth eu Gwaith wedi'u seilio ar dystiolaeth gyfyngedig, gan arwain at yr angen am ddull gwerthuso mwy systematig ar gyfer ei Raglen Datblygu a'r Rhaglen Her a Chymorth. Fodd bynnag, nid yw'r dull hwn wedi'i gytuno eto gan y Cyd-bwyllgor.

Mae GwE a'r consortiw m yn cydnabod yr angen i ddatblygu dull o fesur ei werth am arian a datblygu prosesau i ddangos y bydd ei ddefnydd o adnoddau yn cael yr effaith fwyaf bosibl ar ddeilliannau disgyblion. Mae'r diffyg o ran arfarnu'n feirniadol y deilliannau a gyflawnwyd yn erbyn y costau cyflwyno yn golygu nad yw GwE mewn sefyllfa dda ar hyn o bryd i asesu'r modd gorau i ddefnyddio'i adnoddau er mwyn cyflawni'r nodau a'r blaenoriaethau yn ei gynllun busnes.

Atodiad 1

Y tîm arolygu

Iwan Roberts	Arolygydd Cofnodol
Mark Campion	Arolygydd Tîm
Jane McCarthy	Arolygydd Tîm
Tony Bate	Arolygydd Tîm
Clive Phillips	Arolygydd Tîm
Cath Evans	Arolygydd Tîm
Rob Davies	Arolygydd Tîm
Huw Watkins	Arolygydd Tîm
Sue Davies	Arolygydd Tîm
Steve Martin	Swyddfa Archwilio Cymru
Sian Clark	Swyddfa Archwilio Cymru
Gareth Jones	Swyddfa Archwilio Cymru
Rhys Hughes	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Rhestr termau

Y Cwricwlwm Cenedlaethol

Lefelau disgwylidig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd deilliant 5 y Cyfnod Sylfaen, a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r dysgwyr mwy abl gyrraedd lefel 5.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, yn un deg pedwar oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 5 a disgwylir i'r dysgwyr mwy abl gyrraedd lefel 6 neu lefel 7.

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddynodi gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6). Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen yn ymwneud â pherfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen: llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf; datblygiad mathemategol; datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr ennill y lefel ddisgwylidig o leiaf naill ai mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith, ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth i ennill y dangosydd pwnc craidd.

Arholiadau allanol yng nghyfnod allweddol 4 neu yn y sector ôl-16

Y dangosydd pwnc craidd – fel yr uchod.

Cymhwyster lefel 1 – cyfwerth â chymhwyster TGAU, gradd D i G.

Trothwy lefel 1 – rhaid bod dysgwyr wedi ennill llawer o gymwysterau sydd gyfwerth â phum cymhwyster TGAU ar raddau D i G.

Cymhwyster lefel 2 – cyfwerth â chymhwyster TGAU, gradd A* i C.

Trothwy lefel 2 – rhaid bod dysgwyr wedi ennill llawer o gymwysterau sydd gyfwerth â phum cymhwyster TGAU, gradd A* i C.

Trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg – rhaid bod dysgwyr wedi ennill cymwysterau lefel 2 mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith ac mewn mathemateg fel rhan o'u trothwy.

Cymhwyster lefel 3 – cyfwerth â chymhwyster Safon Uwch, gradd A* i C.

Trothwy lefel 3 – rhaid bod dysgwyr wedi ennill llawer o gymwysterau sydd gyfwerth â dau gymhwyster Safon Uwch, gradd A* i E.

